



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cofnod y Trafodion**

**The National Assembly for Wales
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2005
Tuesday, 1 November 2005**

Cynnwys
Contents

Ethol i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol Election to the Local Government Partnership Council	3
Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister	4
Cwestiwn Brys: Nippon Electric Glass Urgent Question: Nippon Electric Glass	29
Datganiad Busnes Business Statement	29
Cwestiwn Brys: Nippon Electric Glass Urgent Question: Nippon Electric Glass	31
Datganiad am Ffliw Pandemig Statement on Pandemic Flu	37
Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders	52
Cynnig Cyfansawdd: Cymeradwyo Gorchmynion Composite Motion: Approval of Orders	54
Cymeradwyo Rheoliadau Hadau Grawnfwyd (Cymru) 2005 Approval of the Cereal Seed (Wales) Regulations 2005	56
Cymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion Buchol (Cyfyngu ar eu Rhoi ar y Farchnad) (Cymru) 2005 Approval of the Bovine Products (Restriction on Placing on the Market) (Wales) Regulations 2005	61
Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru): Byrddau Iechyd Lleol Minority Party Debate (Plaid Cymru): Local Health Boards	69
Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl—Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr Report of the Health and Social Services Committee on the Review of the National Service Framework for Mental Health—Standard 2: User and Carer Participation	95

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Ethol i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol
Election to the Local Government Partnership Council**

The Business Minister (Jane Hutt): I **Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cynigiau fod
propose that

the National Assembly for Wales, in accordance with paragraphs 1(1) and 1(3) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 1998, appoints Brynle Williams AM (Conservative) as a National Assembly member of the Local Government Partnership Council for Wales in place of Glyn Davies AM (Conservative). (NDM2645) *Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraffau 1(1) ac 1(3) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi Brynle Williams AC (Ceidwadwyr) fel aelod y Cynulliad Cenedlaethol ar y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol i Gymru yn lle Glyn Davies AC (Ceidwadwyr). (NDM2645)*

*Cynnig (NDM2645): O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2645): For 40, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Laura Anne
Law, Peter
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Catherine
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn

Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Y Llywydd: Yr wyf wedi cytuno, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, i'r Trefnydd ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog. Mae'r Prif Weinidog yn mynychu gwasanaeth coffa o bwys yn Llundain.

The Presiding Officer: In accordance with Standing Orders, I have agreed to allow the Business Minister to answer questions on behalf of the First Minister, who is attending an important memorial service in London.

Cymru fel Cyrchfan Dwristiaeth Wales as a Tourism Destination

Q1 Lisa Francis: Will the First Minister make a statement on marketing Wales as a tourism destination? OAQ0917(FM)

C1 Lisa Francis: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar farchnata Cymru fel cyrchfan dwristiaeth? OAQ0917(FM)

The Business Minister (Jane Hutt): We intend to continue to promote awareness of Wales as a tourism destination by marketing a consistent brand image.

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yr ydym yn bwriadu parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gymru fel cyrchfan dwristiaeth drwy farchnata delwedd gyson o ran brand.

Lisa Francis: In the First Minister's absence, are you able to tell us the name of the new department entrusted with marketing Wales as a tourism destination after April next year? Constituents who attended a recent tourism meeting were advised that the name of the department will be the 'Welsh Assembly Government department for tourism and leisure'. Can you confirm that this uninspiring and unedifying choice is the correct name? How do you anticipate that this new name will successfully replace the Wales Tourist Board brand and draw tourists to Wales?

Lisa Francis: Yn absenoldeb y Prif Weinidog, a allwch roi inni enw'r adran newydd yr ymddiriedwyd iddi'r gwaith o farchnata Cymru fel cyrchfan dwristiaeth ar ôl mis Ebrill y flwyddyn nesaf? Dywedwyd wrth etholwyr a fynychodd gyfarfod twristiaeth diweddar mai enw'r adran fydd 'Adran twristiaeth a hamdden Llywodraeth Cynulliad Cymru'. A ydych yn gallu cadarnhau mai'r dewis di-fflach a diflas hwn yw'r enw cywir? Sut yr ydych yn rhagweld y bydd yr enw newydd hwn yn disodli brand Bwrdd Croeso Cymru mewn modd llwyddiannus ac yn denu ymwelwyr i Gymru?

Jane Hutt: We know that what tourists want to gain from Wales is an understanding of the country, and the Wales Tourist Board's Big Country campaign sent out a strong message. That is why we used the board to develop a Wales brand. It is clear that, just like the work that has emerged through the Wales Tourist Board and the Welsh Development Agency, post-merger tourism and marketing activity will be robust. It will reach out in the way that the Big Country campaign has done

Jane Hutt: Yr ydym yn gwybod taw'r hyn y mae ar ymwelwyr eisiau ei gael yng Nghymru yw dealltwriaeth o'r wlad, ac yr oedd ymgyrch Gwlad Fawr y bwrdd croeso yn cyfleu neges gref. Dyna pam y defnyddiasom y bwrdd i ddatblygu brand Cymru. Mae'n amlwg, yn union fel y gwaith sydd wedi datblygu drwy Fwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru, y bydd y gweithgarwch yn ymwneud â thwristiaeth a marchnata ar ôl yr uno yn frwd.

over the past year or so.

Bydd yn estyn allan yn yr un ffordd ag y mae'r ymgyrch Gwlad Fawr wedi gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Christine Chapman: Maximising the benefit of tourism has an important role in developing and growing the Welsh economy, but this requires skills such as innovation and entrepreneurship. How is the Welsh Assembly Government reflecting this in its efforts to attract people to work in the tourism industry, particularly in terms of promoting it as an attractive and rewarding long-term option? There is a perception, particularly among young people, that such work is to be done for a short time or temporarily, rather than something to be sought as a career. This idea must be changed.

Christine Chapman: Mae manteisio i'r eithaf ar fudd twristiaeth yn hollbwysig o ran datblygu a meithrin economi Cymru, ond mae hyn yn gofyn am sgiliau megis arloesedd ac entrepreneuriaeth. Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adlewyrchu hyn yn ei hymdrechion i ddenu pobl i weithio yn y diwydiant twristiaeth, yn enwedig o ran ei hyrwyddo fel opsiwn deniadol a boddhaus yn y tymor hir? Ceir tybiaeth, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, fod gwaith o'r fath i'w wneud am gyfnod byr neu'n achlysurol, yn hytrach na rhywbeth i geisio ei gael fel gyrfa. Rhaid newid y syniad hwn.

Jane Hutt: There are huge opportunities, particularly in the work that you have been undertaking, Chris, on the development of the 14-19 agenda, because we know that we must improve the status and skill development opportunities for young people in tourism. Young people in Wales are moving into the tourism, leisure and catering sectors. They will recognise the creativity that will be part of the post-merger tourism and marketing activity and will want to be part of that as we move forward, post 2006, and build on the achievements of the Wales Tourist Board.

Jane Hutt: Ceir cyfleoedd aruthrol, yn enwedig yn y gwaith yr ydych wedi bod yn ymwneud ag ef, Chris, ar ddatblygu'r agenda 14-19, oherwydd yr ydym yn gwybod bod rhaid inni wella statws y gwaith a'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn twristiaeth ymhlith pobl ifanc. Mae pobl ifanc yng Nghymru yn symud i'r sectorau twristiaeth, hamdden ac arlwyo. Dônt i sylweddoli y bydd creadigrwydd yn rhan o'r gweithgarwch ym maes twristiaeth a marchnata ar ôl yr uniad, a bydd arnynt eisiau bod yn rhan o hynny wrth inni symud ymlaen, ar ôl 2006, ac adeiladu ar lwyddiannau Bwrdd Croeso Cymru.

Elin Jones: Mae cael digon o westai a thai bwyta o safon yng Nghymru yn bwysig er mwyn hyrwyddo twristiaeth. A ydych yn barod, ar eich rhan chi eich hunan a'r Prif Weinidog, i longyfarch Neuadd Ynyshir yng Ngheredigion sydd wedi ennill yn ddiweddar y clod o fod y tŷ bwyta gorau yng Nghymru, ac un o'r tai bwyta gorau drwy ynysoedd Prydain?

Elin Jones: It is important to have plenty of good hotels and restaurants in Wales in order to promote tourism. Are you willing, on your own behalf and that of the First Minister, to congratulate Ynyshir Hall in Ceredigion on recently earning the accolade of best restaurant in Wales, and one of the best restaurants throughout the British isles?

Jane Hutt: I would very much like to congratulate Ynyshir Hall in Ceredigion—as I am sure the First Minister would—on that. I have not yet been able to visit it, but I am sure that I will shortly be going there to enjoy its excellence.

Jane Hutt: Carwn yn sicr longyfarch Neuadd Ynyshir yng Ngheredigion—fel yr wyf yn sicr y dymunai'r Prif Weinidog wneud—ar hynny. Nid wyf wedi cael cyfle i ymweld â'r lle eto, ond yr wyf yn sicr o fynd yno'n fuan i flasau ei ogoniannau.

Kirsty Williams: Would the Minister agree that the success of any marketing regime will be based partly on the resources that the

Kirsty Williams: A fyddai'r Gweinidog yn cytuno y bydd llwyddiant unrhyw drefn farchnata yn seiliedig yn rhannol ar yr

Welsh Assembly Government makes available to the new department for marketing purposes? There seems to be a suggestion that the marketing budget allowed to the new expanded economic development division will include less money for performing the functions of the former Welsh Development Agency and Wales Tourist Board than was previously outlined in the corporate plans for both those bodies. The Minister has explained this away by saying that money is available in other budget lines. Will you publish the details of the budget for marketing Wales as a tourist destination for the forthcoming three years?

Jane Hutt: The new post-merger Welsh Assembly Government tourism and marketing department will manage future campaigns and contracts, taking forward what has already been done by the Big Country marketing campaign. It will have to run at the sharp edge. It will also need to tailor promotions to the needs of customers as well as tourism businesses. I know that we will be able to deliver this in terms of both the sharper focus and the budget available to that department.

adnoddau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu rhyddhau i'r adran newydd at ddibenion marchnata? Ymddengys fod awgrym y bydd y gyllideb farchnata a ganiateir i'r is-adran datblygu economaidd estynedig newydd yn cynnwys llai o arian ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r hen Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru na'r hyn a amlinellwyd yn flaenorol yn y cynlluniau corfforaethol ar gyfer y ddau gorff hynny. Mae'r Gweinidog wedi rhoi esboniad slic o hyn drwy ddweud bod yr arian ar gael mewn llinellau cyllideb eraill. A wnewch gyhoeddi manylion y gyllideb ar gyfer marchnata Cymru fel cyrchfan dwristiaeth yn y tair blynedd sydd i ddod?

Jane Hutt: Bydd adran dwristiaeth a marchnata newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl yr uniad, yn rheoli ymgyrchoedd a chontractau'r dyfodol, gan barhau â'r hyn a wnaethpwyd yn barod gan ymgyrch farchnata'r Wlad Fawr. Bydd rhaid iddi gael ei rhedeg yn hynod ragweithiol. Bydd gofyn iddi hefyd deilwra ymgyrchoedd yn ôl anghenion cwsmeriaid yn ogystal ag anghenion busnesau twristiaeth. Gwn y gallwn gyflawni hyn o ran y ffocws cliriach a'r gyllideb sydd gan yr adran honno.

Telegyfathrebu Telecommunications

C2 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â thelegyfathrebu yng Nghymru? OAQ0901(FM)

Jane Hutt: Discussions took place with the Secretary of State for Wales at the launch of BT's twenty-first century network on 4 July 2005. Responsibility for telecommunications policy is not devolved to the Welsh Assembly Government, but is pursued under the Assembly's economic powers.

Rhodri Glyn Thomas: Bu i chi gyfeirio at y cyfrifoldeb o ran y portffolio datblygu economaidd. Mae gennyf yma nifer o achosion yn f'etholaeth i o bobl sy'n cael trafferthion mawr, nid yn unig i gael band eang, ond hyd yn oed i gael gwasanaeth ffôn cyson. Mae'r ardaloedd hynny yn cynnwys

Q2 Rhodri Glyn Thomas: What discussions has the First Minister had with UK Government Ministers regarding telecommunications in Wales? OAQ0901(FM)

Jane Hutt: Cynhaliwyd trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru adeg lansio rhwydwaith yr unfed ganrif ar hugain BT ar 4 Gorffennaf 2005. Nid yw'r cyfrifoldeb dros bolisi telegyfathrebu wedi ei ddatganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond fe'i gweithredir dan bwerau economaidd y Cynulliad.

Rhodri Glyn Thomas: You referred to responsibility in terms of the economic development portfolio. I have here several examples of people in my constituency who are experiencing great difficulty, not only in getting broadband, but also in accessing a consistent level of service on their phones.

Llanpumsaint, Llanwrda, Cynwyl Elfed, Hermon, a Myddfai. Yr hyn sy'n gyffredin am yr holl ardaloedd hyn yw eu bod oll yn ardaloedd gwledig. Mae un busnes yn Nantgaredig wedi colli £20,000 oherwydd diffygion y gwasanaeth ffôn, a hynny yn mynd yn ôl dros nifer o fisoedd. Beth fyddwch chi yn ei wneud, Weinidog, i sicrhau bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn cael y gwasanaeth haeddiannol?

Jane Hutt: To focus particularly on the small and medium-sized enterprise broadband issue, though you have also raised concerns about telephone line access, I know that the SME broadband support scheme has been successful in Carmarthenshire, as I am sure you know. To date, the scheme has awarded grant aid support for 72 SMEs and voluntary sector organisations in the area. The Broadband Wales programme has been very active in Carmarthenshire, in terms of stimulating demand and pursuing a variety of marketing campaigns, as I am sure you are aware, including taking the Broadband Wales Smart car to the Lampeter and the United Counties shows.

I will take the issues that you raise about phone lines back to the Minister for Economic Development and Transport, and I am sure that he will write to you on that matter.

Laura Anne Jones: I reiterate the need for broadband to be rolled out to every corner of Wales. BT recently admitted that it is not commercially viable to carry out work for a number of broadband exchanges across Wales, because many of them have too few customers. Minister, rural areas in my region of South Wales East, such as Cross Ash and Skenfrith, are missing out. In this day and age, it is vital that every corner of Wales receives broadband. It is essential for businesses, as Rhodri Glyn has said, and it is also a fantastic tool for schoolchildren.

2.10 p.m.

Jane Hutt: That is why we have the demand stimulation activities as part of the Broadband Wales programme. You know about the promotional activities in mid and

Those areas include Llanpumsaint, Llanwrda, Cynwyl Elfed, Hermon, and Myddfai. What those places have in common is that they are all rural areas. One business in Nantgaredig has lost £20,000 because of shortcomings in the telephone service, taking place over a number of months. What will you do, Minister, to ensure that people in rural areas get the service that they deserve?

Jane Hutt: A chanolbwyntio'n benodol ar fater band eang ar gyfer busnesau bach a chanolig, er eich bod hefyd wedi lleisio pryderon ynghylch cael llinell ffôn, gwn fod y cynllun cymorth band eang ar gyfer BBCh wedi bod yn llwyddiant yn sir Gaerfyrddin, fel y gwyddoch, yr wyf yn siŵr. Hyd yn hyn, mae'r cynllun wedi dyfarnu cymorth grant i 72 o fusnesau bach a chanolig a mudiadau yn y sector gwirfoddol yn yr ardal. Mae rhaglen Band eang Cymru wedi bod yn brysur iawn yn sir Gaerfyrddin, o ran ysgogi galw a rhedeg amrywiol ymgyrchoedd marchnata, fel y gwyddoch, mae'n siŵr, gan gynnwys mynd â Smart car Band eang Cymru i sioeau Llanbedr a'r Siroedd Unedig.

Af â'r materion a godir gennych ynglŷn â llinellau ffôn yn ôl at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn ysgrifennu atoch am y mater.

Laura Anne Jones: Yr wyf yn ailadrodd bod angen sicrhau bod band eang yn cyrraedd pob cwr o Gymru. Cyfaddefodd BT yn ddiweddar nad yw'n ymarferol yn fasnachol cyflawni gwaith ar nifer o gyfnewidfeydd band eang ledled Cymru, oherwydd nad oes digon o gwsmeriaid gan nifer ohonynt. Weinidog, mae ardaloedd gwledig yn fy rhanbarth i, sef Dwyrain De Cymru, megis Cross Ash a Skenfrith, ar eu colled. Yn yr oes sydd ohoni, mae'n hanfodol bod pob cwr o Gymru'n derbyn band eang. Mae'n hanfodol i fusnesau, fel y dywedodd Rhodri Glyn, ac mae'n gyfrwng gwych i blant ysgol.

Jane Hutt: Dyna pam mae'r gweithgarwch i ysgogi galw yn rhan o raglen Band eang Cymru gennym. Yr ydych yn gyfarwydd â'r gweithgareddau hyrwyddo yn y canolbarth

west Wales, and I have mentioned some already. In south-east Wales, there are billboards, posters on buses, extensive advertising across the press, public relations activities and Real Radio campaigns. It is also about ensuring that we target VAT-registered businesses in the marketing campaigns that are taking place in the next few months. We are also focusing on the residential areas that, at present, have not been able to get broadband. We need to build up demand and urge your constituents to give their details and register their demand for broadband—you know about the broadband brokerage scheme website.

Eleanor Burnham: This is not good enough, Minister, and there is a huge gap between your rhetoric and reality, is there not? As previous speakers have said, this is not a matter of commercial viability for BT, because it has no problem with that. It is a matter of you, as Minister, and your Government colleagues taking a lead to ensure that all the black spots in the rural hinterland are not underprivileged. That is the big issue: those areas will remain underprivileged and will not be able to access all of the wonderful things that most of us now feel are part of our lives. It is a matter of making sure that people there have access so that they can increase the area's GDP per capita or improve their lifestyles or whatever. However, you need to take a lead on this, and not leave it to BT.

Jane Hutt: It is for that reason that the Assembly Government has confirmed its commitment to providing a broadband service to everyone in Wales who wants it in its Broadband Wales strategy. The commitment will be delivered by the Broadband Wales regional innovative broadband support project. The contract for that will be awarded at the end of this year, with the roll-out next year. There will be a taskforce in each area to ensure that we reach the communities that are unable to receive a broadband connection. The Welsh Assembly Government is taking the lead through this broadband regional development programme.

a'r gorllewin, ac yr wyf wedi cyfeirio at rai yn barod. Yn y de-ddwyrain, ceir hysbysfyrddau, posteri ar fysiau, hysbysebu helaeth yn y wasg, gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ac ymgyrchoedd Real Radio. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau ein bod yn targedu busnesau sydd wedi eu cofrestru ar gyfer TAW yn yr ymgyrchoedd marchnata sy'n digwydd yn ystod y misoedd nesaf. Yr ydym hefyd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd preswyl nad ydynt, hyd yn hyn, wedi gallu cael band eang. Mae angen i ni sbarduno galw ac annog eich etholwyr i roi eu manylion a chofrestru eu cais am fand eang—yr ydych yn gyfarwydd â gwefan y cynllun broceriaeth band eang.

Eleanor Burnham: Nid yw hyn yn ddigon da, Weinidog, ac mae gagendor anferth rhwng eich rhethreg a realiti, onid oes? Fel y dywedodd siaradwyr blaenorol, nid mater o hyfywedd masnachol i BT yw hyn, gan nad oes gan y corff hwnnw ddim anhawster o ran hynny. Yr hyn sy'n ofynnol yw eich bod chi, fel Gweinidog, a'ch cyd-Aelodau yn y Llywodraeth yn cymryd yr awenau drwy sicrhau nad yw'r holl lecynnau problemus yn y gefnwlad wledig yn cael eu hamddifadu. Hynny yw'r broblem fawr: bydd yr ardaloedd hynny'n parhau i gael eu hamddifadu ac yn methu â chael defnyddio'r holl bethau rhyfeddol y mae'r rhan fwyaf ohonom bellach yn teimlo eu bod yn rhan o'n bywydau. Mae'n fater o sicrhau bod pobl yno'n cael mynediad er mwyn iddynt gynyddu'r CMC y pen yn yr ardal neu wella ansawdd eu bywydau neu beth bynnag y bo. Fodd bynnag, mae gofyn i chi gymryd yr awenau yn hyn o beth, nid ei adael i BT.

Jane Hutt: Dyna pam mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cadarnhau ei hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth band eang ar gyfer pawb yng Nghymru sydd eisiau ei gael yn ei strategaeth Band eang Cymru. Gwireddir yr ymrwymiad gan brosiect cymorth band eang arloesol rhanbarthol Band eang Cymru. Dyfernir y contract ar gyfer hynny ddiwedd eleni, a bydd yn cael ei gyflwyno y flwyddyn nesaf. Bydd tasglu ym mhob ardal i sicrhau y byddwn yn cyrraedd y cymunedau hynny sydd yn methu â derbyn cysylltiad band eang. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd yr awenau drwy'r rhaglen hon i ddatblygu band eang yn rhanbarthol.

Llunio Polisiâu ar Sail Tystiolaeth Evidence-Based Policy Making

Q3 Irene James: Will the First Minister make a statement about evidence-based policy-making by the Welsh Assembly Government? OAQ0889(FM)

Jane Hutt: The Assembly Government is committed to using robust evidence from research, statistics and evaluation to inform the decisions that we make. Members will recently have received a copy of the Welsh index of multiple deprivation, which bears this out.

Irene James: Would you agree with the Statistical Directorate, which confirmed at a technical presentation that the geographical access to services data in the Welsh index of multiple deprivation 2005 is not evidence that justifies sparsity funding in the local government formula, as has been suggested by an opposition member? Would you also agree that local government funding in the modern era of policy-making must be evidence-based, and that reform to redistribute resources more equitably to support those who are most deprived must continue as a matter of priority?

Jane Hutt: Yes. Targeting deprivation is key. We are still analysing the index. We must remember that the local government settlement, which has been announced today, reflects the changes that we made to the previous Conservative Government's formula, under William Hague, which did not recognise deprivation at all. There is some recognition of dispersal, but we are analysing the index to see how it pans out in terms of outcomes. However, it focuses on deprivation. In terms of the Townsend formula, I was pleased that we could recognise that costs did not increase for rurality, but instead looked at deprivation as the key factor.

Rhodri Glyn Thomas: Given your

C3 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lunio polisiâu ar sail tystiolaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0889(FM)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddefnyddio tystiolaeth gadarn ar sail ymchwil, ystadegau a gwerthuso fel sail i'r penderfyniadau a wnawn. Bydd yr Aelodau wedi derbyn copi o fynegai amddifadedd lluosog Cymru yn ddiweddar, sydd yn brawf o hyn.

Irene James: A fyddech yn cytuno â'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol, a gadarnhaodd mewn cyflwyniad technegol nad yw'r data mynediad at wasanaethau daeryddol ym mynegai amddifadedd lluosog Cymru 2005 yn dystiolaeth sydd yn cyfiawnhau cyllid ar sail teneurwydd poblogaeth yn y fformiwla llywodraeth leol, fel yr awgrymwyd gan aelod o'r wrthblaid? A fyddech hefyd yn cytuno bod rhaid i gyllid llywodraeth leol yn y cyfnod sydd ohoni o ran llunio polisiâu, fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a bod rhaid i ddiwygiadau er mwyn ailddosbarthu adnoddau'n fwy teg i roi cymorth i'r bobl fwyaf difreintiedig barhau, fel mater o flaenoriaeth?

Jane Hutt: Byddwn. Mae targedu amddifadedd yn allweddol. Yr ydym yn dal i ddadansoddi'r mynegai. Rhaid inni gofio bod y setliad llywodraeth leol, a gyhoeddwyd heddiw, yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaethom i fformiwla'r Llywodraeth Geidwadol flaenorol, dan William Hague, fformiwla nad oedd yn cydnabod amddifadedd o gwbl. Ceir peth cydnabyddiaeth i boblogaeth wasgaredig, ond yr ydym yn dadansoddi'r mynegai i weld y darlun cyffredinol y mae'n ei gyflwyno, o ran canlyniadau. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio ar amddifadedd. O ran fformiwla Townsend, yr oeddwn yn falch y gallem gydnabod na chynyddodd costau mewn perthynas â natur wledig, ond yn hytrach yr ystyrid amddifadedd fel y ffactor allweddol.

Rhodri Glyn Thomas: Yn wyneb eich

enthusiasm for evidence-based policy and evaluation, I take it that you will support our call for a full, independent evaluation of the effectiveness of local health boards.

Jane Hutt: We look forward to a useful discussion about that later on today. The issue of coterminosity, which has been a key factor in relation to local health boards, will, I am sure, feature in our debate.

Rhodri Glyn Thomas: It is difficult, Minister, to envisage exactly what evaluation would do other than bring forward some evidence. Are you saying that the only evidence that you will look at is that which supports your case, and that you will ignore any other evidence?

Jane Hutt: In relation to the development of our local health boards and, following that, the invitation asking Derek Wanless to review health and social care, one point that came out clearly was that it was vital to have coterminosity. He pointed to the fact that that did not exist between the health service and local government and social services, particularly to provide joined-up government, commissioning and delivery of services for local people. He also recognised—as do we—the importance of local government having a stake in local health boards, as they do with elected members and, indeed, carers and the voluntary sector.

Rhodri Glyn Thomas: If that is what you hoped would happen, and given that local health boards have now had two years to carry that out and that you are confident that they have done so, will you support our call for a full independent evaluation of their activities?

Jane Hutt: I notice that you are determined to have this debate before we reach that point on today's agenda. Local health boards are delivering for local people via their strategies for health, social care and wellbeing. They are dealing with the deprivation issue and are promoting social care, health and welfare

brwdfrydedd dros bolisi'n seiliedig ar dystiolaeth a gwerthuso, cymeraf y cefnogwch ein galwad am werthusiad llawn ac annibynnol o effeithiolrwydd byrddau iechyd lleol.

Jane Hutt: Edrychwn ymlaen at drafodaeth ddefnyddiol ynghylch hynny yn nes ymlaen heddiw. Yr wyf yn sicr y cyfeirir at gyd-ffinio, sydd wedi bod yn ffactor allweddol mewn perthynas â byrddau iechyd lleol, yn ein dadl.

Rhodri Glyn Thomas: Mae'n anodd, Weinidog, rhagweld beth yn union y byddai gwerthuso yn ei wneud, heblaw cyflwyno rhywfaint o dystiolaeth. A ydych yn dweud taw'r unig dystiolaeth a ystyriwch yw'r dystiolaeth a fydd yn cefnogi eich achos chi, ac y byddwch yn anwybyddu pob tystiolaeth arall?

Jane Hutt: O ran datblygu ein byrddau iechyd lleol ac, yn dilyn hynny, y gwahoddiad i ofyn i Derek Wanless adolygu iechyd a gofal cymdeithasol, un pwynt clir a gododd oedd bod rhannu'r un ffiniau'n hollbwysig. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd hynny'n wir am y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig er mwyn darparu llywodraeth gydgysylltiedig, sy'n comisiynu ac yn cyflwyno gwasanaethau i bobl leol. Yr oedd yn cydnabod hefyd—fel yr ydym ninnau—pa mor bwysig ydyw fod gan lywodraeth leol ran yn y byrddau iechyd lleol, fel sydd ganddynt gydag aelodau etholedig ac, yn wir, y sector gwirfoddol a gofalwyr.

Rhodri Glyn Thomas: Os oeddech yn gobeithio mai dyna a fyddai'n digwydd, ac o gofio bod y byrddau iechyd lleol erbyn hyn wedi cael dwy flynedd i wneud hynny a'ch bod yn hyderus eu bod wedi gwneud hynny, a wnewch gefnogi ein galwad am werthusiad annibynnol llawn o'u gweithgareddau?

Jane Hutt: Sylwaf eich bod yn benderfynol o gynnal y ddadl hon cyn i ni gyrraedd y pwynt hwnnw ar yr agenda heddiw. Mae'r byrddau iechyd lleol yn cyflawni ar gyfer pobl leol drwy gyfrwng eu strategaethau ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Maent yn ymdrin â mater amddifadedd ac yn

issues. That is a potent evaluation.

The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne): I welcome the Minister's seeming commitment to evidence-based policy in relation to health. Turning to education, the Secretary of State for Education and Skills, Ruth Kelly, made a statement last week about the evidence-based policy that the Westminster Government is introducing of giving greater autonomy to schools. Will that inform policy here? Will we have greater autonomy for schools, or will it be left to the Minister for Education and Lifelong Learning to run things, as previously?

Jane Hutt: Opposition parties are continuously looking over the border at policies and delivery in England; we look at our policies and delivery here in Wales, based on evidence. We have evidence of the delivery of our comprehensive education system in Wales, bearing out that the Welsh way is effective for the needs of our children and young people, and for our economy. That is key to the evidence base for education.

Nick Bourne: I am surprised that the Minister ignores what is said at Westminster; there is no doubt that the Secretary of State for Education and Skills will put her on detention for not paying attention to what was said. I distinctly asked whether she thought that the evidence in Wales was the same as that in England. Does she believe that there is evidence that schools in Wales would benefit from greater autonomy? That is the case in England, presumably, if the Secretary of State is correct, as I believe she is.

Jane Hutt: What people want from the education system is delivery for children and young people, stability, and local community access to quality education. In terms of the results coming through, and the development of the Welsh baccalaureate, we see that delivery. That is the evidence base. The Department for Education and Skills' White Paper focuses on reform of the schools system in England. None of the proposals

hyrwyddo gofal cymdeithasol, iechyd a lles. Mae'r gwerthusiad hwnnw'n un grymus.

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne): Croesawaf ymrwymiad ymddangosiadol y Gweinidog i bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym maes iechyd. A throi at addysg, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau, Ruth Kelly, ddatganiad yr wythnos diwethaf am y polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynir gan Lywodraeth San Steffan, sef rhoi mwy o annibyniaeth i ysgolion. A fydd hynny'n dylanwadu ar bolisi yma? A fydd gennym ninnau fwy o annibyniaeth yn ein hysgolion, ynteu a adewir i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes redeg pethau, fel o'r blaen?

Jane Hutt: Mae'r gwrthbleidiau'n mynnu edrych dros y ffin o hyd ar bolisiau a'r modd y cyflawnir pethau yn Lloegr; yr ydym ninnau'n edrych ar ein polisiau a sut y cyflawnir pethau yma yng Nghymru, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae gennym dystiolaeth o'r modd y darperir ein system addysg gyfun yng Nghymru, sy'n dangos bod y ffordd Gymreig yn effeithiol ar gyfer anghenion ein plant a'n pobl ifanc, ac ar gyfer ein heconomi. Mae hynny'n allweddol i'r sylfaen wybodaeth ar gyfer addysg.

Nick Bourne: Yr wyf yn synnu bod y Gweinidog yn anwybyddu'r hyn a ddywedir yn San Steffan: nid oes amheuaeth na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau'n ei chadw ar ôl am beidio â gwrandao ar yr hyn a ddywedwyd. Gofynnais yn ddigon clir a oedd yn credu bod y dystiolaeth yng Nghymru yr un fath â'r dystiolaeth yn Lloegr. A yw hi'n credu bod tystiolaeth y byddai ysgolion Cymru'n elwa o gael mwy o annibyniaeth? Dyna'r sefyllfa yn Lloegr, i bob golwg, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gywir, fel y credaf ei bod.

Jane Hutt: Yr hyn y mae pobl am ei gael gan y system addysg yw ei bod yn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc, sefydlogrwydd, a mynediad at addysg o safon yn y gymuned leol. O ran y canlyniadau sy'n dod i'r amlwg, a datblygu bagloriaeth Cymru, yr ydym yn gweld y ddarpariaeth hon ar waith. Dyna'r sylfaen dystiolaeth. Mae Papur Gwyn yr Adran Addysg a Sgiliau'n canolbwyntio ar ddiwygio system yr ysgolion yn Lloegr. Nid

apply to Wales. I know that the DfES—and you and your colleagues, Nick—will want to look at our system to see how it is delivering so positively in terms of the needs of our children and young people.

Nick Bourne: I do want to do that, but not in an isolationist way, as though England were some far-away land that we can totally ignore, and as though diversity and choice for parents were things that should not be happening in Wales, and have no relevance to us. I hope that the Minister will impress upon the First Minister and the Minister for Education and Lifelong Learning, especially, the importance of looking at evidence from England that education is benefiting from diversity and choice, and devolving power to local schools. That seems to me to be a relevant message.

Jane Hutt: As you know, in terms of making policy in Wales, we look to different needs and circumstances. We do not do that simply for the sake of it, but because we have different needs and circumstances. There is no way that we have the same circumstances as cities such as London or areas such as the south-east of England. We have different needs and circumstances. We already have diversity in the schools system, particularly in terms of the Welsh language and Welsh-medium education. We have diversity of opportunity for our children and young people. That is a key feature that I know that you endorse and welcome.

The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): I am grateful that you acknowledge the fact that there are different needs and circumstances in Wales. You will note that we have already had two pieces of policy evidence, from Charles Clarke and Peter Hain, to show that they are leaning towards a single police force for Wales. Do you agree that we should know the Welsh Assembly Government's position on this issue? Are there different needs and circumstances in Wales, and does the Welsh Assembly Government believe that one police force for Wales is a way of introducing better policing in Wales?

yw dim o'r cynigion hyn yn berthnasol i Gymru. Gwn y bydd yr Adran Addysg a Sgiliau—a chithau a'ch cyd-Aelodau, Nick—am edrych ar ein system i weld sut y mae'n diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc mewn modd mor adeiladol.

Nick Bourne: Yr wyf am wneud hynny, ond nid mewn modd ynysig, fel petai Lloegr yn rhyw wlad bell i ffwrdd y gallwn ei hanwybyddu'n llwyr, ac fel petai amrywiaeth a dewis i rieni'n bethau na ddylent fod yn digwydd yng Nghymru, ac nad ydynt yn berthnasol i ni. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn pwysleisio wrth y Prif Weinidog a'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn enwedig, pa mor bwysig yw edrych ar dystiolaeth o Loegr fod addysg yn elwa yn sgîl amrywiaeth a dewis, a datganoli grym i ysgolion lleol. Mae hynny'n neges berthnasol hyd y gwelaf fi.

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, o ran llunio polisi yng Nghymru, yr ydym yn ystyried anghenion ac amgylchiadau gwahanol. Nid ydym yn gwneud hynny er ei fwyn ei hun yn unig, ond oherwydd bod ein hanghenion a'n hamgylchiadau yn wahanol. Nid yw'n bosibl inni fod â'r un amgylchiadau â dinasoedd megis Llundain neu ardaloedd megis de-ddwyrain Lloegr. Mae ein hanghenion a'n hamgylchiadau'n wahanol. Mae amrywiaeth gennym eisoes yn system yr ysgolion, yn enwedig o ran yr iaith Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae gennym amrywiaeth o ran cyfle i'n plant a'n pobl ifanc. Mae hynny'n nodwedd allweddol y gwn eich bod yn ei chefnogi ac yn ei chroesawu.

Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): Yr wyf yn ddiolchgar eich bod yn cydnabod y ffaith bod anghenion ac amgylchiadau Cymru'n wahanol. Fe sylwch ein bod eisoes wedi cael tystiolaeth ddwywaith o ran polisi, gan Charles Clarke a Peter Hain, i ddangos eu bod yn tueddu at sefydlu un heddlu i Gymru. A ydych yn cytuno y dylem wybod beth yw safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn? A oes anghenion ac amgylchiadau gwahanol yng Nghymru ac a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu y byddai cael un heddlu i Gymru'n fodd i gyflwyno gwell plismona yng Nghymru?

2.20 p.m.

Jane Hutt: This is why the Minister for Social Justice and Regeneration, and the Chair of the Social Justice and Regeneration Committee, set up a consultation with the committee immediately these issues for consultation were announced. I know that the committee will do its job robustly, as always. It will collect the evidence and consult on the issues in Wales, which will lead us, in terms of the committee's input, to respond in an appropriate way to the proposals on the future of police forces in Wales.

Michael German: The Secretary of State for Wales does not seem to be waiting for his opinion to be put forward, and it would be useful to know whether the Welsh Assembly Government will contribute its views to the committee discussion. If so, when will the Assembly Government make its views known and when will they be made public? Many of us around Wales find it very difficult to believe that local accountability in our police force will be strengthened. The First Minister has said that he wants to see more collaboration between the fire service, the health service, the ambulance service and the police. How will that be best served by having these decisions forced upon us from London, when we need to have more control in Wales and less central direction?

Jane Hutt: Your views are key to this issue, which is why we have set up a process, and why the Social Justice and Regeneration Committee is taking this forward. Your views—which I am sure are shared by others—will be fed into the consultation and will help us to come to a view in relation to the future. You are right on closer working arrangements with emergency services—we have been working towards that in Wales, particularly in relation to the fire, police and the ambulance service. Therefore, work is already under way, but collaboration is key and consultation is of the essence in recognising needs across Wales. However, at this stage, we must also listen to the

Jane Hutt: Dyna pam y bu i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sefydlu proses ymgynghori gyda'r pwyllgor yn syth ar ôl cyhoeddi yr ymgynghorid ynghylch y materion hyn. Gwn y gwnaiff y pwyllgor ei waith yn drwyadl, fel y bydd yn gwneud bob amser. Bydd yn casglu'r dystiolaeth ac yn ymgynghori ynghylch y materion hyn yng Nghymru, a fydd yn ein harwain, o ran cyfraniad y pwyllgor, i ymateb mewn modd priodol i'r cynigion ar gyfer dyfodol heddluoedd Cymru.

Michael German: Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru i bob golwg yn aros i'w farn ef gael ei chyflwyno, a byddai'n fuddiol gwybod a fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyfrannu ei safbwyntiau hithau i drafodaeth y pwyllgor. Os ydyw am wneud hynny, pa bryd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ei safbwyntiau'n hysbys a pha bryd y'u gwneir yn gyhoeddus? Mae llawer ohonom ar hyd a lled Cymru'n ei chael yn anodd iawn credu y bydd atebolrwydd lleol ein heddlu'n cael ei gryfhau. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud ei fod yn awyddus i weld rhagor o gydweithredu rhwng y gwasanaeth tân, y gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth ambiwlans a'r heddlu. Sut y bydd gorfodi'r penderfyniadau hyn arnom o Lundain yn cyflawni hynny, pan fo angen inni gael mwy o reolaeth yng Nghymru a llai o gyfarwyddyd o'r canol?

Jane Hutt: Mae eich safbwyntiau'n allweddol i'r mater hwn, a dyna pam yr ydym wedi sefydlu proses, a pham y mae'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'n bwrw ymlaen â hyn. Caiff eich safbwyntiau chi—sydd, yr wyf yn sicr yn safbwyntiau a rennir gan bobl eraill—eu bwydo i'r broses ymgynghori a bydd hynny'n gymorth inni lunio barn ynghylch y dyfodol. Yr ydych yn iawn ynghylch trefniadau gweithio mwy clôs gyda'r gwasanaethau argyfwng—yr ydym wedi bod yn gweithio tuag at hynny yng Nghymru, yn enwedig o ran y gwasanaeth tân, yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans. Felly, mae'r gwaith ar y gweill eisoes, ond mae

committee and the work that it is undertaking on this matter.

Michael German: I note that you did not answer the question as to whether the Welsh Assembly Government would give its position for the committee to discuss, so that it would know in advance the Government's position on a matter of consultation with the people of Wales.

Let me try another tack with you, Minister. Does it not make sense for decisions about the policing of Wales to be made by us in the Chamber, rather than by the Member of Parliament for Norwich?

Jane Hutt: The Minister will be informed, as is every Minister, by the consultation and the evidence gained through the Social Justice and Regeneration Committee's considerations. We will then come to a view. As Business Minister, I have already agreed that the committee's view will be presented to Plenary, which will give an opportunity for the Assembly Government to respond to the committee's report, and to inform the UK Government on our preferred option for the way forward.

cydweithredu'n allweddol ac ymgynghori'n hollbwysig wrth inni gydnabod anghenion pob cwr o Gymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhaid inni hefyd wrando ar y pwyllgor a'r gwaith y mae yntau'n ei wneud yn y cyswllt hwn.

Michael German: Sylwaf na wnaethoch ateb y cwestiwn ynghylch a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynegi ei safbwynt i'r pwyllgor ei drafod, er mwyn inni wybod ymlaen llaw beth oedd safbwynt y Llywodraeth ar fater yr ymgynghorid â phobl Cymru yn ei gylch.

Gadewch imi geisio mynd ar drywydd arall, Weinidog. Onid yw'n gwneud synnwyr mai ni yn y Siambr hon, yn hytrach na'r Aelod Seneddol dros Norwich a ddylai wneud penderfyniadau ynghylch plismona Cymru?

Jane Hutt: Bydd y Gweinidog yn derbyn gwybodaeth, fel y bydd pob Gweinidog, yn sgîl yr ymgynghori a'r dystiolaeth a geir wedi i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio fod yn ystyried yn ofalus. Yna, byddwn yn llunio barn. Yn rhinwedd fy swydd fel Trefnydd, yr wyf eisoes wedi cytuno y cyflwynir barn y pwyllgor gerbron y Cyfarfod Llawn, a bydd hynny'n gyfle i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i adroddiad y pwyllgor, ac i hysbysu Llywodraeth y DU pa ddewis a fyddai orau gennym o ran y ffordd ymlaen.

Polisïau Datblygu Economaidd yng Ngogledd Cymru Economic Development Policies in North Wales

Q4 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's economic development policies in north Wales? OAQ0912(FM)

Jane Hutt: The strength of the north Wales economy reflects the success of our policies. Since 2001, the number of people in employment in the region has increased by 6.8 per cent.

Janet Ryder: Success—if that is what it is—has meant that only seven companies out of the 50 nominated for the knowledge bank are in north Wales. From those seven companies, only two are located west of the Flintshire/Wrexham border. If your economic

C4 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngogledd Cymru? OAQ0912(FM)

Jane Hutt: Mae cryfder economi'r gogledd yn adlewyrchu llwyddiant ein polisïau. Ers 2001, mae nifer y bobl sydd mewn gwaith yn y rhanbarth wedi cynyddu 6.8 y cant.

Janet Ryder: Mae'r llwyddiant—os mai dyna ydyw—wedi golygu mai dim ond saith cwmni o blith yr 50 a enwebwyd ar gyfer y banc gwybodaeth sydd yn y gogledd. O blith y saith cwmni, dim ond dau sydd i'r gorllewin o ffin sir y Fflint/Wrecsam. Os yw

development policies have been such a success, why have only two companies qualified, and what will you do to support the development of new companies in north Wales to ensure that it has a good representation of companies in the knowledge bank?

Jane Hutt: Out of the 55 companies identified for the knowledge bank, we recognise that seven are in north Wales, which is a good showing. However, at this stage, the list contains only those companies that have been identified thus far. The scheme will grow as will the number of companies. The confidence of the Welsh economy, and employers, will be based on support from Assembly Members and the Welsh Assembly Government for investments such as the Airbus West factory at Broughton, which is taking the north Wales economy forward in such a dramatic way. You will see the number of companies grow if you also show a positive response and attitude towards the list, Janet.

Carl Sargeant: You will recognise, as does the First Minister, the great economic developments in north Wales, including those of Airbus and Corus. The grand opening of a £13 million-worth extension to the railway link will be held on Friday.

I attended a business dinner the other evening with the Presiding Officer for the 50 fastest-growing businesses. A high proportion of those businesses has come about because of Objective 1 funding, which opposition politicians say is not working. It is a fact that Objective 1 is working for Wales.

Jane Hutt: The 50 fastest-growing businesses will also be helped by the new centre for management development at the University of Wales, Bangor. I was pleased to recently meet with its advisory committee, whose function and focus will be on developing small and medium-sized enterprises in the north, through management development tailored to the needs of SMEs in rural communities and the north Wales economy.

Brynle Williams: If Wales is to lose the

eich polisïau datblygu economaidd wedi bod mor llwyddiannus, pam mai dim ond dau gwmni oedd yn gymwys, a beth a wnewch i gefnogi datblygu cwmnïau newydd yn y gogledd er mwyn sicrhau bod gan y rhanbarth gynrychiolaeth dda o'i gwmnïau yn y banc gwybodaeth?

Jane Hutt: O blith y 55 cwmni a ddynodwyd ar gyfer y banc gwybodaeth, cydnabyddwn fod saith yn y gogledd, sy'n gyfran dda. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, dim ond y cwmnïau hynny a ddynodwyd hyd yn hyn sydd ar y rhestr. Bydd y cynllun yn tyfu fel y bydd nifer y cwmnïau yr un modd. Seilir hyder economi Cymru, a'r cyflogwyr, ar y gefnogaeth a rydd Aelodau'r Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i fuddsoddiadau megis ffatri Airbus West ym Mrychdyn, sy'n symud economi'r gogledd yn ei blaen mewn modd mor ddramatig. Fe welwch nifer y cwmnïau'n tyfu os gwnewch chithau hefyd ymateb yn gadarnhaol ac arddel agwedd gadarnhaol tuag at y rhestr, Janet.

Carl Sargeant: Byddwch yn cydnabod, yn yr un modd â'r Prif Weinidog, y datblygiadau economaidd mawr yn y gogledd, gan gynnwys Airbus a Corus. Cynhelir agoriad mawreddog estyniad gwerth £13 miliwn i'r cyswllt rheilffordd ddydd Gwener.

Bûm mewn cinio busnes y noson o'r blaen gyda'r Llywydd ar gyfer 50 o'r busnesau sy'n tyfu gyflymaf. Mae cyfran fawr o'r busnesau hynny wedi tyfu oherwydd arian Amcan 1. Mae gwleidyddion y gwrthbleidiau'n honni nad yw Amcan 1 yn gweithio. Mae'n ffaith ei bod yn gweithio i Gymru.

Jane Hutt: Bydd y 50 cwmni sy'n tyfu gyflymaf hefyd yn cael cymorth gan y ganolfan datblygu rheolaeth newydd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Yr oeddwn yn falch o gyfarfod â'i phwyllgor ymgynghorol yn ddiweddar. Swyddogaeth hwnnw a'i ffocws fydd datblygu busnesau bach a chanolig yn y gogledd drwy ddatblygu rheolaeth sydd wedi'i deilwrio ar gyfer anghenion busnesau bach a chanolig mewn cymunedau gwledig ac yn economi'r gogledd.

Brynle Williams: Os yw Cymru am golli

valuable Welsh Development Agency brand and if its successor is to be politicised, what reassurance can you give that the success of making Objective 1 funding available in north Wales will continue under the new KB4B?

Jane Hutt: I am afraid that I am not sure what the KB4B is. It sounds as though some other Members do not know either, so I am not ashamed to say it. People will want to hear about the importance of structural funds and the future funding for north Wales from 2007. You know that the UK Treasury is working hard to secure a deal on the budget in December and, if parts of Wales are eligible for future structural funds programmes, we will maximise their effectiveness. We are engaging with our partners in business and in the public and voluntary sectors to take this forward. It is important that you are there at the forefront, Brynle, to show that we know that we can deliver as a result not only of Objective 1 funding—and, as Carl said, there are the 50 fastest-growing businesses—but of the opportunities provided by the structural funds that we need to take forward when the budget has been concluded.

brand gwerthfawr Awdurdod Datblygu Cymru ac os yw ei olynydd i'w wleidyddoli, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd llwyddiant darparu arian Amcan 1 yn y gogledd yn parhau dan y KB4B newydd?

Jane Hutt: Mae arnaf ofn nad wyf yn sicr beth yw'r KB4B. Yn ôl pob golwg, mae eraill ymhlith yr Aelodau nad ydynt yn gwybod ychwaith, felly nid oes cywilydd arnaf ddweud hynny. Bydd pobl am glywed am bwysigrwydd cronfeydd strwythurol a dyfodol arian i'r gogledd o 2007 ymlaen. Gwyddoch fod Trysorlys y DU yn gweithio'n galed i daro bargaen ar y gyllideb ym mis Rhagfyr, ac, os bydd rhannau o Gymru'n gymwys ar gyfer rhaglenni'r cronfeydd strwythurol yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau eu bod mor effeithiol ag y bo modd. Yr ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid ym myd busnes ac yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Mae'n bwysig eich bod chithau yno ar y blaen, Brynle, i ddangos ein bod yn gwybod y gallwn gyflawni, nid yn unig o ganlyniad i arian Amcan 1—ac, fel y dywedodd Carl, rhaid cofio am y 50 busnes sy'n tyfu gyflymaf—ond hefyd y cyfleoedd a roddir inni gan y cronfeydd strwythurol y mae angen inni fwrw ymlaen â hwy pan fydd y gyllideb wedi'i chwblhau.

Polisi Ynni Energy Policy

Q5 Janet Davies: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's energy policy? OAQ0911(FM)

C5 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0911(FM)

Jane Hutt: The Wales energy route map contains the Assembly Government's vision of Wales as a leader in clean high-efficiency energy production. Responses to the consultation are being analysed. Next month, the First Minister will chair, with Andrew Davies, a third Welsh energy summit for industry and key stakeholders.

Jane Hutt: Mae map llwybr ynni Cymru'n cynnwys gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o Gymru'n arwain ym maes cynhyrchu ynni glân hynod effeithlon. Mae'r ymateb i'r ymgynghori wrthi'n cael ei ddadansoddi. Fis nesaf, bydd y Prif Weinidog yn cadeirio, gydag Andrew Davies, drydedd uwchgynhadledd ynni Cymru ar gyfer diwydiant a rhanddeiliaid allweddol.

Janet Davies: You will be aware that the ability to use different sources of energy depends on the comparative level of investment that goes into those sources. How

Janet Davies: Byddwch yn ymwybodol bod y gallu i ddefnyddio ffynonellau ynni gwahanol yn dibynnu ar lefel gymharol y buddsoddi yn y ffynonellau hynny. Faint y

much investment has the Assembly Government put into wind, solar, biomass, tidal and wave sources over the past three years?

Jane Hutt: I will have to write to you with those figures. On renewable energy, which is our focus, you will know that onshore wind energy will provide the main focus for achieving our 2010 target. However, other technologies have a role to play, and we want to develop the significant biomass potential in Wales. That will be done in collaboration with the Department of Trade and Industry, the Department for Environment, Food and Rural Affairs, energy-sector players as well as the Forestry Commission. We have new and emerging marine technologies, which are at various stages of development. They will play their part in contributing to our target, including looking at wave and tidal-stream energy. However, I will take those issues in terms of investment costs back to the Minister for Economic Development and Transport, who has responsibility for energy.

Glyn Davies: You referred in your answer to the use of biomass for energy production. This important industry has great potential but is still at an embryonic stage. You may concede that there is a need for pump-priming by the Government, certainly on the supply side, through guaranteeing the demand. What plans does the Government have to introduce pump-priming, which will make this industry of growing willow and miscanthus a serious industry in Wales?

Jane Hutt: I am grateful for that, Glyn, because it is a serious industry and we cannot do this on our own; as I said, it has to be in collaboration with the UK Government, namely the DTI and DEFRA. I have also mentioned other energy-sector players in the private sector. On the commitment to the biomass potential of renewable energy, clearly, we have to pump-prime here. Significant grant support and research and development funding is going into that in terms of photovoltaic and marine technologies, which I hope will make a

mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i fuddsoddi mewn ffynonellau megis gwynt, yr haul, bio-màs, y llanw a thonnau yn ystod y tair blynedd diwethaf?

Jane Hutt: Bydd rhaid i mi ysgrifennu atoch gyda'r ffigurau hynny. O ran ynni adnewyddadwy, sef yr hyn yr ydym yn canolbwyntio arno, gwyddoch mai ynni gwynt ar y tir fydd y prif ffocws er mwyn cyflawni targed 2010. Fodd bynnag, mae gan dechnolegau eraill eu rhan i'w chwarae, ac yr ydym yn awyddus i ddatblygu'r potensial sylweddol sydd yng Nghymru ar gyfer defnyddio bio-màs. Gwneir hynny drwy gydweithredu â'r Adran Masnach a Diwydiant, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, rhai yn y sector ynni yn ogystal â'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae gennym dechnolegau morol newydd a rhai sydd wrthi'n datblygu, a'r rheini ar wahanol gamau o ran eu datblygiad. Byddant hwythau'n chwarae eu rhan wrth gyfrannu at ein targed, a byddwn hefyd yn edrych ar ynni'r tonnau a llif y llanw. Fodd bynnag, af â'r materion a godwyd ynghylch costau buddsoddi yn ôl at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, sy'n gyfrifol am ynni.

Glyn Davies: Cyfeiriasoch yn eich ateb at ddefnyddio bio-màs i gynhyrchu ynni. Mae potensial anferth i'r diwydiant hwn ond mae yn ei fabandod o hyd. Efallai y byddech yn cydnabod bod angen i'r Llywodraeth roi arian sefydlu, yn sicr ar yr ochr gyflenwi, drwy warantu'r galw. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i gyflwyno arian sefydlu, a fydd yn gwneud y diwydiant hwn, sef tyfu coed helyg a miscanthus yn ddiwydiant gwirioneddol yng Nghymru?

Jane Hutt: Yr wyf yn ddiolchgar am hynny, Glyn, oherwydd y mae'n ddiwydiant gwirioneddol ac ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain; fel y dywedais, rhaid iddo ddigwydd ar y cyd â Llywodraeth y DU, sef y DTI a DEFRA. Yr wyf hefyd wedi sôn am rai eraill yn y sector ynni sydd yn y sector preifat. O ran yr ymrwymiad i botensial defnyddio bio-màs ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae'n amlwg bod rhaid inni ysgogi yma. Mae cymorth grant sylweddol ac arian ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu yn cael ei ddarparu ar gyfer hynny o ran

significant contribution to the 2010 target.

technolegau ffotofoltaidd a morol, a gobeithiaf y bydd hynny'n gwneud cyfraniad sylweddol i darged 2010.

2.30 p.m.

Llaeth Ysgol am Ddim Free School Milk

Q6 Mick Bates: Will the First Minister make a statement on free school milk for key stage 2 pupils? OAQ0891(FM)

C6 Mick Bates: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar laeth ysgol am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 2? OAQ0891(FM)

Jane Hutt: School milk for key stage 2 pupils has been subsidised by the European Union since 1977. This aid was reduced in 2001. However, the UK Government was concerned to maintain and encourage the consumption of milk by young children and decided to top up the funding gap to original levels.

Jane Hutt: Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn rhoi cymhorthdal i ddarparu llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ers 1977. Yn 2001, lleihawyd y cymorth ganddynt. Fodd bynnag, yr oedd Llywodraeth y DU yn benderfynol o gynnal ac annog yr arfer o yfed llaeth ymysg plant ifanc, felly penderfynwyd rhoi arian ychwanegol er mwyn cynnal yr un lefel o gyllid.

Mick Bates: With over 100,000 more people drinking milk over the past six years, it is fair to say that free school milk at key stage 1 has been a great success. Credit must be given where it is due to the partnership Government for introducing that. However, older children, despite the European funding and the top-up, are still missing out on this healthy product. It makes a massive contribution to reducing tooth decay and the incidence of osteoporosis. Will you make a commitment today to undertake a pilot study at key stage 2 to look at the health benefits that would be accrued by ensuring that all children in Wales at key stage 2 have the opportunity to partake of this healthy and natural product?

Mick Bates: Mae'n deg dweud bod llaeth ysgol am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 1 wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda dros 100,000 yn fwy o bobl yn yfed llaeth dros y chwe blynedd diwethaf. Rhaid rhoi clod lle y bo'n ddyledus i'r Llywodraeth bartneriaeth am gyflwyno hynny. Fodd bynnag, mae plant hŷn yn dal i fethu â chael y cynnyrch iachus hwn, er gwaethaf yr arian gan Ewrop a'r arian ychwanegol. Gwnaiff gyfraniad aruthrol tuag at leihau pydredd dannedd ac achosion o osteoporosis. A wnewch ymrwymo heddiw i gynnal astudiaeth beilot yng nghyfnod allweddol 2 i edrych ar y manteision o ran iechyd a fyddai'n dod yn sgîl sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2 yn cael cyfle i gael y cynnyrch iachus a naturiol hwn?

Jane Hutt: Thank you very much, milk. [*Laughter.*]

Jane Hutt: Diolch yn fawr, *milk*. [*Chwerthin.*]

The Presiding Officer: Mick the milk.

Y Llywydd: Mick y *milk*.

Jane Hutt: I think that you can be described as Mick the milk because you were at the forefront of our school milk policy and strategy. It is true that the free milk scheme has been of huge benefit, and, as you say,

Jane Hutt: Credaf y gellir eich galw'n 'Mick the milk' oherwydd eich bod yn flaenllaw iawn gyda'n polisi a'n strategaeth llaeth ysgol. Mae'n wir dweud bod y cynllun llaeth am ddim wedi bod o fudd enfawr, ac fel y

over 100,000 more people are drinking milk since the scheme began. I was pleased to visit a school in Bridgend during school milk week a few weeks ago, where they are developing the subsidised scheme for key stage 2.

If you read the report by the school milk project in Wales—as I am sure that you have, Mick—published in July 2005, you will see that there has been a good take-up for milk at key stage 2 across Wales. Gwynedd is one of the most successful authorities, with a 31 per cent take up, and Bridgend is now taking on this scheme. Independent schemes are being developed in addition to the subsidised scheme, which is key.

Milk is one of the four food products provided in our free school breakfast. Therefore, we are promoting milk. However, in terms of the health issues, we know that this is key to the health of children and provides the nutrients that they need for a healthy lifestyle. I agree that we need to consider how we pilot that more effectively and bring it together in terms of what is currently happening at key stage 2.

William Graham: I am glad to hear that you will reconsider providing milk for secondary schools; after all, it was your party that abolished that scheme in 1968. Would you also consider the fact that we would like to see this maintaining the dairy industry in Wales, where dairy farmers only receive 10p out of a 35p pint? Will you reconsider this issue to ensure that the milk that is drunk in schools in Wales comes from Wales?

Jane Hutt: That is why it was so good to join the Dairy Farmers of Britain at the school milk week event, which was a partnership event. We also launched a new campaign with the dairy industry to raise awareness of the health benefits of drinking milk at primary school age. I have also mentioned some of the ways in which local authorities are working with local suppliers to

dywedaso, mae dros 100,000 yn fwy o bobl yn yfed llaeth er pan ddechreuodd y cynllun. Pleser o'r mwyaf oedd ymweld ag ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystod wythnos llaeth ysgol rai wythnosau yn ôl. Yno, maent yn ymestyn y cynllun cymhorthdal i gynnwys cyfnod allweddol 2.

Os darllenwch yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2005 gan y prosiect llaeth ysgol yng Nghymru – fel yr ydych wedi gwneud mae'n siŵr Mick – gwelwch fod nifer dda wedi manteisio ar y cynllun ledled Cymru yng nghyfnod allweddol 2. Gwynedd yw un o'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus, gyda 31 y cant yn cymryd rhan yn y cynllun, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn dechrau ar y cynllun. Mae'n braf gweld cynlluniau annibynnol yn cael eu datblygu yn ogystal â chynlluniau cymhorthdal, ac mae hyn yn allweddol.

Llaeth yw un o'r pedwar cynnyrch bwyd a ddarperir yn ein brecwast ysgol am ddim. Felly, yr ydym yn hyrwyddo llaeth. Fodd bynnag, o ran materion iechyd, yr ydym yn gwybod ei fod yn allweddol i iechyd ein plant a'i fod yn darparu'r maetholion angenrheidiol i fyw'n iach. Yr wyf yn cytuno bod angen inni ystyried sut y mae rhedeg y cynllun peilot yn fwy effeithiol a thynnu'r cynllun ynghyd o ran yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yng nghyfnod allweddol 2.

William Graham: Yr oeddwn yn falch o glywed eich bod am ailystyried darparu llaeth i ysgolion uwchradd; wedi'r cyfan, eich plaid chi a ddiddymodd y cynllun yn 1968. A fydddech hefyd yn ystyried y ffaith ein bod am weld hyn yn cynnal y diwydiant llaeth yng Nghymru, gan nad yw ffermwyr llaeth ond yn derbyn 10c o bob 35c a delir am beint? A wnewch ailystyried y mater hwn i sicrhau bod y llaeth a gaiff ei yfed yn ysgolion Cymru'n dod o Gymru?

Jane Hutt: Dyna pam yr oedd mor braf cael ymuno â Ffermwyr Llaeth Prydain adeg y digwyddiad a gynhaliwyd mewn partneriaeth â hwy yn ystod wythnos llaeth ysgol. Bu inni hefyd lansio ymgyrch newydd gyda'r diwydiant llaeth i godi ymwybyddiaeth am y manteision o ran iechyd i blant ysgolion cynradd o yfed llaeth. Yr wyf hefyd wedi crybwyll sut y mae awdurdodau lleol yn

provide subsidised milk at key stage 2, as well as free milk at key stage 1. I am certain that we can circulate that information for your benefit. It shows that we are working in partnership in Wales.

gweithio gyda chyflenwyr lleol i ddarparu llaeth am bris rhatach yng nghyfnod allweddol 2, yn ogystal â llaeth am ddim yng nghyfnod allweddol 1. Yr wyf yn sicr y gallwn rannu'r wybodaeth honno er eich mwyn. Mae'n dangos ein bod yn gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru.

Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Primary Care Services

Q7 Leanne Wood: How is the First Minister ensuring improvement in access to primary care services? OAQ0909(FM)

C7 Leanne Wood: Sut y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol? OAQ0909(FM)

Jane Hutt: Our strategic plan, 'The Future of Primary Care', defines the access target as patients being able to access an appropriate member of the primary care team within 24 hours of requesting an appointment and much sooner in an emergency. Ninety-three per cent of general practitioner practices are achieving this target across Wales.

Jane Hutt: Yn ein cynllun strategol, 'Dyfodol Gofal Sylfaenol', y diffiniad o'r targed o ran mynediad yw bod cleifion yn gallu cael mynediad at aelod priodol o'r tîm gofal sylfaenol o fewn 24 awr wedi iddynt wneud cais am apwyntiad, neu'n llawer cynt mewn achos brys. Mae 93 y cant o bractisiau meddygon teulu ledled Cymru'n cyrraedd y targed hwn.

Leanne Wood: I am sure that you are aware of the news announced yesterday that complaints against the NHS have rocketed in the last year. In this context, will you, on behalf of the Welsh Assembly Government, apologise to my constituent, who has had to wait more than six weeks for an appointment at the breast clinic in Cardiff? I am sure that you will agree, Minister, that that is far too long to wait once you have discovered a lump on your breast.

Leanne Wood: Yr wyf yn siŵr eich bod wedi clywed y newyddion a gyhoeddwyd ddoe fod nifer y cwynion yn erbyn y GIG wedi cynyddu llawer iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y cyd-destun hwn, a wnewch, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymddiheuro i un o'm hetholwyr sydd wedi gorfod disgwyl dros chwe wythnos am apwyntiad yn y clinig bronau yng Nghaerdydd? Yr wyf yn siŵr y cytunwch, Weinidog, fod hynny'n rhy hir o lawer i orfod disgwyl ar ôl canfod lwmp ar eich bron.

Jane Hutt: Extensive work has been done to improve access to breast cancer services in particular. This has taken place on a south-east Wales regional basis. The cancer plan and networks have considered the importance of not only access to diagnosis, but of access to treatment after diagnosis. Those are the key points taken up in the cancer plan. Reaching the target of 93 per cent in terms of accessing a GP, is key as the first step.

Jane Hutt: Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud i wella mynediad at wasanaethau canser y fron yn benodol. Cyflawnwyd hyn ar lefel ranbarthol ledled y de-ddwyrain. Mae'r cynllun canser a'r rhwydweithiau canser wedi cydnabod pa mor bwysig yw nid yn unig cael diagnosis, ond cael triniaeth ar ôl cael diagnosis. Dyma'r pwyntiau allweddol a gaiff sylw yn y cynllun canser. Mae cyrraedd y targed o 93 y cant o ran cael mynediad at feddyg teulu yn allweddol fel y cam cyntaf.

Leighton Andrews: Will you join me in congratulating the residents of Penrhys in my

Leighton Andrews: A wnewch ymuno â mi i longyfarch trigolion Pen-rhys yn fy etholaeth

constituency for the excellent campaign that they have run to keep their surgery open? I hope that the good news confirming as much will be forthcoming, following the representations that many of us have made to the local health board. This is an example of a community coming together to ensure that its primary care services are protected.

Jane Hutt: That goes back to the importance of having local health services for local people where local people can take action and raise such issues. I cannot comment on the outcome of that example, but it shows the concern and interest of a local community like Penrhys, which, of course, needs access on its doorstep to better health services.

Jonathan Morgan: According to the Prime Minister, everyone in Britain will have access to an NHS dentist. Is this a policy objective shared by the Assembly Government?

Jane Hutt: Clearly, we want everyone to have access to NHS dentistry, which is why so much work is being undertaken on the new contract, which, as you know, is an England and Wales contract. Constructive discussions have been taking place over the last week with the British Dental Association and the Government on dentistry and securing this contract.

Jenny Randerson: The average trust deficit in Wales is over £2.5 million. Local health boards and trusts are clearly under tremendous financial pressure. In Cardiff, the LHB has been forced to suspend plans to roll out the provision of some treatments relating to prostate cancer by the primary care service. Today we have learnt that the Cardiff and Vale NHS Trust has literally run out of money for treating a multiple sclerosis sufferer. When will your Government get to grips with the yawning gap between the mythical vision painted in 'Design for Life' and the reality that our constituents face daily?

am drefnu'r ymgyrch ragorol i gadw eu meddygfa yn agored? Gobeithio, yn sgîl y sylwadau a gyflwynwyd gan sawl un ohonom i'r bwrdd iechyd lleol, y daw newydd da i gadarnhau hynny. Dyma enghraifft o gymuned yn dod ynghyd i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn eu cymuned yn cael eu diogelu.

Jane Hutt: Daw hyn â ni yn ôl at bwysigrwydd cael gwasanaethau iechyd lleol i bobl leol a rhoi cyfle i bobl leol gymryd camau a chodi materion o'r fath. Ni allaf ddweud mwy am ganlyniad yr enghraifft y soniasoch amdani, ond mae'n tanlinellu pryder a diddordeb cymuned leol, megis Penrhys, sydd, wrth gwrs, angen mynediad cyfleus at well gwasanaethau iechyd.

Jonathan Morgan: Yn ôl Prif Weinidog Prydain, bydd pawb ym Mhrydain yn gallu cael mynediad at ddeintydd yn y GIG. A yw'r un amcan o ran polisi gan Lywodraeth y Cynulliad?

Jane Hutt: Mae'n amlwg bod mynediad at wasanaeth deintydd yn y GIG yn rhywbeth yr ydym yn dymuno i bawb ei gael, a dyna pam mae cymaint o waith yn cael ei wneud ar y contract newydd, sydd, fel y gwyddoch, yn gontract yng Nghymru a Lloegr. Cynhaliwyd trafodaethau adeiladol dros yr wythnos ddiwethaf gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain a'r Llywodraeth am ddeintyddiaeth a chyflawni'r contract hwn.

Jenny Randerson: Mae ymddiriedolaethau yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn wynebu diffyg o dros £2.5 miliwn. Mae'n amlwg bod byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau dan bwysau ariannol dychrynlyd. Yng Nghaerdydd, gorfodwyd y bwrdd iechyd lleol i atal ei gynlluniau i ddefnyddio'r gwasanaeth gofal sylfaenol i ddarparu rhai triniaethau ar gyfer canser y prostad. Heddiw, yr ydym wedi cael ar ddeall nad oes gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ddim arian, yn llythrennol, i drin rhywun sydd â sglerosis ymledol. Pryd y gwnaiff eich Llywodraeth ddechrau mynd i'r afael â'r bwloch anferthol rhwng y freuddwyd gwrrach a amlinellir yn 'Cynllun Oes' a'r sefyllfa go iawn y mae ein hetholwyr yn ei hwynebu'n feunyddiol?

Jane Hutt: Let us hope that we keep our budget, which, of course, has seen an unprecedented increase in health spending as a result of our investment over the past six and a half years. Decisions on managing their services are for local health boards and trusts, but all decisions on delivery of service must be made in the context of national service frameworks and clear guidelines and standards. I look forward to our debate on 'Design for Life', to which we agreed and which we were prepared to hold following suggestions from opposition members.

Jane Hutt: Gadewch inni obeithio y gallwn gadw ein cyllideb, sydd, wrth gwrs, wedi peri cynnydd na welwyd ei debyg o'r blaen mewn gwariant ar iechyd o ganlyniad i'n buddsoddiad dros y chwe blynedd a hanner diwethaf. Y byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau sy'n penderfynu sut i reoli eu gwasanaethau, ond rhaid gwneud yr holl benderfyniadau o ran darparu gwasanaeth yng nghyd-destun fframweithiau gwasanaeth cenedlaethol a chanllawiau a safonau clir. Edrychaf ymlaen at ein dadl ar 'Cynllun Oes' y cytunasom i'w chynnal ac yr oeddem yn barod i'w chynnal yn sgîl awgrymiadau gan aelodau'r gwrthbleidiau.

Hyfforddi Rygbi yng Nghastell-nedd Rugby Coaching in Neath

Q8 Gwenda Thomas: Will the First Minister make a statement on rugby coaching for young people in Neath? OAQ0898(FM)

C8 Gwenda Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar hyfforddiant rygbi ar gyfer pobl ifanc yng Nghastell-nedd? OAQ0898(FM)

Jane Hutt: Neath, the Ospreys region and Wales as a whole is seeing an unprecedented increase in the number of new and existing coaches engaging in rugby coaching courses. A total of 388 coaches in Wales have attained the new United Kingdom coaching certificate qualification since the summer, and a course is run monthly in the Ospreys region.

Jane Hutt: Yr ydym yn gweld cynnydd anhygoel yng Nghastell-nedd, yn rhanbarth y Gweilch, ac yng Nghymru benbaladr, yn nifer yr hyfforddwyr, rhai newydd a phrofiadol, sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi rygbi. Ers yr haf, llwyddodd cyfanswm o 388 o hyfforddwyr yng Nghymru i ennill cymhwyster tystysgrif hyfforddiant newydd y Deyrnas Unedig. Cynhelir cwrs yn rhanbarth y Gweilch bob mis.

Gwenda Thomas: The First Minister visited Neath Rugby Football Club recently for the launch of the Prime Start initiative. This partnership initiative between Neath rugby club, Neath Port Talbot County Borough Council, the Sports Council for Wales's Sportmatch scheme and David Orrells and Company, a local business initiative, is to be welcomed. It aims to include all children, including those with special needs.

Gwenda Thomas: Bu'r Prif Weinidog yng Nghlwb Rygbi Castell-nedd yn ddiweddar ar gyfer lansio'r fenter Plant Heini. Dylid croesawu'r fenter hon sy'n bartneriaeth rhwng clwb rygbi Castell-nedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, cynllun Sportmatch Cyngor Chwaraeon Cymru a David Orells a'i gwmni, sy'n fenter busnes leol. Ei nod yw cynnwys pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion arbennig.

The project will include all schools in Neath Port Talbot and will take into account pupils' holistic needs and wellbeing. I am sure that you are as pleased as I to note that the Neath rugby club intends to apply a criminal records bureau check to its part-time coaches, and ensure that they are qualified. Of its own

Bydd y prosiect yn cynnwys holl ysgolion Castell-nedd Port Talbot a bydd yn rhoi sylw i anghenion holistig a lles y disgyblion. Yr wyf yn siŵr eich bod yr un mor falch â mi fod clwb rygbi Castell-nedd yn bwriadu cynnal archwiliad cofnodion troseddol ar bob un o'i hyfforddwyr rhan-amser i sicrhau eu

volition, Neath rugby club has recognised the importance of safeguarding children who may be vulnerable.

Jane Hutt: As Minister for children, I support this initiative. It looks as though Neath rugby club will be a role model in terms of anticipating issues relating to vulnerable children and child protection. I am sure that you, in your role as the local Assembly Member and in chairing the safeguarding review, will focus on these issues.

bod yn gymwys. Mae clwb rygbi Castell-nedd, o'i wirfodd, wedi cydnabod pa mor bwysig yw diogelu plant a all fod yn agored i niwed.

Jane Hutt: Fel y Gweinidog dros blant, yr wyf yn cefnogi'r cynllun hwn. Mae'n edrych yn debyg i mi fod clwb rygbi Castell-nedd yn enghraifft dda o glwb sy'n rhagweld materion a all godi mewn perthynas â phlant sy'n agored i niwed a materion sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant. Yr wyf yn siŵr y gwnewch ganolbwyntio ar y materion hyn, yn eich swyddogaeth fel yr Aelod Cynulliad lleol ac fel cadeirydd yr adolygiad ar ddiogelu.

2.40 p.m.

The Presiding Officer: Question 9, OAQ0894(FM), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ0894(FM), yn ôl.

Adeiladau Ysgolion School Buildings

Q10 Peter Black: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government targets in relation to school buildings? OAQ0896(FM)

C10 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes adeiladau ysgolion? OAQ0896(FM)

Jane Hutt: Good progress is being made. Since 2002, 1,400 projects have received Assembly grants, of which 66 cost more than £0.5 million. Overall funding has increased to £143 million in 2005-06 and is set to continue at this annual level. Forty-nine major projects, costing £81 million, have already been approved for funding from authorities' £9 million lump-sum grant shares.

Jane Hutt: Yr ydym yn gwneud camau breision. Ers 2002, derbyniodd 1,400 o brosiectau grantiau gan y Cynulliad. Yr oedd 66 ohonynt wedi costio dros £0.5 miliwn. Mae'r cyllid yn gyfan gwbl wedi cynyddu i £143 miliwn yn 2005-06 a bydd yn parhau ar y lefel flynyddol hon. Mae 49 o brosiectau mawr, sy'n costio £81 miliwn, wedi cael eu cymeradwyo eisoes i dderbyn cyllid o gyfrannau grant gwerth £9 miliwn sydd gan yr awdurdodau ar ffurf cyfandaliadau.

Peter Black: I understand that your target is to get all school buildings fit by 2010. You say that good progress is being made, but how can you measure that progress when you do not know how much it will cost to get those buildings fit by 2010? What action are you taking as a matter of urgency to establish the cost of getting all school buildings in Wales fit for purpose?

Peter Black: Deallaf mai eich targed yw sicrhau bod holl adeiladau ein hysgolion yn addas erbyn 2010. Yr ydych yn dweud bod cynnydd da'n digwydd, ond sut y gallwch fesur y cynnydd hwnnw os nad ydych yn gwybod faint fydd sicrhau bod yr adeiladau hynny'n addas erbyn 2010 yn ei gostio? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd, fel mater o frys, i weld faint fydd cost sicrhau bod adeiladau'r holl ysgolion yng Nghymru'n addas at eu pwrpas?

Jane Hutt: We have long made

Jane Hutt: Mae gwelliannau i adeiladau

improvements to school buildings a top priority. It was first signalled back in the plan for Wales in October 2001, and was confirmed in 'Wales: A Better Country', the 2003 plan. We allocated a significant investment of £550 million. The total investment over the period 2004-05 to 2007-08 is £629 million. That investment will deliver the improvements. It is also necessary to ensure that local authorities can meet the 2010 target, which will be achieved through the asset management plans and ongoing work with local authorities across Wales.

Ann Jones: Minister, in making school buildings fit for purpose by 2010, will you ensure that you hold discussions with the Minister for Education and Lifelong Learning and the Minister for Social Justice and Regeneration regarding the need to include sprinkler systems within all school buildings to avoid the risk of future arson attacks?

Jane Hutt: That is certainly something that I will take back to those Ministers.

Owen John Thomas: Mae'r diffyg adeiladau penodedig ar gyfer ymarfer corff a chwaraeon mewn nifer o ysgolion cynradd yng Nghymru yn golygu bod gwersi chwaraeon plant yn fyr. Faint o'r arian yn y gyllideb i wella adeiladau ysgolion sydd wedi'i glustnodi i sicrhau darpariaeth addas i alluogi disgyblion i gyrraedd y targedau a amlinellwyd yn nogfen chwaraeon y Llywodraeth, 'Dringo'n Uwch'?

Jane Hutt: This links to the portfolio agenda of the Minister for Culture, Welsh Language and Sport. Part of the problem is the physical layout, both internal and external, which is part of the plan for improving school buildings. However, the increased investment in Dragon Sport in schools, which is expanding into the secondary sector, will have a positive impact on school sports opportunities.

ysgolion wedi bod ar frig ein rhestr o flaenoriaethau ers tro byd. Cyfeiriwyd at hyn gyntaf yn y cynllun i Gymru ym mis Hydref 2001 a chadarnhawyd hynny yng nghynllun 2003, 'Cymru: Gwlad Well'. Dyrannwyd buddsoddiad sylweddol gennym o £550 miliwn. Dros y cyfnod 2004-05 hyd 2007-08 yr ydym am fuddsoddi cyfanswm o £629 miliwn. Bydd y buddsoddiad hwnnw'n cyflawni'r gwelliannau. Mae'n angenrheidiol hefyd fod yr awdurdodau lleol yn gallu cyrraedd targed 2010, a sicrhau hyn drwy'r cynlluniau rheoli asedau a'r gwaith parhaus gydag awdurdodau lleol ledled Cymru.

Ann Jones: Weinidog, wrth sicrhau bod adeiladau ysgolion yn addas at eu pwrpas erbyn 2010, a wnewch sicrhau eich bod yn cynnal trafodaethau â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ynghylch yr angen i osod systemau chwistrellu dŵr yn adeiladau pob ysgol er mwyn osgoi'r perygl y gallai rhywun roi adeilad ar dân yn fwriadol yn y dyfodol?

Jane Hutt: Byddaf yn sicr yn trafod hynny â'r Gweinidogion hynny.

Owen John Thomas: The lack of specific buildings for physical education and sport in many primary schools in Wales means that children's sport lessons are short. How much money from the budget to improve school buildings has been earmarked to ensure adequate provision to enable pupils to achieve the targets set out in the Government's sports document, 'Climbing Higher'?

Jane Hutt: Mae cysylltiad rhwng hyn ac agenda portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. Rhan o'r broblem yw cynllun yr adeiladau, y tu mewn a'r tu allan, ond mae hyn yn rhan o'r cynllun ar gyfer gwella adeiladau ysgolion. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y buddsoddiad yng Nghampau'r Ddraig yn yr ysgolion, sy'n ymestyn i'r sector uwchradd, yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd chwaraeon mewn ysgolion.

Rhwydwaith Rheilffyrdd Ledled Cymru Rail Network Throughout Wales

Q11 Peter Law: What positive action is being taken to develop the passenger rail network throughout Wales? OAQ0913(FM)

Jane Hutt: In terms of the commitment of the Welsh Assembly Government to improvements in rail services, we are continuing to fund station improvements, platform extensions, additional rolling stock, additional services and safety enhancements. We are also—importantly for you, Peter—providing support for the opening of the Ebbw valley line in 2007.

Peter Law: I am concerned about that scheme, which came about as part of the Corus package. In a letter dated 13 March 2003, I was told by your colleague, who is now the Finance Minister, but who was then the Minister with responsibility for transport, that that scheme would start as early as possible in 2005. That would mean 1 January 2005 at the best—10 months ago. The scheme has still not begun, which is quite a disgrace. I think that poor people expect better than that. They are living in social exclusion and expect to have what was promised. I hope that someone will do something to announce the letting of the contract so that we can see work being carried out on the scheme. It was announced in 2003, and should be delivered.

Jane Hutt: You have consistently brought to the fore the issue of updating on progress with the Ebbw Vale line. The announcing of the contract is imminent, which will be welcome news to you. The reopening of services on the Ebbw Vale line is our next major capital scheme. The railway project involves Welsh Assembly Government investment in the western valley line and Ebbw branch line to accommodate those passenger services from Ebbw Vale to Cardiff and Newport. As I said, the contract announcement is imminent and we will make sure that it comes before you.

Jeff Cuthbert: Do you agree that the current re-signalling of the Rhymney Valley to Cardiff line, which is a major investment, together with the enlarging of all platforms

C11 Peter Law: Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddatblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd i deithwyr ledled Cymru? OAQ0913(FM)

Jane Hutt: O ran ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella gwasanaethau'r rheilffyrdd, yr ydym yn parhau i gyllido gwelliannau i orsafoedd, ymestyn platfformau, cynyddu'r stoc cerbydau, darparu gwasanaethau ychwanegol a gwelliannau o ran diogelwch. Yr ydym hefyd – a bydd hyn o ddiddordeb i chi, Peter – yn darparu cymorth i agor lein Glynebwy yn 2007.

Peter Law: Yr wyf yn bryderus am y cynllun hwn, a ddaeth yn sgîl pecyn Corus. Mewn llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2003, dywedwyd wrthyf gan eich cyd-Aelod, sydd erbyn hyn yn Weinidog dros Gyllid ond a oedd bryd hynny'n weinidog â chyfrifoldeb dros drafndiaeth, y byddai'r cynllun hwn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl yn 2005. Golygai hynny, ar y gorau, 1 Ionawr 2005 – 10 mis yn ôl. Nid yw'r cynllun byth wedi dechrau, a chredaf fod hynny'n warth. Credaf fod pobl dlawd yn disgwyl llawer gwell na hynny. Maent wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn disgwyl cael yr hyn a oedd wedi'i addo. Gobeithiaf y bydd rhywun yn gwneud rhywbeth i gyhoeddi bod y contract yn cael ei osod er mwyn inni ddechrau gweld gwaith ar y cynllun. Fe'i cyhoeddwyd yn 2003, a dylid ei roi ar waith.

Jane Hutt: Yr ydych yn holi'n gyson am y wybodaeth ddiweddaraf am hynt lein Glynebwy. Byddwch yn falch o glywed y ein bod ar fin cyhoeddi'r contract. Ailagor gwasanaethau ar lein Glynebwy yw ein cynllun cyfalaf mawr nesaf. Mae prosiect y rheilffordd yn cynnwys buddsoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn lein cymoedd y gorllewin a lein gangen Glynebwy er mwyn darparu ar gyfer y gwasanaethau hynny i deithwyr rhwng Glynebwy a Chaerdydd a Chasnewydd. Fel y dywedais, yr ydym ar fin gwneud cyhoeddiad ynghylch y contract a byddwn yn sicrhau y bydd yn dod ger eich bron.

Jeff Cuthbert: A ydych yn cytuno bod gosod signalau newydd ar hyd lein Cwm Rhymni i Gaerdydd, sydd yn fuddsoddiad sylweddol, ynghyd ag ymestyn pob platfform

on that line thereby allowing longer trains and more frequent trains, is an example of the type of investment that we are making in the rail infrastructure in south Wales?

Jane Hutt: It was part of the £8 billion 15-year investment that Andrew Davies announced last December for transport, and a substantial commitment to the Valleys communities. This year's funding for phase 1 of the Rhymney Valley scheme will enable four trains per hour to Bargoed from December and there will be further phases of work in the Rhymney Valley to enable half-hourly trains to Rhymney.

ar y rheilffordd honno er mwyn gallu derbyn trenau hwy a threnau'n amlach, yn enghraifft o'r math o fuddsoddiad yr ydym yn ei wneud yn seilwaith rheilffyrdd de Cymru?

Jane Hutt: Yr oedd yn rhan o'r buddsoddiad gwerth £8 biliwn dros 15 mlynedd a gyhoeddodd Andrew Davies fis Rhagfyr diwethaf ar gyfer trafndiaeth, ac yr oedd yn ymrwymiad sylweddol i gymunedau'r Cymoedd. Bydd cyllid eleni ar gyfer cam 1 cynllun Cwm Rhymni'n galluogi rhedeg pedwar trê bob awr i Fargoed o fis Rhagfyr ymlaen a gwneir rhagor o waith yng Nghwm Rhymni er mwyn galluogi rhedeg trenau bob hanner awr i Rymni.

Tai Fforddiadwy Affordable Housing

Q12 Helen Mary Jones: What plans does the First Minister have to improve the availability of affordable housing? OAQ0907(FM)

Jane Hutt: In July, we commenced consultation on a comprehensive package of measures, including our affordable housing toolkit, revisions to 'Planning Policy Wales' and guidance on local housing assessment. We are also increasing social housing grant programme resources from £59.4 million in 2004-05 to £96.4 million in 2007-08.

Helen Mary Jones: Hopefully, you will be aware that in many communities in mid and west Wales, second home ownership puts a real pressure on the housing supply and makes the provision and retention of affordable housing more difficult. Will you join me in condemning the right-wing Labour Chancellor's plan to allow wealthy people to use second homes as part of their pension plan, which can only make matters worse, or do you and your colleagues—some of them clearly do—believe that it is acceptable for the wealthy to benefit at the expense of poor people who are desperate for affordable homes in their own communities?

Jane Hutt: That is an unfortunate supplementary, considering our guidance on

C12 Helen Mary Jones: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael? OAQ0907(FM)

Jane Hutt: Ym mis Gorffennaf, dechreuasom ymgynghori ar becyn cynhwysfawr o gamau, gan gynnwys ein pecyn cymorth tai fforddiadwy, adolygiadau i 'Polisi Cynllunio Cymru' a chanllawiau ar asesu tai lleol. Yr ydym hefyd yn cynyddu adnoddau'r rhaglen grantiau tai cymdeithasol o £59.4 miliwn yn 2004-05 i £96.4 miliwn yn 2007-08.

Helen Mary Jones: Gobeithio y gwyddoch fod sawl cymuned yng nghanolbarth a gorllewin Cymru dan straen oherwydd bod ail gartrefi yn rhoi gwir bwysau ar y cyflenwad tai a bod hyn yn golygu bod darparu a chadw tai fforddiadwy yn anos. A wnewch ymuno â mi i gondemnio cynllun Canghellor asgell dde Llafur i ganiatáu i bobl gyfoethog ddefnyddio ail gartref fel rhan o'u cynllun pensiwn, a fydd yn siŵr o waethygu'r sefyllfa, neu a ydych chi a'ch cyd-Aelodau'n credu—ac mae'n amlwg bod rhai ohonynt yn credu hynny—ei bod yn dderbyniol i'r cyfoethog elwa ar draul pobl dlawd y mae arnynt angen taer am gartrefi fforddiadwy yn eu cymunedau eu hunain?

Jane Hutt: Yr oedd hwnnw'n gwestiwn atodol anffodus, ac ystyried ein canllawiau ar

local housing assessment, and the increase in the social housing grant programme. We are the Welsh Assembly Government, and are continuing to lobby the UK Government for changes in primary legislation in terms of the right to buy scheme. Also, in rural Wales, we are providing funding through the social housing management grant towards the appointment of rural housing enablers. This shows that we want to deliver for our people in Wales. If schemes are not appropriate to Wales, we have to judge them as they emerge and make our comments clear, as you have done.

asesu tai lleol, a'r cynnydd yn y rhaglen grantiau tai cymdeithasol. Llywodraeth Cynulliad Cymru ydym ac yr ydym yn parhau i lobïo Llywodraeth y DU am newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r cynllun hawl i brynu. Ar ben hynny, yng nghefn gwlad Cymru, yr ydym yn darparu cyllid drwy'r grant rheoli tai cymdeithasol er mwyn penodi swyddogion galluogi ym maes tai yng nghefn gwlad. Mae hyn yn brawf ein bod am ddarparu ar gyfer ein pobl yng Nghymru. Os nad yw cynlluniau'n addas i Gymru, bydd yn rhaid i ni eu barnu wrth iddynt ymddangos a datgan ein sylwadau'n glir, fel yr ydych chi wedi gwneud.

Blaenoriaethau Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru Financial Priorities of the Welsh Assembly Government

Q13 Jocelyn Davies: What recent discussions has the First Minister had with UK Government Ministers regarding the financial priorities of the Welsh Assembly Government? OAQ0908(FM)

C13 Jocelyn Davies: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â blaenoriaethau ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0908(FM)

Jane Hutt: The First Minister has not had any recent discussions with UK Government Ministers regarding our financial priorities.

Jane Hutt: Nid yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch ein blaenoriaethau ariannol.

Jocelyn Davies: Your restructuring of the health service has not reduced bureaucracy, and administrative costs have grown, especially in my area of the south-east where the increase is over 16 per cent. Have you not got your priorities wrong, and would not the money be better spent on patient care?

Jocelyn Davies: Nid yw biwrocratiaeth wedi lleihau o ganlyniad i'r ailstrwythuro a wnaethoch ar y gwasanaeth iechyd, ac mae'r costau gweinyddol wedi codi, yn enwedig yn fy ardal yn y de-ddwyrain lle y mae'r cynnydd dros 16 y cant. Onid yw eich blaenoriaethau o chwith, ac oni fyddai'n well gwario'r arian ar ofal i gleifion?

Jane Hutt: We need to deliver patient care as a result of reforming the health service to make sure that we provide local services for local people based on local needs and to ensure that issues such as deprivation—I mentioned the Townsend formula earlier—are factored in. Patient care is at the forefront.

Jane Hutt: Mae angen inni ddarparu gofal i gleifion o ganlyniad i ddiwygio'r gwasanaeth iechyd i wneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaethau lleol i bobl leol ar sail anghenion lleol a sicrhau bod materion fel amddifadedd—soniais am fformiwla Townsend yn gynharach—yn cael eu hystyried yn rhan o hynny. Gofal i gleifion yw'r peth pwysicaf.

Gwasanaethau Hosbis Hospice Services

Q14 Catherine Thomas: Will the First Minister make a statement on hospice services in Wales? OAQ0903(FM)

2.50 p.m.

Jane Hutt: Hospices play an important role in meeting the palliative care needs of patients. Hospice services should be planned, organised and delivered as an integral part of health and social care.

Catherine Thomas: As you know, I am particularly interested in the future funding of Tŷ Bryngwyn Hospice in my constituency of Llanelli. I understand that, at the end of this financial year, there will be an underspend of £1.6 million in the budget, which will be set aside for funding hospices such as Tŷ Bryngwyn, and that the £1.6 million is to be shared out among the cancer networks in Wales to then distribute to the eligible hospices. What is the timetable for distributing the underspend, what criteria will be used to determine how much is allocated to eligible hospices, and are you able to indicate when hospices such as Tŷ Bryngwyn will know what the funding situation will be post-April 2007?

Jane Hutt: The £10 million funding scheme was of great benefit to Tŷ Bryngwyn Hospice, as was the £70,000 recurrent revenue support from the trust. On the allocated money that is available for 2006-07, there are discussions about commissioning that in terms of using cancer networks and the children and young people's specialised services project. We will be able to write with a timetable shortly.

C14 Catherine Thomas: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wasanaethau hosbis yng Nghymru? OAQ0903(FM)

Jane Hutt: Mae hosbisau'n chwarae rhan bwysig o ran diwallu anghenion gofal lliniarol cleifion. Dylid cynllunio, trefnu a darparu gwasanaethau hosbisau fel rhan annatod o iechyd a gofal cymdeithasol.

Catherine Thomas: Fel y gwyddoch, mae gennyf ddiddordeb arbennig yng nghyllid Hosbis Tŷ Bryngwyn yn fy etholaeth yn Llanelli ar gyfer y dyfodol. Yr wyf yn cael ar ddeall y bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon o £1.6 miliwn yn y gyllideb, a neilltuir ar gyfer cyllido hosbisau fel Tŷ Bryngwyn, ac y rhennir y £1.6 miliwn rhwng y rhwydweithiau canser yng Nghymru er mwyn ei ddsbarthu wedyn i'r hosbisau sy'n gymwys. Beth yw'r amserlen ar gyfer dosbarthu'r tanwariant, pa feini prawf a ddefnyddir i bennu faint a ddrynnir i hosbisau cymwys, ac a allwch nodi pryd y bydd hosbisau fel Tŷ Bryngwyn yn gwybod beth fydd y sefyllfa o ran cyllid ar ôl mis Ebrill 2007?

Jane Hutt: Yr oedd y cynllun cyllido gwerth £10 miliwn o fudd mawr i Dŷ Bryngwyn, yn yr un modd â'r £70,000 o gymorth refeniw rheolaidd gan yr ymddiriedolaeth. O ran yr arian a neilltuir ar gyfer 2006-07, mae trafodaethau'n digwydd ynghylch comisiynu hynny drwy ddefnyddio rhwydweithiau canser a'r prosiect gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc. Byddwn yn gallu ysgrifennu atoch i roi amserlen i chi cyn bo hir.

Cyllido Llywodraeth Leol Local Government Funding

C15 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllido llywodraeth leol? OAQ0906(FM)

Jane Hutt: The First Minister and Sue Essex have regular contact with UK Government Ministers on a range of issues, including local government.

Q15 David Lloyd: What recent discussions has the First Minister had with UK Government Ministers regarding local government funding? OAQ0906(FM)

Jane Hutt: Mae'r Prif Weinidog a Sue Essex yn cysylltu'n rheolaidd â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch amrywiaeth o faterion, gan gynnwys llywodraeth leol.

David Lloyd: Yn dilyn y trafodaethau hynny, a allwch ddweud faint o arian ychwanegol a godwyd gan ailfandio treth y cyngor yng Nghymru?

David Lloyd: Following on from those discussions, can you say how much additional funding has been raised by council tax rebanding in Wales?

Jane Hutt: In terms of the issues that we are looking at today, it is the 5.1 per cent increase in terms of the settlement for revenue support grant that is important. I am sure that it will be a welcome uplift. I am sure that information will be provided by the Finance Minister on revaluation issues in due course.

Jane Hutt: A chofio'r materion yr ydym yn eu trafod heddiw, y cynnydd o 5.1 y cant yn y setliad ar gyfer grant cymorth refeniw sydd yn bwysig. Yr wyf yn ffyddiog y bydd yn gynydd a gaiff ei groesawu. Yr wyf yn ffyddiog y darperir gwybodaeth gan y Gweinidog Cyllid ynghylch materion yn ymwneud ag ailbricio maes o law.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Nippon Electric Glass

Owen John Thomas: What discussions has the Minister for Economic Development and Transport had with officials at Nippon Electric Glass regarding the announcement that it will cease trading before 30 November resulting in 400 job losses at its Cardiff headquarters? EAQ0481(EDT)

Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi'u cynnal gyda swyddogion Nippon Electric Glass ynglŷn â'r cyhoeddiad y bydd y cwmni yn rhoi'r gorau i fasnachu cyn 30 Tachwedd, gan arwain at golli 400 o swyddi yn ei bencadlys yng Nghaerdydd? EAQ0481(EDT)

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf. Yn y ffordd arferol caniateais gwestiwn brys a hysbysu'r Gweinidog, ond ymddengys nad yw'r Gweinidog yn bresennol i ateb y cwestiwn. Symudwn ymlaen.

The Presiding Officer: I apologise. In the usual manner I have allowed an urgent question and notified the Minister, but it appears that the Minister is not present to respond to the question. We will move on.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Minister (Jane Hutt): I have only one change to report to this week's business. Following this statement, the Minister for Health and Social Services will make a statement on pandemic flu. Business for the next three weeks is as set out in the draft statement, which can be found on the Chamberweb under supporting documents. Following the Business Committee meeting this morning, it has been determined that the Education (Recognised Bodies) (Wales) Order 2005, the School Councils (Wales) Regulations 2005, the Removal and Disposal of Vehicles (Amendment) (Wales)

Y Trefnydd (Jane Hutt): Un newid yn unig sydd gennyf i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Ar ôl y datganiad hwn, bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad am ffliw pandemig. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi ei nodi yn y datganiad drafft, a welir ar we'r Siambr dan ddogfennau ategol. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio Gorchymyn Addysg (Cyrrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2002, Rheoliadau Cyngorau Ysgol (Cymru) 2005, Rheoliadau Symud a Gwaredu

Regulations 2005, the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005, the Welsh Development Agency (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005, and the Wales Tourist Board (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005 need not be referred to a subject committee for extended consideration.

However, it has been determined that the Feed (Hygiene and Enforcement) (Wales) Regulations 2005 should be referred to the Local Government and Public Services Committee and to the Environment, Planning and Countryside Committee for extended consideration, and that the Meat (Official Controls) (Charges) (Wales) Regulations 2005 should be referred to the Environment, Planning and Countryside Committee for extended consideration.

Y Llywydd: A oes gwrthwynebiadau i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. A oes sylwadau?

David Melding: We welcome the fact that you will make time for a statement on drinking in public places. We continue with our request for a debate on electoral arrangements; we cannot wait until the legislation is published for a debate on the Bill, because what your party is proposing is likely to be highly disruptive to the selection procedures of the opposition parties. *[Interruption.]* I can hear someone from the other side shouting 'Hear, hear'—the proposal was obviously designed with that malign intent. Until you concede this debate, we cannot accept your business statement.

Kirsty Williams: We are content with the business statement as it is laid out, but will you consider, following the publication of the local government settlement today, making time available for a discussion of that settlement in the Chamber? Also, given the huge significance of the European Union setting its budget and the consequences that that will have for Wales's ability to obtain

Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2005, Gorchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005, Gorchymyn Bwrdd Croeso Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005 at bwyllgor pwnc i'w hystyried ymhellach.

Fodd bynnag, penderfynwyd y dylid cyfeirio Rheoliadau Bwyd (Hylendid a Gorfodaeth) (Cymru) 2005 at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'w hystyried ymhellach, ac y dylid cyfeirio Rheoliadau Cig (Camau Rheoli Swyddogol) (Taliadau) (Cymru) 2005 at Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i'w hystyried ymhellach.

The Presiding Officer: Are there any objections to the business statement? I see that there are none. Are there any comments?

David Melding: Croesawn y ffaith y byddwch yn neilltuo amser ar gyfer datganiad am yfed mewn mannau cyhoeddus. Yr ydym yn glynu wrth eich cais am ddadl am drefniadau etholiadol; ni allwn aros nes i'r ddeddfwriaeth gael ei chyhoeddi cyn cael dadl am y Mesur hwn, oherwydd bod yr hyn y mae eich plaid yn ei gynnig yn amharu'n sylweddol ar weithdrefnau dethol y gwrthbleidiau. *[Ymyriad.]* Gallaf glywed rhywun yn gweiddi 'Clywch, clywch' o'r ochr arall—cynlluniwyd y cynnig hwn gyda'r bwriad gwenwynllyd hwnnw mewn golwg yn amlwg. Hyd oni fyddwch yn caniatáu i'r ddadl hon gael ei chynnal, ni allwn dderbyn eich datganiad busnes.

Kirsty Williams: Yr ydym yn fodlon ar y datganiad busnes fel y mae, ond ar ôl cyhoeddi'r setliad i lywodraeth leol heddiw, a wnewch ystyried neilltuo amser ar gyfer trafod y setliad hwnnw yn y Siambr? Ar ben hynny, o ystyried arwyddocâd enfawr y ffaith bod yr Undeb Ewropeaidd yn pennu ei gyllideb a chanlyniadau hynny o ran gallu Cymru i gael cronfeydd strwythurol, a

structural funds, will you be scheduling time for either the First Minister or the Minister for Economic Development and Transport to give a statement following the recent meetings that have been held on this subject hosted by the Prime Minister?

The Business Minister (Jane Hutt): Thank you for your support. David, I understand that your group will not support the business statement. I have said that we will schedule a full debate on the Bill once it has been published; that is the right time for us to do so. It is obviously a matter for the Secretary of State. It is clear that the public can wait for that. When the Bill is published, we will schedule a debate.

Kirsty, there is a process for considering the local government settlement. Also, in terms of the budget, I am sure that the First Minister will want to come to the Assembly once that has been agreed, if we are in session.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.
Business statement adopted.*

wnewch drefnu amser naill ai i'r Prif Weinidog neu'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth roi datganiad yn dilyn y cyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd ar y testun hwn, cyfarfodydd a lywyddwyd gan Brif Weinidog Prydain?

Y Trefnydd (Jane Hutt): Diolch am eich cefnogaeth. David, yr wyf yn deall na fydd eich grŵp yn cefnogi'r datganiad busnes. Yr wyf wedi dweud y byddwn yn trefnu dadl lawn ar y Mesur wedi iddo gael ei gyhoeddi; dyna'r adeg iawn inni wneud hynny. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol ydyw, mae'n amlwg. Mae'n amlwg y gall y cyhoedd aros am hynny. Pan gyhoeddir y Mesur, byddwn yn trefnu dadl.

Kirsty, mae proses ar gael ar gyfer ystyried y setliad llywodraeth leol. Hefyd, o ran y gyllideb, yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog am ddod gerbron y Cynulliad ar ôl cytuno arni, os byddwn yn cyfarfod bryd hynny.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Nippon Electric Glass

Y Llywydd: Ar ddiwedd cwestiynau yn gynharach, gelwais gwestiwn brys. Yn anffodus, nid oedd y Gweinidog yn bresennol i'w ateb. Fodd bynnag, o dan Reol Sefydlog 6.34, rhag ein bod yn colli cwestiwn mor bwysig â hwn, mae gennyf yr hawl i alw cwestiwn ar unrhyw adeg arall. Felly, galwaf ar Owen John Thomas i ofyn y cwestiwn.

Owen John Thomas: What discussions has the Minister had with officials at Nippon Electric Glass regarding the announcement that it will cease trading before 30 November, resulting in 400 job losses at its Cardiff headquarters? EAQ0481(EDT)

The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies): Presiding Officer, before answering, I apologise to you and Members for not being present earlier. I meant no disrespect.

The Presiding Officer: At the end of questions earlier, I called an urgent question. Unfortunately, the Minister was not present to answer. However, under Standing Order 6.34, in order that we do not miss such an important question, I have the right to call a question at any other time. Therefore, I call Owen John Thomas to ask the question.

Owen John Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda swyddogion Nippon Electric Glass ynglŷn â'r cyhoeddiad y bydd y cwmni yn rhoi'r gorau i fasnachu cyn 30 Tachwedd, gan arwain at golli 400 o swyddi yn ei bencadlys yng Nghaerdydd? EAQ0481(EDT)

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies): Lywydd, cyn i mi ateb, ymddiheuraf i chi a'r Aelodau am fy absenoldeb yn gynharach. Nid oeddwn yn bwriadu bod yn anghwrtais.

In response to Owen John, I have not had direct contact with NEG; however, my officials at Trade and Invest Wales and the Welsh Development Agency were given prior notice of the closure on a strictly confidential basis. A rapid response team has already been set up to help those affected by this unfortunate news.

Owen John Thomas: You will appreciate that, since 1999, the number of manufacturing jobs in South Wales Central has gone down from 39,500 to 32,000. That is a drop of 7,500, which is almost one in five of the manufacturing jobs in the area lost over a period of four years. If you extrapolate from that, by 2019, there will only be 13,500 jobs left in this area, a third of the 1999 figure. I would like to know what you are doing to stop this huge decline in the number of manufacturing jobs. What are you doing in terms of education and training to bring people up to the cutting edge of technology, so that we can compete with countries like Poland and so forth? What are you doing to invest more in the small and medium-sized industries in Wales—the ones that are likely to stay here—instead of wasting £10 million on a site in Coedely that has stood barren for four years?

Andrew Davies: Nippon Electric Glass is closing its Cardiff facility as a direct result of the decline in demand for the glass that goes into cathode ray tubes. The decision by Sony earlier this year to close its CRT plant at Bridgend, where a lot of that glass from NEG went, is a direct cause of the decision by NEG to close its plant.

3.00 p.m.

We are not immune from global pressures in manufacturing, particularly from the low-cost manufacturing centres which only a few years ago were in eastern and central Europe, and which are now, increasingly, in China. That is one of the reasons that we have lost manufacturing jobs. However, that has not

Er mwyn ateb Owen John, nid wyf wedi cael cyswllt uniongyrchol â NEG; fodd bynnag, yr oedd fy swyddogion ym Masnach a Buddsoddi Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru wedi cael gwybod am y cau ymlaen llaw, ond yr oedd y wybodaeth hon yn gwbl gyfrinachol. Mae tîm ymateb brys eisoes wedi cael ei sefydlu i helpu'r rhai yr effeithir arnynt gan y newyddion anffodus.

Owen John Thomas: Byddwch yn sylweddoli bod nifer y swyddi gweithgynhyrchu yng Nghanol De Cymru wedi disgyn o 39,500 i 32,000 ers 1999. Mae hynny'n ostyngiad o 7,500, sydd yn golygu colli bron un o bob pum swydd gweithgynhyrchu yn yr ardal dros gyfnod o bedair blynedd. Os dilynwn y patrwm hwnnw, dim ond 13,500 swydd fydd ar ôl yn yr ardal hon erbyn 2019, sef traean y ffigur yn 1999. Carwn wybod beth yr ydych yn ei wneud i atal y dirywiad enfawr hwn mewn swyddi gweithgynhyrchu. Beth yr ydych yn ei wneud o ran addysg a hyfforddiant i sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn inni allu cystadlu â gwledydd fel Gwlad Pwyl ac yn y blaen? Beth yr ydych yn ei wneud i fuddsoddi rhagor mewn diwydiannau bach a chanolig yng Nghymru—y rhai hynny sydd yn debygol o aros yma—yn hytrach na gwastraffu £10 miliwn ar safle yng Nghoed-elái sydd wedi bod yn segur ers pedair blynedd?

Andrew Davies: Mae Nippon Electric Glass yn cau ei gyfleuster yng Nghaerdydd o ganlyniad uniongyrchol i'r gostyngiad yn y galw am wydr a ddefnyddir mewn tiwbiau pelydrau cathod. Yr oedd penderfyniad Sony yn gynharach eleni i gau ei safle CRT ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle yr oedd llawer o'r gwydr hwnnw'n mynd, yn un o'r rhesymau uniongyrchol dros benderfyniad NEG i gau ei safle.

Nid ydym yn ddiogel rhag pwysau byd-eang ym maes gweithgynhyrchu, yn enwedig o du'r canolfannau gweithgynhyrchu cost isel a oedd hyd ychydig flynyddoedd yn ôl yn nwyrain a chanol Ewrop, ac sydd bellach, i raddau cynyddol, yn Tsieina. Dyna un o'r rhesymau pam yr ydym wedi colli swyddi

just been happening in the past few years; we have been continuously losing jobs in the sector for decades. Wales has done better than any other part of the UK in terms of maintaining a strong manufacturing sector. About 23 per cent of the Welsh GDP is contributed by the manufacturing sector.

That is by no means to say that we are complacent. We are working with the industry, with companies and with trade unions to look at what we can do to develop and maintain our manufacturing sector. Last year, I set up a manufacturing task and finish group, chaired by Colin Johnson, the former manager of the Ford engine plant at Bridgend. That group looked at developing an action plan, which we are well on the way to implementing. We are also working with manufacturing sectors, such as the automotive, electronics and aerospace industries to develop them, to see where the markets are going, and to establish what we need to do, as a Government, in the public sector, working with the industry to ensure that we have vibrant manufacturing companies in those dynamic sectors of the future.

Lorraine Barrett: I am sure that we all extend our sympathies to the workforce and their families, particularly at this time of year with Christmas looming. As you said, the collapse in demand for the cathode ray tubes in the UK and Europe has contributed in no small part to the proposed closure of the NEG site. I ask for your assurance that you and your Government are doing everything possible to ensure that Wales remains well placed and geared up to respond to the new technologies, because that has obviously not happened up until now with this company. Will you reiterate your assurance that ELWa, JobCentre Plus and others will be well geared up to offer retraining and to help people to find jobs? It is important that this site be marketed and retained, preferably for industry, but definitely not for housing or leisure purposes. We really need an industrial site in this area of Cardiff.

gweithgynhyrchu. Fodd bynnag, nid yn y blynyddoedd diwethaf yn unig y digwyddodd hynny; yr ydym wedi bod yn colli swyddi'n barhaus yn y sector hwn ers degawdau. Mae Cymru wedi gwneud yn well na dim un rhan arall o'r DU o ran cadw sector gweithgynhyrchu cryf. Mae tua 23 y cant o CMC Cymru'n cael ei gyfrannu gan y sector gweithgynhyrchu.

Nid yw hynny'n golygu ein bod yn ddifater o gwbl. Yr ydym yn gweithio gyda'r diwydiant, gyda chwmnïau a chydag undebau llafur i ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i ddatblygu a chadw ein sector gweithgynhyrchu. Y llynedd, sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen ar weithgynhyrchu, dan gadeiryddiaeth Colin Johnson, cyn-reolwr gwaith peiriannau Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bu i'r grŵp hwnnw ystyried datblygu cynllun gweithredu, yr ydym wrthi'n ei roi ar waith. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda sectorau gweithgynhyrchu, fel y diwydiannau modurol, electroneg ac awyrfodol i'w datblygu, i weld i ba gyfeiriad y mae'r marchnadoedd yn mynd, ac i benderfynu beth sydd angen i ni ei wneud, fel Llywodraeth, yn y sector cyhoeddus, gan weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod cwmnïau gweithgynhyrchu bywiog yn y sectorau deinamig hynny yn y dyfodol.

Lorraine Barrett: Yr wyf yn siŵr y byddwn oll yn estyn ein cydymdeimlad i'r gweithlu a'u teuluoedd, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn a'r Nadolig yn nesáu. Fel y dywedaso, mae'r cwmp yn y galw am diwbiau pelydrau cathod yn y DU ac Ewrop wedi cyfrannu'n helaeth at y bwriad i gau safle NEG. Gofynnaf am sicrwydd gennych eich bod chi a'ch Llywodraeth yn gwneud popeth a allwch i sicrhau bod Cymru'n dal i fod mewn sefyllfa fanteisiol ac yn barod i ymateb i'r technolegau newydd, gan ei bod yn amlwg nad yw hynny wedi digwydd hyd yma yn achos y cwmni hwn. A wnewch ailddatgan y sicrwydd a roeso, y bydd ELWa, Canolfan Byd Gwaith ac eraill yn barod i gynnig ailhyfforddiant ac i helpu pobl i ddod o hyd i swyddi? Mae'n bwysig marchnata a chadw'r safle hwn, ar gyfer diwydiant os oes modd, ond yn sicr nid at ddibenion tai neu hamdden. Mae gwir angen safle diwydiannol yn y rhan hon o Gaerdydd.

Andrew Davies: I certainly give my commitment to the workforce and those affected. It affects about 260 people directly employed by NEG, and another 100 or so contractors. We will work with all those affected, as we have done on a Team Wales basis to help those people to get alternative employment or to seek training opportunities—whichever they wish.

The point you make about future manufacturing needs relates to what has triggered this, which was the closure by Sony of its CRT facility in Bridgend. We have worked with Sony over many years to identify investment opportunities, but, with regard to the current and next generations of television production, namely flat screens, in its own commercial interests, it decided not to produce those in Wales. There was nothing that we could do as a Government about that. However, following my meeting with Sir Howard Stringer, the chief executive of Sony, at the headquarters in New York, Sony has decided to locate the production of its high-value television and studio film cameras in Pencoed, as well as the maintenance and repair operation for its UK product. Therefore, we will work with companies—we have done and will continue to do so—to explore any opportunities.

With regard to the disposal of the NEG site, we will look at whether the facility can be used for alternative production. There is a very significant power capacity—electricity capacity—that could have other uses, and, with the company, the WDA and others, we will explore what we can do. We want the site to be retained for productive capacity, but, ultimately, it is not our decision. However, we will work with anybody necessary to make sure that the site has a productive use.

Jonathan Morgan: As you outlined, one of the problems is that this is not an isolated case. Any company dealing in this line of electronic and glass work will face a similar

Andrew Davies: Yn sicr, rhoddaf ymrwymiad i'r gweithlu ac i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Mae hyn yn effeithio ar tua 260 o bobl sydd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan NEG, ac ar ryw 100 o gontractwyr. Byddwn yn gweithio gyda phawb yr effeithiwyd arnynt, fel yr ydym wedi gwneud drwy Dîm Cymru i helpu'r bobl hynny i gael gwaith arall neu i chwilio am gyfleoedd i hyfforddi—pa un bynnag sydd orau ganddynt.

Mae'r pwynt a wnaethoch am yr anghenion o ran gweithgynhyrchu yn y dyfodol yn ymwneud â'r hyn sydd wedi achosi hyn, sef cau'r cyfleuster tiwbiau pelydrau cathod gan Sony ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr ydym wedi gweithio gyda Sony ers blynnyddoedd lawer i ganfod cyfleoedd i fuddsoddi, ond, gyda golwg ar gynhyrchu'r genhedlaeth bresennol o setiau teledu a'r un nesaf, sef rhai â sgriniau gwastad, er mwyn ei fuddiannau masnachol ei hun, mae wedi penderfynu peidio â chynhyrchu'r rhain yng Nghymru. Nid oedd dim y gallem ei wneud fel Llywodraeth ynghylch hynny. Fodd bynnag, yn dilyn fy nghyfarfod â Syr Howard Stringer, prif weithredwr Sony, yn y pencadlys yn Efrog Newydd, mae Sony wedi penderfynu lleoli ei waith cynhyrchu camerâu ffilm drudfawr ar gyfer teledu a stiwdios ym Mhen-coed, yn ogystal â'r gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer ei gynhyrchion yn y DU. Felly, byddwn yn gweithio gyda chwmnïau—yr ydym wedi gwneud hynny a pharhawn i wneud hynny—i ymchwilio i unrhyw gyfleoedd.

O ran gwaredu safle NEG, byddwn yn ystyried a ellir defnyddio'r cyfleuster ar gyfer cynhyrchu o fath arall. Mae cyflenwad mawr iawn o ynni ar gael yno—cyflenwad trydan—y gellid ei ddefnyddio at ddibenion eraill, a byddwn ni, ynghyd â'r cwmni, y WDA ac eraill, yn ymchwilio i'r posibilïadau. Yr ydym yn dymuno cadw'r safle ar gyfer cynhyrchu, ond, yn y pen draw, nid ni piau penderfynu. Er hynny, byddwn yn gweithio gydag unrhyw un, yn ôl yr angen, i sicrhau defnydd cynhyrchiol i'r safle.

Jonathan Morgan: Fel yr ydych wedi nodi, un o'r problemau yw nad un enghraifft brin yw hon. Bydd unrhyw gwmni sydd yn delio â'r math hwn o waith electroneg a gwydr yn

threat to that now experienced, rather too harshly, by Nippon Electric Glass Company Limited. What analysis has been undertaken, either by your department or the Welsh Development Agency, into the possible threats that other companies in Wales may face as a result of the downturn in this area of the economy? Secondly, what work has been done by you, or your department, on the particular skills mix of those people who have now lost their jobs at Nippon, who could be employed elsewhere in the manufacturing sector in Wales? Thirdly, do you not accept that the manufacturing picture is now rather different from that which you have been painting? In England, in the last two quarters, manufacturing output has risen; in Wales, it has fallen.

Andrew Davies: On your point about what will happen with individual companies or sectors, as I said earlier in my reply to Owen John Thomas, we work with sectors such as the automotive, aerospace and electronics industries to identify the market pressures and, where appropriate, what we can do through our account management system, particularly through the WDA, to identify companies or sectors that may be experiencing difficulties and offer them assistance, whether through investment in new models or training or whatever is most appropriate. Ultimately, whether an individual company can accept that offer is a commercial decision. In many cases, companies do not wish to avail themselves of public sector assistance; that is their right, and they will do that if they believe that it is within their commercial interest. If there are unfortunate redundancies such as those with which we are faced at NEG, then we will work to seek alternative use of that facility and help the employees who are affected by those redundancies.

The point that I made about the manufacturing sector in Wales is that, compared with the rest of the UK, a greater proportion of our GDP is contributed through manufacturing, and, yes, some aspects of it have suffered particularly badly over the last

wynebu bygythiad tebyg i'r un y mae Nippon Electric Glass Company Limited yn ei brofi'n awr, mewn modd pur lym. Pa ddadansoddi a wnaed, un ai gan eich adran chi neu gan Awdurdod Datblygu Cymru, ar y bygythiadau y gallai cwmnïau eraill yng Nghymru eu hwynebu o ganlyniad i'r dirywiad yn y rhan hon o'r economi? Yn ail, pa waith a wnaed gennych chi, neu gan eich adran, i ganfod y cymysgedd sgiliau penodol sydd gan y rhai sydd bellach wedi colli eu swyddi yng ngwaith Nippon, y gellid eu cyflogi mewn mannau eraill yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru? Yn drydydd, onid ydych yn derbyn bod y darlun o ran gweithgynhyrchu braidd yn wahanol yn awr i'r un yr ydych wedi'i gyfleu? Yn Lloegr, yn y ddau chwarter diwethaf, mae'r cynnyrch ym maes gweithgynhyrchu wedi codi; yng Nghymru, mae wedi gostwng.

Andrew Davies: Ynghylch y pwynt a wnaethoch am yr hyn a fydd yn digwydd i gwmmnïau neu sectorau neilltuol, fel y dywedais yn gynharach yn fy ateb i Owen John Thomas, yr ydym yn gweithio gyda sectorau fel y diwydiannau modurol, awyrofod ac electroneg i ganfod y pwysau sydd yn y farchnad ac, os yw'n briodol, beth y gallwn ei wneud drwy ein system rheoli cyfrifon, yn enwedig drwy'r WDA, i ganfod cwmnïau neu sectorau a allai fod yn profi anawsterau a chynnig cymorth iddynt, boed hynny drwy fuddsoddi mewn modelau newydd neu hyfforddiant neu beth bynnag sydd fwyaf priodol. Yn y pen draw, bydd cwmni neilltuol yn penderfynu ar sail fasnachol a yw'n gallu derbyn y cynnig hwnnw. Mewn llawer achos, nid yw cwmnïau'n dymuno manteisio ar gymorth gan y sector cyhoeddus; mae ganddynt hawl i wneud hynny, ac fe wnânt hynny os credant ei fod er budd masnachol iddynt. Os bydd gweithwyr, yn anffodus, yn cael eu diswyddo, fel yn achos NEG, byddwn yn chwilio am ddiben arall i'r cyfleuster hwnnw ac yn helpu'r gweithwyr hynny a fydd yn colli eu gwaith.

Y pwynt a wneuthum am y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru yw bod cyfran fwy o'n CMC yn dod o weithgynhyrchu, o'i gymharu â gweddill y DU ac, yn wir, mae rhai agweddau arno wedi dioddef yn wael iawn dros y misoedd

few months. As we are aware, the automotive sector has had particularly tough times. I reinforce the point that Wales cannot be immune from the rest of the world economy. When we see that major companies in the automotive sector, such as General Motors and Ford, are experiencing such huge pressures and difficulties, it is not surprising to see that individual companies in that sector in Wales are also experiencing difficulties, as with the demise of MG Rover early in the summer. It is not true to say that Wales is being more adversely affected than the rest of the UK, but we have a unique advantage, namely that our Team-Wales public-sector approach ensures that we can work with individual companies, as well as sectors, to help those companies through what may be short-term difficulties.

Jenny Randerson: I join with the sympathies offered to the people affected by this decision, many of whom are my constituents. A prosperous capital is essential as a flagship for a prosperous Wales, and a prosperous, sustainable economy must have a strong manufacturing base. Unfortunately, this announcement was, in many ways, all too predictable; there have been so many before it, as you have indicated. You said that we are not immune to world movements, but that does not mean that we have to give up on this. Unfortunately, in the recent past, what has been done on these issues has been too little too late—a bit like your appearance here this afternoon. One issue for the Cardiff area is the lack of availability of regional selective assistance funding, and the crucial issue that we now face is the future regional aid map, which is under discussion at present. What are you doing, Minister, to press the case for eastern Wales to be included in the regional aid map, which will assist us in helping companies with these kinds of problems in the future?

Andrew Davies: On that last point, we have been making the case very strongly. I am sure that your successor as economic development spokesperson can brief you on the fact that this matter came up in the last committee meeting two weeks ago, when we looked at

diwethaf. Fel y gwyddom, mae'r sector modurol wedi cael amser anodd iawn. Ailadroddaf y pwynt na all Cymru fod yn ddiogel rhag effeithiau economi gweddill y byd. Pan welwn fod cwmnïau mawr yn y sector modurol, fel General Motors a Ford, yn profi'r fath bwysau ac anawsterau aruthrol, nid yw'n syndod bod cwmnïau unigol yn y sector hwnnw yng Nghymru'n profi anawsterau hefyd, fel y gwelwyd gyda thranc MG Rover ar ddechrau'r haf. Anghywir yw dweud bod Cymru'n ei chael yn waeth na gweddill y DU, ond mae gennym fantais unigryw, sef bod ein dull o weithio drwy Dim Cymru yn y sector cyhoeddus yn sicrhau ein bod yn gallu gweithio gyda chwmnïau unigol, yn ogystal â sectorau, i helpu'r cwmnïau hynny i ddod drwy'r hyn a allai fod yn anawsterau tymor byr.

Jenny Randerson: Yr wyf finnu'n estyn cydymdeimlad i'r rhai y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio arnynt, y mae llawer ohonynt yn etholwyr i mi. Rhaid cael prifddinas lewyrchus i gynrychioli Cymru lewyrchus, a rhaid i economi gynaliadwy, lewyrchus fod â sylfaen gweithgynhyrchu gadarn. Gwaetha'r modd, yr oedd y cyhoeddiad hwn, ar lawer ystyr, yn un yr oedd yn hawdd ei ragweld; bu cynifer o'i flaen, fel y dywedasoch. Dywedasoch nad ydym yn ddiogel rhag newidiadau yn y byd, ond nid yw hynny'n golygu bod rhaid inni roi'r ffidil yn y to yn hyn o beth. Gwaetha'r modd, yn ddiweddar, mae rhy ychydig wedi'i wneud ar y materion hyn, a hynny'n rhy hwyr—yn debyg braidd i'ch ymddangosiad yma y prynhawn yma. Un ystyriaeth yn ardal Caerdydd yw nad yw arian ar gael ar ffurf cymorth rhanbarthol dewisol, a'r mater hollbwysig yr ydym yn ei wynebu'n awr yw'r map cymorth rhanbarthol a geir yn y dyfodol. Beth yr ydych yn ei wneud, Weinidog, i ddadlau dros gynnwys dwyrain Cymru yn y map cymorth rhanbarthol, a fydd o gymorth inni allu helpu cwmnïau sydd â phroblemau o'r math hwn yn y dyfodol?

Andrew Davies: Ynghylch y pwynt olaf a wnaethoch, yr ydym wedi dadlau dros hynny'n gryf iawn. Yr wyf yn siŵr y bydd eich olynnydd fel llefarydd ar ddatblygu economaidd yn gallu'ch briffio ynghylch y ffaith bod y mater hwn wedi codi yng

the latest position on the regional aid guidelines. I am sure that Kirsty will be able to brief you fully on the latest position, as she is sitting just behind you.

nghyfarfod diwethaf y pwyllgor bythefnos yn ôl, pan ystyriasom y sefyllfa ddiweddaraf o ran y canllawiau ar gymorth rhanbarthol. Yr wyf yn siŵr y bydd Kirsty yn gallu'ch briffio'n llawn ar y sefyllfa ddiweddaraf, gan ei bod yn eistedd y tu ôl i chi.

3.10 p.m.

We were able to respond to say that we have made significant progress. We think that the latest budget proposals from the European Commission are as favourable as they are likely to get at this stage, in terms of the ability to offer financial assistance to companies in Wales, particularly on the eastern side. The final decisions have not yet been made, but I have made a commitment to keep the committee and Members up to date on the latest position. However, I would take issue with your saying that there is a shortage of RSA; there is no shortage of financial assistance for companies. If a company is not in an assisted area, there is limited intervention support that we can give, and there is certainly a reduced level of support in terms of the Assembly investment grant, as I am sure that you are aware. However, there is no shortage of financial assistance per se.

Yr oeddem yn gallu ymateb gan ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol. Credaf fod y cynigion diweddaraf ar y gyllideb gan y Comisiwn Ewropeaidd mor ffafriol ag y maent yn debygol o fod ar yr adeg hon, o ran y gallu i gynnig cymorth ariannol i gwmnïau yng Nghymru, yn enwedig yn y dwyrain. Nid yw'r penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto, ond yr wyf wedi ymrwymo i roi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf i'r pwyllgor a'r Aelodau. Er hynny, anghytunaf â'r hyn a ddywedasoch i'r perwyl bod cymorth rhanbarthol dewisol yn brin; nid oes prinder o ran y cymorth ariannol sydd ar gael i gwmnïau. Os nad yw cwmni mewn ardal a gynorthwyir, gallwn roi ychydig o gymorth wrth ymyrryd, ac yn sicr mae cymorth ar gael ar lefel is drwy grant buddsoddi'r Cynulliad, fel y gwyddoch yr wyf yn siŵr. Er hynny, nid oes prinder o ran cymorth ariannol fel y cyfryw.

The Presiding Officer: Thank you, Minister. While I fully accept the apology that the Minister tendered to the Assembly earlier, I must say that, when an Assembly Member requests an urgent question and that question is allowed, I expect the relevant Minister to be present to answer that question.

Y Llywydd: Diolch i chi, Weinidog. Er fy mod yn llwyr dderbyn yr ymddiheuriad a gynigiodd y Gweinidog i'r Cynulliad yn gynharach, rhaid imi ddweud, os bydd Aelod Cynulliad yn gwneud cais i ofyn cwestiwn brys ac os caniateir y cwestiwn hwnnw, fy mod yn disgwyl i'r Gweinidog perthnasol fod yn bresennol i ateb y cwestiwn hwnnw.

Datganiad am Ffliw Pandemig Statement on Pandemic Flu

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): A flu pandemic is a global event and our preparations, as part of the UK, have been guided by the World Health Organization. On 19 October, the 'Pandemic Flu: UK Health Departments, UK Influenza Pandemic Contingency Plan' was published, which articulates the roles and responsibilities of departments at each stage of an emerging pandemic. To support the UK plan, we published the 'Wales Framework for

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mae pandemig ffliw'n ddigwyddiad byd-eang ac mae ein paratodau, fel rhan o'r DU, wedi'u harwain gan Sefydliad Iechyd y Byd. Ar 19 Hydref, cyhoeddwyd 'Pandemic Flu: UK Health Departments, UK Influenza Pandemic Contingency Plan', sydd yn egluro rolau a chyfrifoldebau adrannau ym mhob cam wrth i bandemig ddatblygu. Er mwyn ategu cynllun y DU, cyhoeddasom 'Wales Framework for

Managing Major Infectious Disease Emergencies', which contains operational guidance for the NHS and other organisations.

Flu pandemic planning has not been undertaken in isolation, because we have enhanced our preparedness to respond to any large-scale health emergency. It is true, however, that the impact of a pandemic is likely to be greater than other health emergencies. A pandemic may occur in several waves, so our responses will need to be sustained for a prolonged period. A flu pandemic will affect everyone's lives in one way or another. We need people to understand the potential threat and know how they can help themselves, their families and the wider community.

Much confusion exists regarding seasonal flu, avian flu and pandemic flu, so communicating the risk is challenging. We must be informative, but not alarmist. If we speak too softly, we may not be heard. If our message is too loud, it risks provoking disproportionate fears. If we engage with everyone too early and the pandemic does not materialise, future warnings may not be heeded seriously. If we engage with everyone when the threat is closer to home, some may think that we have deliberately kept them in the dark. I was particularly pleased, when the plans were published, that the Welsh media helped in getting complex issues into the public domain in a proportionate and responsible way.

I must emphasise that pandemic flu will be imminent only when a new virus has shown that it is capable of being spread easily between people. In practice, this means that there must be evidence to show that a new virus has caused chains of illness, passed from one person to another, in more than one country, where there are no obvious links. This has not happened, and the World Health Organization is clear that there has been no increase in the level of threat, despite the recent media coverage of events in other countries. Strong leadership and clear lines of accountability are essential in preparing for a

Managing Major Infectious Disease Emergencies', sydd yn cynnwys canllawiau ar weithredu i'r GIG a chyrrff eraill.

Nid yw'r cynllunio ar gyfer pandemig ffliw wedi'i wneud ar wahân i bopeth arall, gan ein bod wedi dod yn fwy parod i ymateb i unrhyw argyfwng iechyd sylweddol. Mae'n wir, er hynny, fod effaith pandemig yn debygol o fod yn fwy nag yn achos argyfyngau iechyd eraill. Gall pandemig ddigwydd ar ffurf nifer o donnau, felly bydd yn rhaid inni barhau â'n hymatebion dros gyfnod hir. Bydd pandemig ffliw yn effeithio ar fywydau pawb mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Rhaid inni beri i bobl ddeall y bygythiad posibl a'r modd y gallant eu helpu eu hunain, eu teuluoedd a'r gymuned yn gyffredinol.

Ceir llawer o ddryswch ynghylch ffliw tymhorol, ffliw adar a ffliw pandemig, felly anodd fydd cyfleu natur y perygl. Rhaid inni gynnig digon o wybodaeth heb godi ofn. Os siaradwn yn rhy ddistaw, mae'n bosibl na chlywir ni. Os bydd ein neges yn rhy uchel, mae perygl y bydd yn codi ofnau anghymesur. Os cysylltw'n â phawb yn rhy fuan ac os na fydd y pandemig yn digwydd, efallai na fydd rhybuddion yn y dyfodol yn cael eu cymryd o ddifrif. Os cysylltw'n â phawb pan yw'r bygythiad yn agosach, efallai y bydd rhai'n credu ein bod wedi'i gadw'n ddistaw yn fwriadol. Yr oeddwn yn arbennig o falch, pan gyhoeddwyd y cynlluniau, fod y cyfryngau yng Nghymru wedi helpu i gyflwyno materion cymhleth yn y maes cyhoeddus mewn modd cymesur a chyfrifol.

Rhaid imi bwysleisio na fydd ffliw pandemig ond yn dod yn agos pan welir bod feirws newydd yn gallu cael ei ledaenu'n rhywydd rhwng pobl. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid cael tystiolaeth i ddangos bod feirws newydd wedi achosi cadwynau o salwch, sydd wedi'i drosglwyddo rhwng pobl a'i gilydd, mewn mwy nag un wlad, lle nad oes dim cysylltiadau amlwg. Nid yw hynny wedi digwydd, ac mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi dweud yn glir nad yw lefel y bygythiad wedi codi, er gwaethaf y sylw a roddwyd yn y cyfryngau'n ddiweddar i ddigwyddiadau mewn gwledydd eraill. Mae

pandemic, and these are in place. Once a pandemic has been declared by the World Health Organization, the UK contingency response will be through the Cabinet Office's civil contingencies committee.

If a pandemic starts, a graduated series of public health measures will be implemented to reduce its impact, including the use of antiviral drugs, robust public health advice on self-help measures such as good hand hygiene, appropriate advice on the use of healthcare services, treatment of cases in accordance with nationally agreed principles, other social measures to reduce person-to-person spread, and the use of a pandemic vaccine once it becomes available. It is likely that people will not have encountered the pandemic virus, so there will be no natural immunity such as that which exists to seasonal flu strains. A pandemic vaccine has to be well matched to the virus to protect us, and it cannot be manufactured until the strain has been specifically identified. There have been stories that some countries are immunising their people against avian flu. This is not the case. There is no H5N1 vaccine approved for human use, though researchers are working on this. The experts tell us that avian flu is hard for people to catch, as getting it requires close contact with an infected bird. However, the pandemic flu threat might come if an avian flu virus mixes with a human flu virus and mutates into a new variant that is highly infectious and easily transmittable.

Whichever virus strain emerges, antiviral drugs will play a key part of the management of cases. They are effective against seasonal flu and are the only virus-specific intervention that we can use until a pandemic vaccine is available. The decision not to use antivirals as a preventative measure is a logistical one as much as a financial one: we would require a much larger drug supply, and it is unclear how long antivirals would need to be taken, particularly if a pandemic was prolonged. We are purchasing antivirals to treat those of us who are expected to develop

arweiniad cadarn a llinellau atebolrwydd clir yn hollbwysig wrth baratoi ar gyfer pandemig, ac mae'r rhain wedi'u sefydlu. Wedi i Sefydliad Iechyd y Byd ddatgan bod pandemig, bydd y DU yn ymateb i'r hapddigwyddiad drwy bwyllgor hapddigwyddiadau sifil Swyddfa'r Cabinet.

Os bydd pandemig yn dechrau, bydd cyfres raddoledig o fesurau iechyd cyhoeddus yn cael ei rhoi ar waith i leihau ei effaith, gan gynnwys defnyddio cyffuriau gwrthfeirysol, cyngor iechyd cyhoeddus dibynadwy ynghylch mesurau hunangymorth fel hylendid dwylo, cyngor priodol ynghylch defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, trin achosion yn unol ag egwyddorion y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, mesurau cymdeithasol eraill i leihau ymlediad y feirws rhwng unigolion, a defnyddio brechlyn pandemig pan fydd ar gael. Mae'n debygol na fydd pobl wedi dod i gysylltiad â'r feirws pandemig, felly ni fydd dim imiwneidd naturiol fel a geir rhag mathau o fflw tymhorol. Rhaid i frechlyn y pandemig fod yn debyg iawn i'r feirws er mwyn ein gwarchod, ac ni ellir ei gynhyrchu nes gwyddys pa fath yn benodol o'r feirws ydyw. Cafwyd straeon bod rhai gwledydd yn imiwneiddio'u pobloedd rhag fflw adar. Nid yw hyn yn wir. Nid oes brechlyn H5N1 wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio gyda phobl, er bod ymchwilyr yn gweithio ar hyn. Dywed yr arbenigwyr wrthym ei bod yn anodd i bobl ddal fflw adar, gan y byddai'n rhaid mynd i gysylltiad agos ag aderyn sydd wedi'i heintio. Fodd bynnag, gallai bygythiad y fflw pandemig ddod wrth i feirws fflw adar gymysgu â feirws fflw dynol a throi'n amrywiolyn newydd sydd yn eithriadol o heintus ac yn hawdd ei drosglwyddo.

Pa fath bynnag o'r feirws a ddatblyga, bydd cyffuriau gwrthfeirysol yn chwarae rhan allweddol wrth reoli achosion. Maent yn effeithiol yn erbyn fflw tymhorol a dyma'r unig ymyriad feirws-benodol y gallwn ei ddefnyddio hyd nes bydd brechlyn pandemig ar gael. Mae'r penderfyniad i beidio â defnyddio cyffuriau gwrthfeirysol fel cam ataliol yn un logistaidd yn ogystal â bod yn un ariannol: byddai arnom angen cyflenwad llawer mwy o gyffuriau, ac nid yw'n glir am ba hyd y byddai angen cymryd y cyffuriau gwrthfeirysol, yn enwedig pe bai pandemig

clinical symptoms, and in line with the estimated clinical attack rate of 25 per cent, as recommended by the World Health Organization. As with the other UK countries, our antivirals are being delivered between August 2005 and September 2006. I can assure all in Wales that, although our supplies are being stored initially in England, they are ring-fenced for our use and we can access them at any time should that be necessary.

Health professionals will play a major role, so we need to prepare them. The Health Protection Agency and other experts have been working hard on preparing guidance for them on infection control and the management of flu cases. They will be in a unique position in that they will be able to care for us when we are ill, be exposed to people infected with flu, be in a position to transmit flu to highly vulnerable people, and be involved in helping to deliver the antiviral drug treatment strategy. Not unreasonably, they expect us to take all possible steps to protect them against risks. Much has been made in the media about the apparent better preparedness of other countries. This is not the case, as the UK is in a better position than most.

In conclusion, our efforts are focused on providing clear and calm messages to the public about the risk of pandemic flu, on what they can do to prepare, and on preparing health professionals to respond to the challenges that they are likely to face. Substantial progress has been made against considerable odds and uncertainties, but there is still much to do.

Rhodri Glyn Thomas: Diolch am eich datganiad. Cyfeiriasoch at y modd y mae'r cyfryngau Prydeinig wedi creu awyrgylch o ofn a phryder ynglŷn â'r bygythiad; mae'n dda eich clywed yn canmol y wasg a'r cyfryngau yng Nghymru am ymateb mwy aeddfed. Er hynny, rhaid derbyn bod y boblogaeth yn poeni'n enbyd am y sefyllfa hon. Beth yn union a wnewch chi i addysgu

yn un hirfaith. Yr ydym yn prynu cyffuriau gwrthfeirysol i drin y rhai yn ein plith y disgwylir iddynt ddatblygu symptomau clinigol, ac yn unol â'r gyfradd a fydd yn dioddef yn glinigol yn ôl yr amcangyfrif, sef 25 y cant, fel yr argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd. Fel yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, mae ein cyffuriau gwrthfeirysol yn cael eu dosbarthu rhwng Awst 2005 a Medi 2006. Gallaf sicrhau pawb yng Nghymru, er bod ein cyflenwadau'n cael eu cadw ar y dechrau yn Lloegr, eu bod wedi'u neilltuo ar gyfer cael eu defnyddio gennym ni ac y gallwn eu cael unrhyw bryd pe bai angen hynny.

Bydd gweithwyr iechyd proffesiynol yn chwarae rhan bwysig, felly mae angen inni eu paratoi. Mae'r Asiantaeth Diogelu Iechyd ac arbenigwyr eraill wedi bod wrthi'n ddygn yn paratoi canllawiau iddynt ar reoli haint a rheoli achosion o fflui. Byddant mewn sefyllfa unigryw gan y byddant yn gallu gofalu amdanom pan fyddwn yn sâl, yn dod i gysylltiad â phobl a fydd wedi'u heintio â'r fflui, mewn sefyllfa i drosglwyddo'r fflui i bobl fregus iawn, ac yn ymwneud â helpu i weithredu'r strategaeth ar gyfer triniaeth â chyffuriau gwrthfeirysol. Wrth reswm, disgwylant i ni gymryd pob cam posibl i'w gwarchod rhag peryglon. Gwnaethpwyd môr a mynydd yn y cyfryngau o'r ffaith ei bod yn ymddangos bod gwledydd eraill yn fwy parod. Nid yw hyn yn wir, gan fod y Deyrnas Unedig mewn sefyllfa well na'r rhan fwyaf.

I gloi, mae ein hymdrechion yn canolbwyntio ar roi negeseuon eglur a digynnwrf i'r cyhoedd ynghylch y perygl o bandemig fflui, ar beth y gallant hwy ei wneud i ymbaratoi, ac ar baratoi gweithwyr iechyd proffesiynol i ymateb i'r her sydd yn debygol o'u hwynebu. Cymerwyd camau breision er gwaethaf anfanteision ac ansicrwydd mawr, ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Rhodri Glyn Thomas: Thank you for your statement. You referred to the way in which the British media has generated an atmosphere of fear and concern with regard to the threat; it was good to hear you praise the press and the media in Wales for its more mature response. However, you must accept that people are desperately worried about this situation. What exactly will you do to educate

aelodau'r cyhoedd i wahaniaethu rhwng fflw arferol a'r math hwn o fflw, pe bai'n datblygu, fel y gallant adnabod pa salwch sydd arnynt? Pe bai'r fflw yn taro—a gobeithiwn na fydd yn taro—bydd pobl yn disgwyl cael ymateb yn syth gan y gwasanaethau brys, ond fel yr ydych wedi esbonio, ni fydd hynny'n bosibl. Sut y byddwch yn addysgu pobl, felly, i sylweddoli y bydd rhaid iddynt aros am ychydig er mwyn canfod pa straen o'r fflw sydd wedi taro'r wlad cyn y gall y gwasanaethau ymateb iddo? Yn ôl a ddeallaf, mae angen cyffuriau gwrthfiroi o fewn 48 awr er mwyn iddynt fod yn effeithiol. Yr ydych eisoes wedi nodi eu bod yn cael eu cadw y tu allan i Gymru, ond a ydych yn hyderus bod modd inni nid yn unig eu cyrraedd ond hefyd sicrhau y gallwn eu dosbarthu o fewn y cyfnod tyngedfennol hwnnw? Hefyd, sut y byddwch yn sicrhau bod meddygon, nyrsys a fferyllwyr yn cydweithio, os bydd hyn yn digwydd, er mwyn ymateb yn effeithiol a chyflym?

3.20 p.m.

Yr ydych yn sôn am y cynlluniau sydd ar waith, Weinidog, ond bydd cynlluniau lleol hefyd ym mhob rhan o Gymru. A yw'r cynlluniau hynny wedi eu llunio? Os felly, a ydych mewn sefyllfa i sicrhau eu bod yn cael eu cyhoeddi fel y gall pobl weld yn glir beth fydd yr ymateb o fewn eu hardal leol?

Brian Gibbons: I would not want the opportunity to pass without thanking the Welsh media for its fairly proportionate and informative response to the guidance that was published last week. Some of the most alarmist headlines occurred in a newspaper which did not bother to send a correspondent to cover the event—it is a newspaper which is not based too far from this city.

Mae'r pwnc trafod, sef byrddau iechyd lleol, yn eithriadol o bwysig i bawb sy'n poeni am y ddarpariaeth iechyd yng Nghymru heddiw. Erbyn hyn, mae nifer o bobl a groesawodd sefydlu'r byrddau iechyd lleol, mewn egwyddor o leiaf, yn cydnabod bod problemau enfawr yn eu hwynebu. Maent yn rhy fach i gomisiynu gwasanaethau a gwelwn yn awr fod y broses gomisiynu yn cael ei dyblygu. Yr oedd comisiynu'n arfer digwydd ar lefel ranbarthol ond nid yw hynny'n digwydd bellach ac yr ydym yn gweld cynnydd yn y costau gweinyddol.

The subject under discussion, local health boards, is extremely important to everyone who is concerned about the health provision in Wales today. By now, many people who welcomed the establishment of the local health boards, at least in principle, recognise that they face enormous problems. They are too small to commission services and we now see that the commissioning process is being duplicated. Commissioning used to take place at a regional level, but that no longer happens and we see an increase in administrative costs.

Wrth symud o bum awdurdod iechyd i 22 bwrdd iechyd lleol, yr ydych wedi creu 22 prif weithredwr a 22 uwch-swyddog. Nid oes angen i chi fod yn fathemategydd i sylweddoli y bydd hynny'n arwain at gostau gweinyddol ychwanegol.

In going from five health authorities to 22 local health boards, you have created 22 chief executives and 22 senior officers. You do not need to be a mathematician to realise that that will lead to increased administrative costs.

Leighton Andrews *a gododd—*

Leighton Andrews *rose—*

Rhodri Glyn Thomas: Gadewch i mi ddatblygu'r ddatl ychydig a dof yn ôl atoch mewn munud, Leighton.

Rhodri Glyn Thomas: Allow me to develop the argument a little and I will come back to you in a minute, Leighton.

Os edrychwch ar y ffeithiau syml, ym mlwyddyn gyntaf y byrddau iechyd lleol, yr oeddent yn cyflogi tua'r un nifer o bobl â'r awdurdodau iechyd ac yr oedd eu costau gweinyddol bron yn union yr un peth. Fodd bynnag, yr oedd y bobl hynny yn cael eu cyflogi ar raddfeydd uwch. Yr oedd llawer mwy o bobl ar y graddfeydd rheoli uwch o fewn y byrddau iechyd lleol. Hefyd, yr oedd cyfrifoldebau'r byrddau iechyd lleol wedi eu cyfyngu, i raddau helaeth, o'u cymharu â'r hyn yr oedd yr awdurdodau iechyd yn arfer ei gyflawni. Felly, maent yn gwneud llai, ond yn costio mwy.

If you look at the simple facts, in the first year that the local health boards were established, they employed roughly the same number of people as the health authorities, and their administrative costs were almost exactly the same. However, those people were employed at a higher grade. There were many more people on senior management grades in the local health boards. In addition, responsibilities of local health boards were diminished, to a great degree, compared with what the health authorities used to achieve. Therefore, they do less, but cost more.

Derbyniad ymyriad gan Leighton Andrews. Tra'i fod ar ei draed efallai y gwnaiff esbonio sut y mae modd creu 22 bwrdd iechyd lleol o bum awdurdod iechyd, a chyfyngu ar y costau gweinyddol.

I will accept an intervention from Leighton Andrews. While he is on his feet, he might explain how it is possible to create 22 local health boards from five health authorities and bring down administrative costs.

Leighton Andrews: I will ask the question that I want to ask. For the record, are you

Leighton Andrews: Gofynnaf y cwestiwn yr wyf am ei ofyn. Er mwyn i hynny gael ei

saying that you think that the Rhondda Cynon Taf Local Health Board is too small to commission services properly?

Rhodri Glyn Thomas: I am saying that—

Leighton Andrews: Yes or no?

Rhodri Glyn Thomas: Let me answer your question. You refused to answer my question, but I will at least show you the courtesy of answering your question.

Brian Gibbons: It was an intervention, Rhodri.

Rhodri Glyn Thomas: It was an intervention, but I asked a question, which Leighton neatly sidestepped. I do not blame him for sidestepping it, because the answer is obvious: it does cost more.

However, in answer to your question about Rhondda Cynon Taf, Leighton, we now have local health boards that are coterminous with local authorities, but which are not coterminous with trusts. Therefore, you have people who are commissioning services that are not coterminous with the providers of those services, and you have situations whereby services that were commissioned on a regional basis are now being duplicated because they are being commissioned at local health board level. Therefore, I would argue that they are too small. I am not saying that good things are not happening in Rhondda Cynon Taf; good things are happening in several local health boards. What I am saying is that they are too small to commission all services, that we are getting duplication, and that that is costing more. There are far more people on a senior management salary now than there were in the area authorities, and their responsibilities are a great deal less. The entire public health sector has gone away from them—Health Commission Wales took over a number of responsibilities, as did Health Professions Wales. All this has happened, yet we are seeing an increase in administration because, in the first year, it corresponded exactly to the cost of the area health authorities, and then, in the second, we see an 11.3 per cent increase. Jocelyn Davies questioned the Business Minister about the

gofnodi, a ydych yn dweud eich bod yn meddwl bod Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf yn rhy fach i gomisiynu gwasanaethau yn iawn?

Rhodri Glyn Thomas: Dweud yr ydwyf—

Leighton Andrews: A ydyw neu beidio?

Rhodri Glyn Thomas: Gadewch imi ateb eich cwestiwn. Gwrthodasoch ateb fy nghwestiwn i, ond o leiaf yr wyf yn ddigon cwrtais i ateb eich cwestiwn chi.

Brian Gibbons: Ymyriad ydoedd, Rhodri.

Rhodri Glyn Thomas: Ymyriad ydoedd, ond gofynnais gwestiwn, yr ochrgamodd Leighton heibio iddo yn ddeheuig. Nid wyf yn ei feio am ochrgamu heibio iddo, oherwydd y mae'r ateb yn amlwg: mae'n costio mwy.

Fodd bynnag, i ateb eich cwestiwn ynglŷn â Rhondda Cynon Taf, Leighton, mae gennym bellach fyrddau iechyd lleol sy'n rhannu'r un ffiniau ag awdurdodau lleol, ond nad ydynt yn rhannu'r un ffiniau ag ymddiriedolaethau. Felly, mae gennych bobl sy'n comisiynu gwasanaethau nad ydynt yn rhannu'r un ffiniau â darparwyr y gwasanaethau hynny, ac mae gennych sefyllfaoedd lle y mae gwasanaethau a arferai gael eu comisiynu ar sail rhanbarth sydd bellach yn cael eu dyblygu gan eu bod yn cael eu comisiynu ar lefel bwrdd iechyd lleol. Felly, byddwn yn dadlau eu bod yn rhy fach. Nid wyf yn dweud nad oes pethau da yn digwydd yn Rhondda Cynon Taf; mae pethau da yn digwydd mewn sawl bwrdd iechyd lleol. Yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw eu bod yn rhy fach i gomisiynu pob gwasanaeth, fod gwasanaethau'n cael eu dyblygu, a bod hynny'n costio mwy. Mae llawer mwy o bobl ar gyflog uwch reolwyr yn awr nag a oedd yn yr awdurdodau rhanbarthol, ac mae eu cyfrifoldebau yn llawer llai. Mae'r sector iechyd cyhoeddus cyfan wedi mynd oddi wrthynt—cymerodd Comisiwn Iechyd Cymru nifer o'r cyfrifoldebau, ynghyd â Phroffesiynau Iechyd Cymru. Mae hyn oll wedi digwydd, ac eto gwelwn gynnydd mewn gweinyddiaeth oherwydd, yn y flwyddyn gyntaf, yr oedd yn cyfateb yn union i gost yr awdurdodau iechyd rhanbarthol, ac yna, yn yr ail flwyddyn,

increases in south-east Wales, but the Minister failed to answer. Those increases are substantial, and we are finding that the money is going on administration rather than on front-line services.

Our motion is quite simple: we believe that the priorities should be in front-line services and not in bureaucracy. If Members vote against that, you are saying that the priorities should be in bureaucracy rather than in front-line services. That is a simple statement. Our amendment is quite intentional so that, for those of you who are not prepared to admit your mistakes, we can say, 'We told you this initially when you proposed this idea to create the local health boards'. We have given you the option of voting for a full and independent evaluation of the effectiveness of local health boards. If you believe that they are effective and are cost-efficient, then vote for a full evaluation. Let us see how effective they are.

We must ask why the Labour Government, with the support of the Liberal Democrats, decided on this reconstruction of the health service. The only possible explanation—

Nick Bourne: You are absolutely right, of course, in that Labour introduced the local health boards, supported by the Liberal Democrats. Their introduction was also supported by Plaid Cymru. In Dai Lloyd's statement, during the debate, he says,

'this is a start, but my patients will want to know what difference it will make to them... Plaid Cymru argues that this reform does not go far enough'.

He went on to say,

'because we would also abolish trusts'.

Such was the support that Jane Hutt was able to say in response,

gwelwn gynnydd o 11.3 y cant. Holodd Jocelyn Davies y Trefnydd ynglŷn â'r cynnydd yn y de-ddwyrain, ond nid atebodd y Gweinidog. Mae'r cynnydd yno'n sylweddol, a gwelwn fod yr arian yn cael ei wario ar weinyddiaeth yn hytrach na gwasanaethau rheng flaen.

Mae'n cynnig yn syml iawn: credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen ac nid i fiwrocratiaeth. Os yw'r Aelodau'n pleidleisio yn erbyn hyn, yr ydych yn dweud y dylid rhoi blaenoriaeth i fiwrocratiaeth yn hytrach na gwasanaethau rheng flaen. Mae hynny'n ddatganiad syml. Mae ein gwelliant yn gwbl fwriadol fel bod modd inni allu dweud, er mwyn y rhai ohonoch nad ydych yn barod i gyfaddef eich camgymeriadau, 'Dywedasom hyn wrthyich i ddechrau pan oeddech yn cynnig y syniad hwn o greu'r byrddau iechyd lleol'. Yr ydym wedi rhoi'r dewis ichi o bleidleisio dros werthusiad llawn ac annibynnol o effeithiolrwydd byrddau iechyd lleol. Os ydych yn credu eu bod yn effeithiol a'u bod yn gosteffeithlon, yna pleidleisiwch dros werthusiad llawn. Gadewch inni weld pa mor effeithiol ydynt.

Rhaid inni ofyn pam mae'r Llywodraeth Lafur, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, wedi penderfynu ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd fel hyn. Yr unig esboniad posibl—

Nick Bourne: Yr ydych yn hollol iawn, wrth gwrs, mai Llafur a gyflwynodd y byrddau iechyd lleol, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Cefnogwyd eu cyflwyno hefyd gan Blaid Cymru. Dywedodd Dai Lloyd yn ei ddatganiad yn ystod y ddadl,

'mae hwn yn ddechreuad, ond bydd fy nghleifion am wybod pa wahaniaeth a wnaiff iddynt hwy... Dadleua Plaid Cymru nad yw'r diwygiad hwn yn mynd yn ddigon pell'.

Aeth ymlaen i ddweud,

'gan y byddem yn diddymu ymddiriedolaethau hefyd'.

Yr oedd mor gefnogol fel bod Jane Hutt yn gallu dweud wrth ymateb,

'I think that that is a strong endorsement of my policy'.

This is an example of one of those famous soft-shoe shuffles. We saw Helen Mary doing it on windfarms, and you, another unlikely soft-shoe shuffler, are doing it on health policy.

Rhodri Glyn Thomas: If you had actually read the whole of Dai Lloyd's response, you would see that he said that he certainly welcomed the doing away with a layer of bureaucracy in Wales. What he did not want, however, was the addition of another layer of bureaucracy bigger than the one that was taken away. Instead of five area authorities, we had 22 local health boards. We had 54 organisations that were part of the process of providing the health service. At that point, Dai Lloyd specifically said that, although he welcomed it, Plaid Cymru wanted a reduction in bureaucracy and an increase in front-line services, and that is exactly what we are saying now.

Jenny Randerson: Can I help you, Rhodri Glyn, by quoting from further on in Dai Lloyd's speech? He said,

'We are proud of the fact that the party's policy is now the country's policy'.

I think that that is pretty unequivocal. We do not mind that you have changed your mind, Rhodri Glyn, but at least admit that you have changed your mind.

4.20 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: When you find that something is not working, as is the case with the local health boards, and as you have said on a number of occasions in Plenary—

David Lloyd *rose*—

Rhodri Glyn Thomas: I will let you come back on that point in a minute, Dai. I will deal with Jenny's point first.

'Credaf fod hynny'n ardystiad cryf i'm polisi'.

Mae hyn yn enghraifft o droi yn eich cogwrn, a chithau'n enwog am hynny. Gwelsom Helen Mary yn gwneud hynny ynglŷn â melinau gwynt, a dyma chithau, un arall y mae'n anodd ei ddychmygu'n troi yn ei gogwrn, yn gwneud yr un peth gyda pholisi iechyd.

Rhodri Glyn Thomas: Pe baech wedi darllen ymateb Dai Lloyd yn ei gyfanrwydd, byddech yn gweld ei fod wedi dweud ei fod yn sicr yn croesawu cael gwared ar haen o fiwrocratiaeth yng Nghymru. Yr hyn nad oedd am ei weld, fodd bynnag, oedd ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth a oedd yn fwy na'r un a gymerwyd ymaith. Yn lle pum awdurdod rhanbarthol, cawsom 22 bwrdd iechyd lleol. Cawsom 54 o sefydliadau a oedd yn rhan o'r broses o ddarparu'r gwasanaeth iechyd. Bryd hynny, nododd Dai Lloyd yn benodol, er ei fod yn ei groesawu, fod ar Blaid Cymru eisiau llai o fiwrocratiaeth a chynnydd mewn gwasanaethau rheng flaen, a dyna'n union beth yr ydym yn ei ddweud yn awr.

Jenny Randerson: A gaf eich helpu, Rhodri Glyn, drwy ddyfynnu o ran ddiweddarach o araith Dai Lloyd? Dywedodd,

'Ymfalchiwn yn y ffaith fod polisi'r blaid bellach yn bolisi i'r wlad'.

Credaf fod hynny'n hollol glir. Nid oes gennym wrthwynebiad ichi newid eich meddwl, Rhodri Glyn, ond cyfaddefwch o leiaf eich bod wedi newid eich meddwl.

Rhodri Glyn Thomas: Pan fyddwch yn canfod nad yw rhywbeth yn gweithio, fel yn achos y byrddau iechyd lleol, ac fel yr ydych wedi dweud sawl gwaith yn y Cyfarfod Llawn—

David Lloyd *a gododd*—

Rhodri Glyn Thomas: Gadawaf ichi ddod yn ôl ar y pwynt hwnnw mewn munud, Dai. Deliaf â phwynt Jenny yn gyntaf.

Time and again in Plenary, Jenny, you have criticised and attacked Cardiff Local Health Board, and you contributed to the decision to set up the local health boards. You will not admit that it was a mistake, and you will not look at the need to introduce a system that will allow us to put the priority on front-line services.

David Lloyd: I reassure members on this side of the Chamber, for a change, that the quote was in response to Jane Hutt's initial announcement in February 2001 that health authorities were to be abolished. That is why I welcomed the abolishment of a tier of bureaucracy, and it was not said in the debate about local health boards, which we have always strenuously opposed.

Rhodri Glyn Thomas: We have said, and we continue to say, that we want the emphasis to be placed on front-line services.

Jonathan Morgan: Will you confirm that when it came to the vote on whether to establish local health boards, Plaid Cymru voted in favour?

Rhodri Glyn Thomas: Plaid Cymru has continually said that we do not want further bureaucracy in the health service in Wales. We have been consistent in that regard, and we will continue to say that.

The question that everyone in the Chamber faces is 'do you want the priority to be placed on bureaucracy or on front-line services?'. If those of you who still believe that local health boards are efficient and effective, why will you not vote for an evaluation so that we can see the evidence? You talk about evidence-based policies—let us look at the evidence and take decisions in the light of that.

Karen Sinclair: I want to add my voice to this important debate on the cost of local health boards in Wales. I am concerned that this is yet another attempt by Plaid Cymru—and, I had thought, by its Tory bedfellows, but it seems that I am wrong about that—to

Dro ar ôl tro yn y Cyfarfod Llawn, Jenny, yr ydych wedi beirniadu Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd ac ymosod arno, a chyfranasoch at y penderfyniad i sefydlu'r byrddau iechyd lleol. Nid ydych am gyfaddef ei fod yn gangymeriad, ac nid ydych am edrych ar yr angen i gyflwyno system a fydd yn caniatáu inni roi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen.

David Lloyd: Yr wyf yn sicrhau'r aelodau ar yr ochr hon i'r Siambr, am newid, fod y dyfyniad mewn ymateb i gyhoeddiad cyntaf Jane Hutt yn Chwefror 2001 fod awdurdodau iechyd i gael eu diddymu. Dyna pam y bu imi groesawu dileu haen o fiwrocratiaeth, ac ni lefarwyd y geiriau yn y ddadl ynglŷn â byrddau iechyd lleol, yr ydym wastad wedi eu gwrthwynebu'n bendant.

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydym wedi dweud, ac yr ydym yn dal i ddweud, ein bod am weld y pwyslais yn cael ei roi ar wasanaethau rheng flaen.

Jonathan Morgan: A wnewch gadarnhau pan aed ati i bleidleisio a ddylid sefydlu byrddau iechyd lleol, fod Plaid Cymru wedi pleidleisio o blaid hynny?

Rhodri Glyn Thomas: Mae Plaid Cymru wedi dweud dro ar ôl tro nad oes arnom eisiau rhagor o fiwrocratiaeth yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Yr ydym wedi bod yn gyson yn hynny o beth, a byddwn yn dal i ddweud hynny.

Y cwestiwn y mae pawb yn y Siambr yn ei wynebu yw 'a ydych am weld blaenoriaeth yn cael ei rhoi i fiwrocratiaeth ynteu i wasanaethau rheng flaen?'. Os ydych yn dal i gredu bod byrddau iechyd lleol yn effeithlon ac yn effeithiol, pam na wnewch bleidleisio o blaid gwerthusiad er mwyn inni allu gweld y dystiolaeth? Yr ydych yn siarad am bolisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth—gadewch inni edrych ar y dystiolaeth a gwneud penderfyniadau ar sail hynny.

Karen Sinclair: Hoffwn ymuno yn y ddadl bwysig hon am gost byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Yr wyf yn bryderus mai ymgais arall yw hyn ar ran Plaid Cymru—ac, yr oeddwn wedi tybio ar un adeg, ar ran ei chywelyau Toriaidd, ond ymddengys fy mod

play politics with ordinary patients in Wales.

This is not a debate about the administrative effectiveness of LHBs and whether we can find a more efficient way to structure the NHS in Wales. Instead, as always, it is an opportunity for Plaid Cymru to land another cynical blow—

Ieuan Wyn Jones: You were going to say ‘and their Tory bedfellows’.

Karen Sinclair: I was, but I admitted that I was surprised that you were not working together. Perhaps you did not sit together over lunch and agree on this issue, Ieuan. This is just a chance to land another cynical blow on the Labour Assembly Government. However, the attempt to score political points has rather run aground. In fact, it ran aground during the first five minutes of the debate as a result of the comments made by other parties to Rhodri Glyn Thomas.

The NHS waiting lists are at their lowest since figures began in 1994, and these figures highlight that the health structures of the NHS in Wales are working to benefit the patients in north and south Wales.

Rhodri Glyn Thomas *rose*—

Karen Sinclair: Rhodri Glyn wants to intervene—what a surprise!

Rhodri Glyn Thomas: You say that waiting times and waiting lists are at their lowest since 1994, but we are talking about in-patient waiting times. Unfortunately for patients, they must go on the out-patient waiting list first, which is at record levels.

Karen Sinclair: The numbers on that list are also dropping. Perhaps you should go back to read the figures.

yn anghywir ynglŷn â hynny—i chwarae gwleidyddiaeth â chleifion cyffredin yng Nghymru.

Nid dadl ynghylch effeithiolrwydd gweinyddol byrddau iechyd lleol ac a allwn ddod o hyd i ffordd fwy effeithlon o strwythuro’r GIG yng Nghymru yw hon. Yn hytrach, fel sy’n digwydd bob amser, cyfle ydyw i Blaid Cymru roi dyrnod sinigaidd arall—

Ieuan Wyn Jones: Yr oeddech yn mynd i ddweud ‘a’u cywelyau Toriaidd’.

Karen Sinclair: Oeddwn, ond cyfaddefais fy mod yn synnu nad oeddech yn gweithio gyda’ch gilydd. Efallai na wnaethoch eistedd gyda’ch gilydd amser cinio a chytuno ar y mater hwn, Ieuan. Dim ond cyfle yw hyn i roi dyrnod sinigaidd arall i Lywodraeth Lafur y Cynulliad. Fodd bynnag, mae’r ymdrech i sgorio pwyntiau gwleidyddol wedi mynd i drafferthion braidd. Mewn gwirionedd, aeth i drafferthion yn ystod pum munud cyntaf y ddadl o ganlyniad i’r sylwadau a wnaethpwyd gan bleidiau eraill wrth Rhodri Glyn Thomas.

Mae rhestrau aros y GIG yn is nag y maent wedi bod ers pan ddechreuwyd cadw ffigurau yn 1994, ac mae’r ffigurau hyn yn dangos bod strwythurau iechyd y GIG yng Nghymru yn gweithio er budd cleifion yn y de a’r gogledd.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd*—

Karen Sinclair: Mae Rhodri Glyn am ymyrryd—dyna annisgwyl!

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydych yn dweud bod amseroedd aros a rhestrau aros yn llai nag y maent wedi bod ers 1994, ond yr ydym yn siarad am amseroedd aros cleifion mewnol. Yn anffodus i gleifion, maent yn gorfod mynd ar y rhestr aros ar gyfer cleifion allanol i ddechrau, a’r rhestr honno’n fwy nag y mae wedi bod erioed.

Karen Sinclair: Mae’r niferoedd sydd ar y rhestr honno’n gostwng hefyd. Efallai y dylech fynd yn ôl ac edrych ar y ffigurau.

Together with sustained investment, one of the key reasons for improving patient experience is the reforms administered by the Labour Assembly Government, namely the introduction of local health boards in Wales. The old-fashioned, pre-devolution health authorities had virtually died on their feet because they could not innovate or be flexible to the needs of local areas. This resulted in a stagnated service that did not serve the patients of Wales well.

Lisa Francis *rose*—

Karen Sinclair: I will take an intervention in a minute.

The introduction of the LHBs was a cost-neutral reform that was introduced by the Labour Assembly Government to give local adaptability and responsiveness to the service. For once, key health bodies became democratically accountable and responsive to the local community that they served. This is an important culture change in Wales, and recent evidence shows that patients are benefiting as a result.

Left to rot under the Tories in the 1980s and 1990s, even Plaid Cymru agreed with the new way forward for the Welsh NHS. Its 1997 general election manifesto called for democratic health and social care authorities, coterminous with local authority areas, to decide health needs and to administer the salaried health service at a local level. However, by the time of their introduction, Plaid Cymru had changed its mind. By 2003, it opposed the very system of local accountability and responsiveness in health that it once supported.

It seems clear that, today, Plaid Cymru is intent on preparing the ground for another reorganisation of the NHS. However, Plaid Cymru had said that Wales did not need this. Dai Lloyd, who has been quoted a lot in the Chamber today, once claimed that we need another reorganisation of the NHS like a hole in the head, so why, when waiting lists

Yn ogystal â buddsoddi cyson, un o'r prif resymau pam mae profiad cleifion yn gwella yw'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad, sef cyflwyno byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Yr oedd yr awdurdodau iechyd hen ffasiwn a oedd gennym cyn datganoli wedi nychu'n llwyr bron am eu bod yn methu ag arloesi na bod yn hyblyg i anghenion ardaloedd lleol. Arweiniodd hyn at wasanaeth marwaidd nad oedd yn diwallu anghenion cleifion Cymru'n dda.

Lisa Francis *a gododd*—

Karen Sinclair: Derbyniaf ymyriad mewn munud.

Yr oedd cyflwyno'r byrddau iechyd lleol yn ddiwygiad niwtral o ran cost a gyflwynwyd gan Lywodraeth Lafur y Cynulliad er mwyn galluogi'r gwasanaeth i addasu a bod yn ymatebol yn lleol. Am unwaith, daeth y prif gyrff iechyd yn atebol ac ymatebol mewn modd democrataidd i'r gymuned leol yr oeddent yn ei gwasanaethu. Mae hyn yn newid pwysig i'r drefn yng Nghymru, a dengys tystiolaeth ddiweddar fod cleifion yn elwa o ganlyniad iddo.

Gadawyd i'r GIG ddadfeilio dan y Torïaid yn y 1980au a'r 1990au, ac yr oedd Plaid Cymru hyd yn oed yn cytuno â'r ffordd newydd ymlaen i'r GIG yng Nghymru. Yr oedd ei manifesto ar gyfer etholiad cyffredinol 1997 yn galw am awdurdodau iechyd a gofal cymdeithasol democrataidd, yn rhannu'r un ffiniau ag ardaloedd awdurdodau lleol, i benderfynu ynglŷn ag anghenion iechyd ac i weinyddu'r gwasanaeth iechyd cyflogedig yn lleol. Fodd bynnag, erbyn iddynt gael eu cyflwyno, yr oedd Plaid Cymru wedi newid ei meddwl. Erbyn 2003, yr oedd yn gwrthwynebu'r union system o atebolrwydd ac ymatebolrwydd lleol mewn iechyd y bu'n ei chefnogi ar un adeg.

Mae'n edrych yn amlwg bod Plaid Cymru, heddiw, â'i bryd ar fraenaru'r tir ar gyfer ad-drefnu'r GIG unwaith yn rhagor. Fodd bynnag, yr oedd Plaid Cymru wedi dweud nad oedd ar Gymru angen hyn. Mae Dai Lloyd wedi ei ddyfynnu sawl gwaith yn y Siambr heddiw, a dywedodd ryw dro nad oes dim math o angen ad-drefnu'r GIG eto. Pam

continue to fall and patient experience continues to improve, do we need one now?

Plaid Cymru is all over the shop on this issue. The opposition claims that local health boards are too much of a bureaucratic burden on the taxpayer and continually tries to scaremonger about their running costs. However, the opposition knows full well that, when LHB reforms were introduced, the Assembly Government—

The Deputy Presiding Officer: Order. Sadly, time has run out.

Elin Jones: Y prynhawn yma, mae ymddiriedolaeth iechyd a bwrdd iechyd lleol Ceredigion yn cwrdd i drafod diffyg ariannol eleni o £1.4 miliwn yn y GIG yng Ngheredigion. Wrth inni siarad, mae'n bosibl bod y GIG yn ystyried cau ysbytai cymuned yng Ngheredigion. Byddai unrhyw argymhellid a ddaw allan o'r cyfarfod hwnnw i gau ysbytai Tregaron ac Aberteifi yn llwyr neu'n rhannol yn gwbl annerbyniol. Mae'r ddau ysbyty yn darparu gwasanaeth hollbwysig mewn cymunedau gwledig, ac maent yn rhan annatod o wasanaeth sydd yn cynnwys ysbytai Bronglais, Glangwili a Llwynhelyg.

Ychydig cyn yr etholiad cyffredinol eleni, cyhoeddodd y Gweinidog arian cyfalaf ar gyfer adeiladau newydd i ysbytai yn Nhregaron ac Aberteifi ond, yn y cyfamser, bu diffyg arian yn y GIG yng Ngheredigion i gynnal y ddau ysbyty. Mae'r ffactorau sydd wedi arwain at y diffyg ariannol hwn wedi'u hamlinellu yn y ddatl hon eisoes. Mae prinder arian i dalu costau rhedeg gwasanaeth iechyd mewn ardal wledig, mae costau cynyddol cyffredinol yn y GIG, ac, yn ardal Dyfed Powys, mae angen ad-dalu dyled hanesyddol a grewyd yng nghyfnod awdurdod iechyd Dyfed Powys. Yng Ngheredigion, bydd yr ad-daliad hwn yn £800,000 y flwyddyn, sydd yn cyfateb yn agos i'r gost o redeg ysbyty Tregaron.

Mae dau gorff iechyd yng Ngheredigion, ac mae'r ddau gorff yn rhannu'r un ffiniau i bob pwrpas. Mae'r gost o redeg y bwrdd iechyd lleol yn £1.7 miliwn, sydd yn fwy na'r diffyg

felly, pan fo'r rhestrau aros yn dal i leihau a phrofiad cleifion yn dal i wella, y mae angen ad-drefnu'r GIG yn awr?

Mae Plaid Cymru ar chwâl o ran y mater hwn. Mae'r wrthblaid yn honni bod byrddau iechyd lleol yn ormod o faich biwrocraidd i'r trethdalwr a byth a beunydd yn ceisio codi bwganod ynglŷn â chostau eu rhedeg. Fodd bynnag, mae'r wrthblaid yn gwybod yn iawn fod Llywodraeth y Cynulliad, pan gyflwynwyd diwygiadau'r byrddau iechyd lleol—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yn anffodus, nid oes amser ar ôl.

Elin Jones: This afternoon, Ceredigion's health trust and local health board are meeting to discuss this year's financial deficit of £1.4 million in the NHS in Ceredigion. As we speak, it is possible that the NHS is considering closing community hospitals in Ceredigion. Any recommendation coming from that meeting to close or partially close hospitals in Tregaron or Cardigan would be totally unacceptable. Both hospitals provide essential services in rural communities and are an inherent part of a service, which includes Bronglais, Glangwili and Withybush hospitals.

Just before the general election this year, the Minister announced capital funding for new buildings for the Tregaron and Cardigan hospitals but, in the meantime, there has been a funding shortfall in the NHS in Ceredigion to maintain the two hospitals. The factors leading to this financial deficit have already been outlined in this debate. There is lack of money to meet the costs of running a health service in a rural area, there are increasing costs in general in the NHS, and, in the Dyfed Powys area, there is a need to repay a historic debt accumulated in the time of the Dyfed Powys health authority. In Ceredigion, this repayment will be worth £800,000 a year, which is approximately the cost of running Tregaron hospital.

There are two health bodies in Ceredigion, and these boards are effectively coterminous. The cost of running the LHB is £1.7 million, which is more than the financial deficit of

ariannol o £1.4 miliwn yng Ngheredigion. Mae'n costio mwy i redeg gweinyddiaeth y bwrdd iechyd lleol yng Ngheredigion nag ydyw i redeg ysbyty Tregaron neu ysbyty Aberteifi. Heddiw, mae'r bwrdd iechyd lleol yn ystyried cynlluniau a allai arwain at gau'r ddau ysbyty hyn.

Gwrthwynebodd Plaid Cymru y penderfyniad dair blynedd yn ôl i greu'r BILl, a phleidleisiodd yn ei erbyn yn 2001 a 2002, ond cefnogwyd y penderfyniad gan Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol, a bu iddynt bleidleisio o'i blaid. Heddiw, mae'r cwango a grewyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur ac sy'n costio £1.7 miliwn i'w redeg yng Ngheredigion yn penderfynu torri ar wasanaethau GIG i bobl Ceredigion, sydd, o bosibl, yn werth £1.4 miliwn.

Mae'r cyngor iechyd lleol yng Ngheredigion wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn iddo fynnu bod y bwrdd iechyd lleol a'r ymddiriedolaeth yn uno i leihau'r costau gweinyddol canolog cyn bod unrhyw gamau i gau ysbytai yn cael eu cymryd. Mae'n rhaid diogelu gwasanaethau i gleifion cyn diogelu cwango.

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time has run out.

Jonathan Morgan: On behalf of the Welsh Conservative group, I welcome this debate. Despite my earlier question to Rhodri Glyn Thomas, we will support the amendment and the motion. We have been consistent on this matter. We were against the setting up of local health boards. We expressed concerns at the time, when the Government wanted to move from having five health authorities to 22 health boards. This debate is important because the Government is keen to avoid debating whether or not local health boards are effective and efficient, but also because the Government, until now—unless we hear differently today—has refused to commission an independent review of how effective and efficient these 22 commissioning bodies have been. It is astonishing. Any other organisation—I suspect it is true of all private sector organisations—embarking on this sort of structural change, would, at some point, review and evaluate the performance,

£1.4 million in Ceredigion. It costs more to run the administration of the local health board in Ceredigion than it does to run the Tregaron or Cardigan hospitals. Today, the LHB is considering schemes that could lead to the closure of those two hospitals.

Plaid Cymru opposed the decision three years ago to create the LHBs and it voted against it in 2001 and 2002, but Labour and the Liberal Democrats supported the decision and voted in its favour. Today, the quango created by the Liberal Democrats and Labour, which costs £1.7 million to run in Ceredigion, is considering cutting NHS services for the people of Ceredigion, which may be worth £1.4 million.

The local health council in Ceredigion has written to the Minister for Health and Social Services to ask him to insist that the local health board and the trust merge to lessen the central administration costs before any steps are taken to close hospitals. We must safeguard services to patients before safeguarding a quango.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser wedi dod i ben.

Jonathan Morgan: Ar ran grŵp Ceidwadwyr Cymru, yr wyf yn croesawu'r ddadl hon. Er gwaethaf fy nghwestiwn yn gynharach i Rhodri Glyn Thomas, byddwn yn cefnogi'r gwelliant a'r cynnig. Yr ydym wedi bod yn gyson ar y mater hwn. Yr oeddem yn erbyn sefydlu byrddau iechyd lleol. Mynegasom bryder ar y pryd, pan oedd ar y Llywodraeth eisiau newid o fod â phum awdurdod iechyd i fod â 22 bwrdd iechyd. Mae'r ddadl hon yn bwysig gan fod y Llywodraeth yn awyddus i osgoi trafod a yw byrddau iechyd lleol yn effeithiol ac yn effeithlon ai peidio, ond hefyd oherwydd bod y Llywodraeth, hyd yma—oni chlywn yn wahanol heddiw—wedi gwrthod comisiynu adolygiad annibynnol i weld pa mor effeithiol ac effeithlon y mae'r 22 corff comisiynu hyn wedi bod. Mae'n anhygoel. Byddai unrhyw gorff arall—tybiaf mai fel hyn y byddai ym mhob corff yn y sector preifat—o ymgymryd â newid strwythurol o'r math hwn, ar ryw

effectiveness and efficiency of the new structures introduced. These bodies have been up and running for a couple of years. It is now necessary to have a review of how they are performing.

4.30 p.m.

We have all heard anecdotal and concrete evidence from local health boards within our own areas, be they constituencies or electoral regions. There are local health boards in Wales today that are struggling with the job that they have been tasked to do. We know that there have been budget constraints and debts and that local health boards are struggling to meet some of their targets. We know that having 22 commissioning bodies can lead to a lack of capacity. It is difficult in many circumstances, with some of the changes that are being introduced, for LHBs to have the capacity and critical mass needed to deliver services. You only have to consider the variety of contractual changes, whether in terms of pharmacy or general medical services, to see some of the difficulties that local health boards now face.

Having 22 LHBs has led to a fragmentation in the NHS. It is pitching LHB against LHB. Let us look back to when LHBs were set up. The Government wanted local government to be involved in the delivery and commissioning of NHS services. This was not about making the health service more efficient; this was about having a health service commissioning platform that was coterminous with local government. In effect, what has happened is that LHBs have given local government a platform on which to get involved in commissioning NHS services. However, I do not believe that having LHBs has led to better local government services, such as social services. Quite frankly, if there was to be influence, it should be influence in both directions. When you consider how fragmented it is and the problems that have occurred, the bottom line is that the establishment of LHBs has provided nice cushy jobs for Labour's boys and girls.

adeg, yn adolygu ac yn arfarnu perfformiad, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y strwythurau newydd a gyflwynwyd. Mae'r cyrff hyn ar waith bellach ers rhyw ddwy flynedd. Bellach mae'n bryd adolygu eu perfformiad.

Clywsom oll dystiolaeth anecdotaidd a diamwys gan y byrddau iechyd lleol yn ein hardaloedd ein hunain, boed y rheini'n etholaethau neu'n rhanbarthau etholiadol. Mae rhai byrddau iechyd lleol yng Nghymru heddiw sy'n ymlafnio gyda'r gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud. Gwyddom fod cyfyngu wedi bod ar gyllidebau a bod dyledion a bod byrddau iechyd lleol yn ymlafnio i gyflawni rhai o'u targedau. Gwyddom y gall y ffaith bod 22 o gyrff comisiynu arwain at ddiffyg capasiti. Mae'n anodd dan lawer o amgylchiadau, o ystyried rhai o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno, i fyrddau iechyd lleol gael y capasiti a'r màs critigol angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau. Nid oes rhaid i chi ond ystyried yr amryfal newidiadau i gontractau, boed o ran fferyllfeydd neu wasanaethau meddygol cyffredinol, i weld rhai o'r anawsterau y mae byrddau iechyd lleol bellach yn eu hwynebu.

Oherwydd bod 22 o fyrddau iechyd lleol mae'r GIG wedi ei ddarnio. Mae hynny'n peri bod byrddau iechyd lleol yn mynd yn erbyn ei gilydd. Beth am inni edrych yn ôl ar yr adeg y sefydlwyd y byrddau iechyd lleol. Yr oedd y Llywodraeth am i lywodraeth leol chwarae rhan yn y gwaith o ddarparu a chomisiynu gwasanaethau'r GIG. Nid mater o wneud y gwasanaeth iechyd yn fwy effeithlon oedd hyn; yr oedd a wnelo hyn â sicrhau llwyfan comisiynu gwasanaeth iechyd a oedd yn cydffinio â llywodraeth leol. Mewn ffordd, yr hyn sydd wedi digwydd yw bod y byrddau iechyd lleol wedi rhoi llwyfan i lywodraeth leol fel y gall ymwneud â chomisiynu gwasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, ni chredaf fod bodolaeth y byrddau iechyd lleol wedi arwain at wasanaethau gwell mewn llywodraeth leol, megis y gwasanaethau cymdeithasol. Yn blwmp ac yn blaen, os oes dylanwad i fod, dylai hwnnw fod yn ddylanwad i'r ddau gyfeiriad. O ystyried pa mor ddarniog ydyw

a'r problemau sydd wedi codi, y pwynt sylfaenol yw bod sefydlu'r byrddau iechyd lleol wedi cynnig swyddi cyfforddus braf i hogiau a genod Llafur.

David Lloyd: During my 25 years as an NHS doctor in Wales, I have seen many changes. We have had six reorganisations of the NHS since 1990. We have had family practitioner committees, family health service authorities, general practitioner fundholding, trusts, then merged trusts, local health groups, business service centres, then merged BSCs, and now local health boards. Each reorganisation has cost a vast amount of money and created far more managers, administrators and bureaucracy than we had previously.

David Lloyd: Yn ystod y 25 o flynyddoedd a dreuliais fel meddyg yn y GIG yng Nghymru, gwelais lawer o newid. Ad-drefnwyd y GIG chwe gwaith ers 1990. Gwelsom bwyllgorau ymarferwyr teulu, awdurdodau gwasanaethau iechyd teuluol, cyllidebau gan feddygon teulu, ymddiriedolaethau, ac yna ymddiriedolaethau wedi eu cyfuno, grwpiau iechyd lleol, canolfannau gwasanaethau busnes, ac yna canolfannau gwasanaethau busnes wedi eu cyfuno, ac yn awr y byrddau iechyd lleol. Mae pob ad-drefnu wedi costio arian mawr gan greu llawer iawn mwy o reolwyr, gweinyddwyr a biwrocratiaeth nag a oedd o'r blaen.

Jenny Randerson: Will you give way?

Jenny Randerson: A wnewch ildio?

David Lloyd: Let me develop my argument, and then I will let you come in.

David Lloyd: Gadewch imi ddatblygu fy nadl ac yna cewch siarad.

The internal market in health was created in 1990, with GP fundholding and trusts. We still have trusts, so that means that we still have that internal market today, which is why some parts of the NHS are in debt to other parts. A month before the National Assembly was established, local health groups were established. A month before the Assembly elections in 2003, local health boards were established. Labour and the Liberal Democrats voted for the latest reorganisation while Plaid Cymru and the Conservatives voted against it. With each proposed restructuring, we have had a paralysis of management for around 18 months beforehand. Administration staff at all levels, justifiably, are looking for their next job, instead of smoothly managing all the complex eco-systems within the NHS.

Crewyd y farchnad fewnol mewn iechyd yn 1990, gyda chyllidebau gan feddygon teulu ac ymddiriedolaethau. Erys yr ymddiriedolaethau, ac felly golyga hynny fod y farchnad fewnol yn dal i fodoli heddiw a dyna pam y mae gan rannau o'r GIG ddyled i rannau eraill. Fis cyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, sefydlwyd grwpiau iechyd lleol. Fis cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003, sefydlwyd y byrddau iechyd lleol. Pleidleisiodd Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol dros yr ad-drefnu diweddaraf ac fe bleidleisiodd Plaid Cymru a'r Ceidwadwyr yn ei erbyn. Gyda phob ailstrwythuro arfaethedig, mae'r rheolwyr wedi cael eu parlysu am ryw 18 mis o'i flaen. Mae'r staff gweinyddol ar bob lefel, a hawdd deall pam, yn chwilio am eu swydd nesaf, yn lle rheoli'r holl eco-systemau cymhleth yn y GIG mewn modd hwylus.

Jenny Randerson: You say that there have been six reorganisations since 1990. The clear implication of your motion today, unless you are just crying crocodile tears, is that you want a seventh.

Jenny Randerson: Dywedwch fod ad-drefnu wedi bod chwech o weithiau ers 1990. Yr hyn sydd ymhlyg yn eich cynnig heddiw, oni bai eich bod yn wylo dagrau ffug, yw eich bod am weld rhoi'r seithfed ar waith.

David Lloyd: I take it that you have not read our amendment or our motion in full. We are

David Lloyd: Cymeraf nad ydych wedi darllen ein gwelliant na'n cynnig yn llawn.

talking about a reappraisal of how effective the local health boards are. There is nothing about ditching them.

The last reorganisation was wrong at the time. It was the wrong big idea at the time, and even some Labour people recognised that. Local health groups were just getting started. Waiting lists were shooting through the roof, and more capacity was needed to treat more people. That would have been the right idea, but we had the wrong idea, which was the sixth reorganisation in 13 years. We had 22 of everything. None of this would have been important if our LHBs and trusts were not in financial difficulties, but they all are.

Peter Black: Will you give way?

David Lloyd: No; I am running out of time.

When the NHS is faced with a need to balance the books, it is always frontline services for patients that face cutbacks, never the administrative side. Middle management has mushroomed nicely over the years, while clinical services, by and large, face the chop.

If we had loads of money in the NHS in Wales, I would say, 'Great, let us have all the latest sophisticated administrations with strategies, frameworks and all the rest; let us have middle management in all its glory with assistant directors of this and deputy associate co-ordinators of that 22 times over'. However, that is not the reality—not while we cancel operations on the day, close community hospitals in Swansea and elsewhere and not while, in some circumstances, we cannot provide the most basic social services care.

To round off, 'Designed for Life' is the Minister's answer to everything these days. The reconfiguration of hospital services will be very important. The detail is a little woolly at this stage, but what is glaringly obvious is that we need to be investing in primary care

Sôn yr ydym am ailarfarnu i weld pa mor effeithiol yw'r byrddau iechyd lleol. Nid oes sôn am gael gwared arnynt.

Yr oedd yr ad-drefnu diwethaf yn anghywir ar y pryd. Yr oedd y syniad mawr yn anghywir ar y pryd, a chydabuwyd hynny gan rai o bobl Llafur hyd yn oed. Newydd ddechrau yr oedd y grwpiau iechyd lleol. Yr oedd y rhestrau aros yn codi i'r entychion, ac yr oedd angen rhagor o gapasiti i drin rhagor o bobl. Dyna fuasai'r syniad cywir, ond cawsom y syniad anghywir, sef ad-drefnu am y chweched waith mewn 13 o flynyddoedd. Cawsom 22 o bopeth. Ni fyddai hyn o bwys yn y byd pe na bai'r byrddau iechyd lleol a'r ymddiriedolaethau'n wynebu anawsterau ariannol, ond maent bob un.

Peter Black: A wnewch ildio?

David Lloyd: Na wnaif; mae fy amser yn brin.

Pan fo raid i'r GIG fantoli'r gyllideb, gwasanaethau'r rheng flaen i gleifion sydd wastad yn wynebu toriadau, nid yr ochr weinyddol byth. Mae rheolwyr y rheng ganol wedi tyfu'n braf dros y blynyddoedd, wrth i'r gwasanaethau clinigol, gan mwyaf, gael eu tocio.

Pe bai gennym ddigonedd o arian yn y GIG yng Nghymru, byddwn yn dweud, 'Iawn, gadewch inni gael y weinyddiaeth soffistigedig ddiweddaraf a'r strategaethau, y fframweithiau ac yn y blaen; gadewch inni gael rheolwyr y rheng ganol yn eu holl ogoniant a chyfarwyddwyr cynorthwyol ar gyfer hyn a dirprwy gydlynwyr cyswllt ar gyfer y peth arall 22 o weithiau. Fodd bynnag, nid felly y mae'r sefyllfa go iawn—nid tra bo triniaethau'n cael eu canslo ar y diwrnod, ysbytai cymuned yn cau yn Abertawe a lleoedd eraill a ninnau, dan rai amgylchiadau, yn methu â darparu'r gofal mwyaf sylfaenol yn y gwasanaethau cymdeithasol.

I grynhoi, 'Cynllun Oes' yw ateb y Gweinidog i bopeth y dyddiau hyn. Bydd ailgyflunio gwasanaethau'r ysbytai'n bwysig iawn. Mae'r manylion ychydig yn amwys ar hyn o bryd, ond mae'n gwbl amlwg bod angen inni fuddsoddi mewn gofal sylfaenol

now, and developing services in primary care and planning now. We should and could be doing this now to plan for ‘Designed for Life’, but it needs to be organised and funded now. However, given that the local health boards are faced with severe financial restrictions, that planning and organisation and funding far ahead cannot happen—it is a very big ‘ask’ indeed.

Jenny Randerson: The Welsh Liberal Democrats will certainly not support this motion, but we will support the amendment, because we believe that there is nothing to fear from independent appraisal to work out which local health boards are doing well so that good practice can be followed. Local health boards replaced local health groups, so they were not an additional tier—it was simply that one body was changed for another. It was an evolution. It made the commissioning of services much more responsive to local needs. The old dinosaurs, the health authorities, were too large to respond to local needs. In my area, the South Glamorgan Health Authority left the local health board with massive debts and its proposals for the Cardiff Royal Infirmary site proved that it did not understand local needs. Jonathan is right in saying that I referred to this in Plenary, but I did so in criticism of the old health authority, not of the local health board.

Rhodri Glyn Thomas: You referred to the area health authorities, but can you confirm that they had local teams and groups that looked at local needs and addressed them?

Jenny Randerson: Their voice did not seem to be heard on high. I want to make it absolutely clear—

Janet Ryder: Will you give way?

Jenny Randerson: Go on then, Janet, before I start again.

Janet Ryder: You stressed the fact that local health boards should respond to local need. The local health board in Conwy is ignoring the expressed desire of over 1,000 of its

yn awr, a datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol a chynllunio yn awr. Dylem wneud hyn a gallem wneud hyn yn awr i gynllunio ar gyfer ‘Cynllun Oes’, ond mae angen ei drefnu a’i gyllido yn awr. Fodd bynnag, o ystyried bod y byrddau iechyd lleol yn wynebu cyfyngiadau ariannol dirfawr, nid oes modd cynllunio a threfnu mor bell ymlaen—mae’n ofyniad mawr iawn.

Jenny Randerson: Yn sicr ni fydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru’n cefnogi’r cynnig hwn, ond cefnogwn y gwelliant, oherwydd ein bod yn credu nad oes rheswm dros ofni arfarniad annibynnol er mwyn gweld pa fyrddau iechyd lleol sy’n gwneud yn dda fel y gellir dilyn yr arferion gorau. Cymerodd y byrddau iechyd lleol le’r grwpiau iechyd lleol, ac felly nid oeddent yn haen ychwanegol—yr hyn a ddigwyddodd oedd bod y naill gorff wedi disodli’r llall. Esblygiad ydoedd. Golygai fod comisiynu gwasanaethau’n ymateb yn well i anghenion lleol. Yr oedd yr hen ddeinoriaid, yr awdurdodau iechyd, yn rhy fawr i ymateb i anghenion lleol. Yn fy ardal i, gadawodd Awdurdod Iechyd De Morgannwg ddyledion enfawr i’r bwrdd iechyd lleol a phrofodd ei gynigion ar gyfer safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd nad oedd yn deall anghenion lleol. Mae Jonathan yn iawn wrth ddweud imi gyfeirio at hyn yn y Cyfarfod Llawn, ond gwneuthum hynny wrth feirniadu’r hen awdurdod iechyd, ac nid y bwrdd iechyd lleol.

Rhodri Glyn Thomas: Bu i chi sôn am yr awdurdodau iechyd rhanbarthol, ond a allwch gadarnhau bod ganddynt dimau a grwpiau lleol a edrychai ar anghenion lleol gan roi sylw iddynt?

Jenny Randerson: Nid yw’n ymddangos bod eu lleisiau i’w clywed yn yr uchelfannau. Yr wyf am ei gwneud yn gwbl glir—

Janet Ryder: A wnewch ildio?

Jenny Randerson: Ewch yn eich blaen, Janet, cyn imi ailddechrau.

Janet Ryder: Bu i chi bwysleisio’r ffaith y dylai byrddau iechyd lleol ymateb i’r angen lleol. Mae bwrdd iechyd lleol Conwy’n anwybyddu dymuniad hysbys rhagor na

patients in the Cerrigydrudion area and is considering awarding the GP surgery contract to a surgery in Corwen. That is against a petition signed by over 1,000 local people and against seven local community councils. That board is not responding to local need.

Jenny Randerson: That was supposed to be an intervention, not a speech. All organisations have a perspective, as you well know, and not all of them are necessarily perfect.

Plaid Cymru has had more health policies than David Blunkett has had lapses of judgment. Dai referred to six reorganisations, and the reappraisal proposed and the wording of this motion clearly mean that Plaid Cymru want a seventh. Having abolished health authorities, Plaid Cymru's current policy—here we go again—appears to call for the abolition of NHS trusts in order to create 15 new all-purpose health bodies. Please intervene, if I have not got your current policy right. That would mean that the commissioning/provision of services split would be removed, which would remove the checks and balances in the system.

Rhodri Glyn Thomas: I do not know to whose health policy you are referring; you are certainly not referring to ours because there is nothing in our health policy that refers to that.

Jenny Randerson: That is interesting, it has changed since then. I deeply apologise for the fact that last year's policy is now out-of-date for Plaid Cymru. Perhaps you could supply us with the most recent one.

Six reorganisations, six health policies from Plaid Cymru—the days go by and the policies mount up. We can all be forgiven for confusion, even Dai Lloyd, who welcomed LHBs as being Plaid Cymru's policy.

4.40 p.m.

David Lloyd: Will you give way?

1,000 o'i gleifion yn ardal Cerrigydrudion ac mae'n ystyried rhoi contract meddygfa'r meddyg teulu i feddygfa yng Nghorwen. Mae hyn yn wyneb deiseb a arwyddwyd gan ragor na 1,000 o bobl leol ac yn erbyn saith o gynghorau cymuned lleol. Nid yw'r bwrdd hwnnw'n ymateb i angen lleol.

Jenny Randerson: Ymyriad oedd hynny i fod ac nid araith. Mae gan bob sefydliad ei safbwynt, fel y gwyddoch yn iawn, ac nid yw pob un yn berffaith o angenrheidrwydd.

Mae polisiâu iechyd Plaid Cymru'n fwy niferus na'r troeon y mae David Blunkett wedi bod yn ddiffygiol o ran crebwyll. Cyfeiriodd Dai at y ffaith bod ad-drefnu wedi digwydd chwe gwaith, ac mae'r ailarfarnu arfaethedig a geiriad y cynnig hwn yn amlwg ddigon yn golygu bod Plaid Cymru am weld ad-drefnu am y seithfed tro. Wedi diddymu'r awdurdodau iechyd, mae polisi cyfredol Plaid Cymru—dyma ni eto—i'w weld yn galw am ddiddymu ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn creu 15 corff iechyd amlbwrpas newydd. Ymyrrwch da chi, os nad wyf wedi deall eich polisi presennol yn iawn. Byddai hynny'n golygu dileu'r rhaniad rhwng comisiynu a darparu gwasanaethau, gan ddiddymu'r hyn sy'n cadw cydbwysedd yn y system.

Rhodri Glyn Thomas: Ni wn at bolisi pwy yr ydych yn cyfeirio; yn sicr nid ydych yn cyfeirio at ein polisi ni oherwydd nid oes sôn am hynny yn ein polisi iechyd ni.

Jenny Randerson: Dyna ddiddorol, mae wedi newid wedyn felly. Taer ymddiheuraf fod polisi'r llynedd bellach ar ei hôl hi i Blaid Cymru. Efallai y cawn yr un diweddaraf gennych.

Ad-drefnu chwe gwaith, chwe pholisi iechyd gan Blaid Cymru—mae'r dyddiau'n mynd heibio ac mae'r polisiâu'n lluosogi. Gellir maddau i bawb ohonom am ddrysu, hyd yn oed Dai Lloyd, a groesawodd y byrddau iechyd lleol fel polisi Plaid Cymru.

David Lloyd: A wnewch ildio?

Jenny Randerson: I cannot take any more interventions.

The Deputy Presiding Officer: She only has 20 seconds.

Jenny Randerson: I really cannot take any more interventions. I will finish by saying that Jonathan may not think that LHBs are more responsive to local needs, but the community health councils feel that they are, as does Cardiff County Council, which believes that it has been able to work much more closely—

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time has run out.

Alun Ffred Jones: Er mwyn deall ffolineb y penderfyniad i greu 22 bwrdd iechyd lleol, mae'n rhaid mynd yn ôl i ganol y 1990au ac ad-drefnu llywodraeth leol. Cyflwynodd y Torïaid gynllun i eithrio ysgolion o ofal llywodraeth leol. Ni chawsant lawer o lwyddiant yng Nghymru. Gwelsant y cynghorau sir fel maen tramgwydd, fel cyrff a oedd yn rhy gryf, ac felly ad-drefnwyd llywodraeth leol am y rheswm anghywir. Yn anffodus, bu iddynt dderbyn cymorth gan lawer o gynghorwyr ac arweinwyr gwleidyddol lleol. Y canlyniad oedd 22 awdurdod lleol gydag un awdurdod, er enghraifft, gyda phoblogaeth o 250,000 y drws nesaf i awdurdod gyda 60,000 yn unig. Yr oedd y drefn yn anghywir. Yn fuan iawn, yr oedd arweinwyr llywodraeth leol yng Nghymru o bob plaid yn dweud nad oedd y drefn yn gynaliadwy a bod diffyg capasiti a diffyg arbenigedd wrth geisio cael 22 o arweinwyr ym mhob maes.

Pan edrychodd y Cynulliad ar y gwasanaeth iechyd, ac yr oedd gwleidyddion yn edrych am y syniad mawr, impiwyd patrwm y byrddau iechyd ar batrwm gwallus llywodraeth leol. Yr oedd hyn yn gyfleus i lywodraeth leol, gan fod gwasanaethau cymdeithasol ym mhob sir, bron, mewn argyfwng—ac maent yn parhau i fod mewn argyfwng heddiw. Felly, yr oedd hyn yn lladd dau aderyn gyda'r un garreg. Cofiaf i un ymgynghorydd profiadol ddweud wrthyf, pan ofynnais mewn seminar a oedd creu'r byrddau iechyd lleol yn syniad da, nad oedd yn credu mai ad-drefniad arall oedd ei angen

Jenny Randerson: Ni allaf dderbyn rhagor o ymyriadau.

Y Dirprwy Lywydd: Nid oes ganddi ond 20 eiliad.

Jenny Randerson: Yn wir ni allaf dderbyn rhagor o ymyriadau. Gorffennaf drwy ddweud efallai nad yw Jonathan yn credu bod byrddau iechyd lleol yn fwy ymatebol i anghenion lleol, ond mae'r cynghorau iechyd lleol yn credu eu bod, a Chyngor Sir Caerdydd, sy'n credu ei fod wedi gallu gweithio'n llawer mwy clôs—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben.

Alun Ffred Jones: In order to understand the folly of the decision to establish 22 local health boards, we need to go back to the local authority reorganisation of the 1990s. The Tories proposed a scheme to remove schools from the control of local authorities. They did not have much success in Wales. They saw the county councils as a stumbling block, as bodies with too much power, and so local government was reorganised for the wrong reason. Unfortunately, they received support from many councillors and local political leaders. The result was 22 local authorities with an authority, for example, with a population of 250,000 next to an authority with only 60,000. The situation was wrong. Before long, local government leaders from across Wales of all parties said that the situation was unsustainable and that there was not enough capacity or expertise to try to have 22 leaders in every field.

When the Assembly came to look at the health service, and politicians were looking for the big idea, the structure of the local health boards was grafted onto the defective local government pattern. This was convenient for local government, because social services within nearly every county were in crisis—and they are still in crisis today. Therefore, this killed two birds with one stone. I remember that one experienced councillor told me, when I asked in a seminar if it was a good idea to create the local health boards, that he did not think that another reorganisation was what the health service

ar y gwasanaeth iechyd. Mae hynny wedi cael ei brofi'n gywir. Camgymeriad sylfaenol oedd creu strwythur iechyd a oedd yn ailadrodd camgymeriad ad-drefnu llywodraeth leol.

Yng ngogledd-orllewin Cymru, mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru, sydd yn gweithredu yn effeithiol iawn mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, yn bwydo hwnnw, mae tri bwrdd iechyd lleol sydd dan anfantais fawr wrth geisio ymateb i rym yr ymddiriedolaeth. Nid yw'r drefn yn gweithio. Mae'r Llywodraeth Lafur wedi cydnabod hynny yn hwyr iawn yn y dydd. Dywedodd Rhodri Morgan yn ddiweddar:

'We will invite proposals for mergers between NHS trusts and local health boards where there is co-terminosity and where merger will provide real benefits to patients and clients'.

Os oedd yr ad-drefnu yn gweithio mor dda ddwy flynedd yn ôl, pam mae angen ailedrych ar y drefn? Mae hynny oherwydd nad yw'n gweithio. Gwyddoch nad yw'n gweithio. Er bod gwaith da yn digwydd yn y byrddau iechyd—ac mae pobl yn gallu gwneud i unrhyw drefn, bron, weithio—y gwir amdani yw nad oedd hwn yn syniad da, ac nid yw'n gweithio. Edrychwch ar y problemau yng Ngwynedd—yr un yw'r broblem â'r un a wynebir yng Ngheredigion o ran ysbytai cymunedol ac yn y blaen. Mae'n ddrwg gennyf ddweud bod hyn yn enghraifft arall o reoli gwael ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

Nick Bourne: We are the only party that can, with any honesty, claim to have opposed local health boards consistently. As the record will show, the Labour Party and the Liberal Democrats still believe that local health boards are working. That, at least, is consistent, though it is not true. It may be that individual LHBs are doing better jobs than others. However, as any representative for Mid and West Wales will know, they are not doing a good job uniformly across the piece. I cannot, therefore, understand the resistance to an appraisal of how they are doing, as lessons can be learned. Without a fundamental review of the system, we are in a position of learning lessons, adopting some

needed. That has proved to be right. It was a fundamental mistake to establish a health structure that repeated the mistakes of the earlier reorganisation of local authorities.

In north-west Wales, there is the North West Wales NHS Trust, which operates very effectively in some areas. However, feeding that are three local health boards that are at a considerable disadvantage in trying to respond to the power of the trust. The system does not work. The Labour Government has admitted this very late in the day. Rhodri Morgan said recently:

'Gofynnwn am gynigion ar gyfer cyfuno ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol os ydynt yn cydffinio ac os bydd y cyfuno'n cynnig manteision gwirioneddol i gleifion a chleientiaid'.

If the reorganisation was working so well two years ago, why is there a need to look again at the system? It is because it is not working. You know that it is not working. Although there is good work being done within the health boards—and people can make almost any system work—the truth of the matter is that this was not a good idea, and it does not work. Look at the problems in Gwynedd—it is the same problem as that faced in Ceredigion with regard to community hospitals and so on. I am sad to say that this is another example of mismanagement on the part of the Assembly Government.

Nick Bourne: Ni yw'r unig blaid a all ddweud, yn onest, ein bod wedi gwrthwynebu byrddau iechyd lleol yn gyson. Fel y dengys y cofnod, mae'r Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dal i gredu bod y byrddau iechyd lleol yn gweithio. Mae hynny, o leiaf, yn gyson, er nad yw'n wir. Efallai fod byrddau iechyd lleol unigol yn gwneud yn well nag eraill. Fodd bynnag, fel y gŵyr rhywun sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru, nid ydynt yn gwneud gwaith da drwyddi draw ym mhob man. Ni allaf ddeall, felly, pam y byddai neb yn erbyn cynnal arfarniad i weld sut y mae pethau, oherwydd y mae gwersi i'w dysgu. Heb adolygiad sylfaenol o'r system, yr hyn yr

good practice and reforming the system without a thoroughgoing revolution; that seems to me to be a sensible idea. I applaud Plaid Cymru for changing ground. I think that Plaid Cymru has changed ground, and the record will demonstrate that—I do not think that there is any doubt about that. There is no great shame in doing that, but I wish that it would be honest about shifting ground, and then at least we would get it on record that Plaid Cymru has been proved wrong on this.

Rhodri Glyn Thomas: I wish, Nick, that you and others would refer us to the motion or amendment that we voted for. If you are talking about the motion that was before Plenary in November 2001, I can tell you that we voted against it, so what are you referring to?

Nick Bourne: As you will know—as it happened only some 15 minutes ago when you were at the rostrum—I quoted at length from Dai Lloyd, who was your spokesman at the time, welcoming the changes and saying that he did not think that they went far enough.

David Lloyd *rose*—

Nick Bourne: I will give way, but I quoted you extensively.

David Lloyd: Let me help you out with your flawed research. It was a different debate. It was about the announcement that health authorities were going. We welcomed that and I think that your lot also welcomed that at the time. We have always voted against local health boards. It was a different debate, so get the research sorted.

Nick Bourne: The research is very clear. You said that you thought that it was a great matter now that your policy was now the country's policy, when Jane Hutt announced the introduction of local health boards.

David Lloyd: Will you give way?

Nick Bourne: I am not giving way again.

ydim yn ei wneud yw dysgu gwersi, mabwysiadu rhai arferion da a diwygio'r system heb chwyldro llwyr; credaf fod y syniad yn un synhwyrol. Cymeradwyaf Blaid Cymru am newid ei meddwl. Credaf fod Plaid Cymru wedi newid ei meddwl, a bydd y cofnod yn dangos hynny—ni chredaf fod dim amheuaeth am hynny. Nid oes dim cywilydd yn hynny, ond byddai'n well gennyf petai'n onest ynghylch newid ei meddwl, ac yna o leiaf byddai wedi ei gofnodi bod Plaid Cymru wedi ei phrofi'n anghywir yn y mater hwn.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn, Nick, i chi a'r lleill ein cyfeirio at y cynnig neu'r gwelliant y bu inni bleidleisio drosto. Os ydych yn siarad am y cynnig a oedd gerbron y Cyfarfod Llawn yn Nhachwedd 2001, gallaf ddweud wrthyich ein bod wedi pleidleisio yn ei erbyn, felly at beth yr ydych yn cyfeirio?

Nick Bourne: Fel y gwyddoch—gan fod hynny wedi digwydd ryw 15 munud yn ôl pan oeddech ar y llwyfan—dyfynnais lawer gan Dai Lloyd, eich llefarydd bryd hynny, yn croesawu'r newidiadau ac yn dweud ei fod yn credu nad oeddent yn mynd yn ddiagon pell.

David Lloyd *a gododd*—

Nick Bourne: Ildiaf, ond dyfynnais gryn dipyn ar eich geiriau.

David Lloyd: Gadewch imi eich helpu gyda'ch ymchwil ddiffygiol. Dadl wahanol oedd honno. Yr oedd yn ymwneud â'r cyhoeddiad bod awdurdodau iechyd i'w diddymu. Bu inni groesawu hynny a chredaf fod eich criw chithau wedi croesawu hynny hefyd ar y pryd. Yr ydim wedi pleidleisio yn erbyn byrddau iechyd lleol bob tro. Dadl wahanol ydoedd, felly rhowch drefn ar yr ymchwil.

Nick Bourne: Mae'r ymchwil yn glir iawn. Dywedasoed eich bod yn credu ei fod yn beth gwyich mai eich polisi chi bellach oedd polisi'r wlad, pan gyhoeddodd Jane Hutt fod byrddau iechyd lleol i'w cyflwyno.

David Lloyd: A wnewch ildio?

Nick Bourne: Nid ildiaf eto.

David Lloyd *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Nick Bourne is not giving way. We cannot have two people on their feet at the same time.

Nick Bourne: This is not the substance of the issue in any event; that is the motion that we have to debate and vote on today, which states that we need a review of the performance of local health boards. That much is true. We can see the administrative costs of LHBs escalating. The costs in Powys increased by 15 per cent last year, in Pembrokeshire by 7 per cent, and in Carmarthenshire by 6 per cent. We see the threats to community hospitals where services are being reduced. We have heard about Tregaron, Cardigan, Bronllys, and Llanidloes hospitals. Throughout mid and west Wales, there are threats to community hospitals. It is true of South Pembrokeshire, Tenby and Withybush hospitals. These are serious issues. For the Labour Party to suggest that we do not need to look at the performance of local health boards and the rising costs of administration, and that we can be quite complacent about the performance of the health service in much of Wales, is not borne out by the facts. Therefore, we will be supporting this motion. We welcome the change of heart, which is undoubtedly the case, and we hope and trust that this will have the support of the whole Assembly.

David Lloyd: There is no change of heart. Read my lips. We welcomed health authorities going. We have always been against local health boards. How many times must I say this to get it on record?

Nick Bourne: I think that you made a statement welcoming the abolition of health boards. However, you have made your point; it is on the record. Frankly, I think that Plaid Cymru has changed its stance, and I do not appear to be alone in that regard. The substance of the issue is about supporting this motion, and I hope that all Members feel it is time that we had a review of the performance of local health boards.

David Lloyd *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw Nick Bourne yn ildio. Ni allwn gael dau o bobl ar eu traed yr un pryd.

Nick Bourne: Nid hyn yw hanfod y mater, beth bynnag; y cynnig y cawn ddadl a phleidlais arno heddiw yw hynny, cynnig sy'n datgan bod rhaid inni gael adolygiad o berfformiad byrddau iechyd lleol. Mae hynny'n wir. Gallwn weld y cynnydd yng nghostau gweinyddol BILlau. Cododd y costau ym Mhowys 15 y cant y llynedd, 7 y cant yn sir Benfro, a 6 y cant yn sir Gaerfyrddin. Gwelwn y bygythiadau i ysbytai cymuned lle y mae cwtoegi ar wasanaethau. Clywsom am ysbytai Tregaron, Aberteifi, Bronllys a Llanidloes. Ledled y canolbarth a'r gorllewin, mae bygythiadau i ysbytai cymuned. Mae hynny'n wir am ysbytai De Sir Benfro, Dinbych-y-pysgod a Llwyn Helyg. Mae'r rhain yn faterion difrifol. Nid yw haerid y Blaid Lafur i'r perwyl nad oes angen inni ystyried perfformiad byrddau iechyd lleol a'r costau gweinyddu cynyddol, ac y gallwn fod yn eithaf hunanfodlon ynghylch perfformiad y gwasanaeth iechyd mewn llawer rhan o Gymru, yn cael ei gadarnhau gan y ffeithiau. Felly, byddwn yn cefnogi'r cynnig hwn. Croesawn y newid meddwl, sydd yn sicr wedi digwydd, a gobeithiwn a hyderwn y bydd y Cynulliad cyfan yn ei gefnogi.

David Lloyd: Ni fu newid meddwl. Gwrandewch yn astud. Bu inni groesawu diwedd yr awdurdodau iechyd. Yr ydym wedi gwrthwynebu byrddau iechyd lleol erioed. Pa sawl gwaith y mae'n rhaid imi ddweud hyn er mwyn iddo gael ei gofnodi?

Nick Bourne: Credaf eich bod wedi gwneud datganiad yn croesawu diddymu byrddau iechyd. Fodd bynnag, yr ydych wedi gwneud eich pwynt; mae wedi ei gofnodi. A dweud y gwir, credaf fod Plaid Cymru wedi newid ei safbwynt, ac mae'n ymddangos nad myfi yw'r unig un sydd yn credu hynny. Mae hanfod y mater yn ymwneud â chefnogi'r cynnig hwn, a gobeithiaf y bydd yr holl Aelodau'n teimlo ei bod yn bryd inni gael adolygiad o berfformiad byrddau iechyd lleol.

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): This administration's aim is to minimise poor health and to provide world-class health and social care for those who need it. For that first aim, we have Health Challenge Wales and for the second we have 'Designed for Life'. That is the crucial Wanless message that, unless we change our overreliance on the acute sector, and increase and strengthen our investment in community-based primary and social care, we will not be able to continue with the health service as we know it.

Health improvement is not a simple task and is not something that the national health service on its own can deliver. The promotion of good health and linking that with social care requires close integrated working with local government. In Wales, we have unitary authorities, in which we have a huge opportunity to improve health and wellbeing. The Welsh Local Government Association has estimated, based on its document 'Valuing our Activities', published in 2004, that 38 per cent of local authority spending relates to health and wellbeing. This equates to a total spend in excess of £934 million supporting health improvement in Wales.

Helen Mary Jones: I think that we would all concur that it is vital that health and social care co-operate. How can you explain the fact that, two years after the establishment of local health boards, the relationship between health commissioners and Carmarthenshire County Council is worse than ever, and that delayed transfers of care are becoming more serious? It is not working. It needs a review.

Brian Gibbons: We have seen, first, a poor situation in delayed transfers of care in Carmarthenshire. We have then seen a dramatic improvement and a deterioration. If you look at the most recent figures, you will see that there is significant improvement again. Just look at the most recent figures.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Nod y weinyddiaeth hon yw lleihau afiechyd a darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i'r rhai y mae arnynt ei angen. Ar gyfer y nod cyntaf hwnnw, mae gennym Her Iechyd Cymru ac ar gyfer yr ail mae gennym 'Cynllun Oes'. Honno yw'r neges hollbwysig a gawsom gan Wanless sef, os na fyddwn yn rhoi'r gorau i'n gorddibyniaeth ar y sector aciwt, ac yn cynyddu ac yn cryfhau ein buddsoddiad mewn gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol yn y gymuned, na fyddwn yn gallu parhau â'r gwasanaeth iechyd fel y mae.

Nid tasg syml yw gwella iechyd ac nid yw'n rhywbeth y gall y gwasanaeth iechyd gwladol ei gyflawni ar ei ben ei hun. Mae hybu iechyd da a chysylltu hynny â gofal cymdeithasol yn galw am weithio integredig clòs gyda llywodraeth leol. Yng Nghymru, mae gennym awdurdodau unedol, lle y mae gennym gyfle gwych i wella iechyd a lles. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif, ar sail ei dogfen 'Valuing our Activities', a gyhoeddwyd yn 2004, fod 38 y cant o wariant awdurdodau lleol yn ymwneud ag iechyd a lles. Mae hynny'n cyfateb i gyfanswm gwariant o fwy na £934 miliwn ar gyfer gwella iechyd yng Nghymru.

Helen Mary Jones: Credaf y byddem oll yn cytuno ei bod yn hollbwysig cael cydweithrediad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Sut y gallwch esbonio'r ffaith bod y berthynas rhwng comisiynwyr iechyd a Chyngor Sir Caerfyrddin, ddwy flynedd ar ôl sefydlu byrddau iechyd lleol, yn waeth nag erioed, a bod yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn mynd yn fwy difrifol? Nid yw'n gweithio. Mae angen ei adolygu.

Brian Gibbons: Yr ydym wedi gweld sefyllfa wael, ar y dechrau, o ran yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn sir Gaerfyrddin. Gwelsom welliant sydyn wedyn a dirywiad. Os edrychwch ar y ffigurau diweddaraf, gwelwch fod gwelliant sylweddol eto. Edrychwch ar y ffigurau diweddaraf.

4.50 p.m.

By setting up local health boards conterminous with local authorities, we created the best possible circumstances in which to exploit both sets of organisations' commitment to a shared population. They did not do that in England when they set up the primary care trusts. They have now realised the importance of this approach, and coterminosity with social services departments is now a crucial issue in determining the new reconfiguration of primary care trusts in England. England is catching up half a decade later on the decision that we made in Wales to have our local health groups initially, and then local health boards, coterminous with local government.

I will identify three ways in which this works for our benefit. First, it allows the creation of local health improvement strategies based on health, social care and wellbeing plans that are the envy of all. Together, all local health boards and local authorities have a statutory duty to analyse and target the causes of poor health in their shared population. It is people's living conditions and environment that have a profound effect on health and illness. Local unitary authorities have many of the crucial levers necessary to deliver change and improvement in the health of a particular area.

Rhodri Glyn Thomas: I welcome what you say about innovation. Do you accept that we now need to look at innovation in primary health care to alleviate the pressures on hospitals? How many local health boards have implemented their estates strategy, and how much of the £9.3 million that has been put aside for GP buildings to extend the range of provisions there has been spent?

Brian Gibbons: All local health boards have submitted their estates strategies.

Rhodri Glyn Thomas: And how many have been accepted?

Brian Gibbons: All of them—10 of them have been approved by the Assembly, and something of the order of £5.5 million to £6

Drwy sefydlu byrddau iechyd lleol, sydd yn cydffinio ag awdurdodau lleol, creasom yr amgylchiadau gorau posibl i fanteisio ar ymrwymiad y ddwy set o gyrff i boblogaeth gyffredin. Ni wnaethant hynny yn Lloegr wrth sefydlu'r ymddiriedolaethau gofal sylfaenol. Maent bellach wedi sylweddoli mor bwysig yw'r dull hwn o weithredu, ac mae cydffinio ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn bwnc hollbwysig yn awr o ran pennu trefn newydd yr ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Lloegr. Hanner degawd yn ddiweddarach, mae Lloegr yn gwneud yr un penderfyniad ag a wnaethom ni yng Nghymru i beri i grwpiau iechyd lleol i ddechrau, ac wedyn i'n byrddau iechyd lleol, gydffinio â llywodraeth leol.

Nodaf dri modd y mae hyn yn gweithio er ein lles. Yn gyntaf, mae'n cynnig modd i greu strategaethau gwella iechyd lleol sydd yn seiliedig ar gynlluniau iechyd, gofal cymdeithasol a lles sydd yn destun cenfigen gan bawb. Gyda'i gilydd, mae'n ddyletswydd statudol ar yr holl fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol ddadansoddi a thargedu achosion afiechyd ymysg eu poblogaeth gyffredin. Mae amodau byw ac amgylchedd pobl yn cael effaith bellgyrhaeddol ar iechyd a salwch. Gan awdurdodau unedol lleol y mae llawer o'r elfennau hollbwysig sy'n angenrheidiol i sicrhau newid a gwelliant yn iechyd ardal benodol.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf yr hyn a ddywedwch am arloesi. A ydych yn derbyn bod rhaid inni ystyried arloesi mewn gofal iechyd sylfaenol yn awr er mwyn lleihau'r pwysau ar ysbytai? Pa sawl bwrdd iechyd lleol sydd wedi rhoi ei strategaeth ystadau ar waith, a pha faint o'r £9.3 miliwn sydd wedi'i neilltuo ar gyfer adeiladau meddygon teulu er mwyn ehangu'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn y manau hynny sydd wedi'i wario?

Brian Gibbons: Mae'r holl fyrddau iechyd lleol wedi cyflwyno eu strategaeth ystadau.

Rhodri Glyn Thomas: A faint ohonynt sydd wedi'u derbyn?

Brian Gibbons: Pob un ohonynt—mae 10 ohonynt wedi'u cymeradwyo gan y Cynulliad, ac mae tua £5.5 miliwn i £6

million of the estates money has been spent.

Secondly, and Derek Wanless was clear on this, we must unify the efforts of health and social services, to get the best out of both. By having local bodies addressing together the service needs of the whole population, we can tailor services to what people need and how they want them to be delivered. The best results will be delivered only by shared, common ownership of the problems faced by a common, shared population.

Thirdly, by engaging local people with local health issues, we have again and again strengthened the opportunities for this local engagement. We can encourage a real interest in local health and its improvement. We can stimulate and support the community, and the people who live in it, to understand health issues and look after their own health. It is possible to promote positive health through our schools, our local transport policies, through promoting healthier lifestyles and the use of sporting amenities, and through better quality housing, better air and better economic wellbeing, all of which go to create healthier communities. If we believe in communities, we need to work with communities. If we have healthy communities, we will have healthier community members.

Janet Ryder: In that case, will you join the seven community councils that surround Cerrigydrudion in their call to Conwy Local Health Board to reconsider the allocation of the GP contract in that area, confirming that it is the wishes of the vast majority of local people to retain an independent surgery in Cerrigydrudion, serving just their area?

Brian Gibbons: I have had many representations on this case. There is no consensus on the way forward in relation to that surgery, because several different, competing representations have been made to me on that issue. Therefore, if there is no clear consensus locally on the best way forward, the local health board has to take into account all the various views that have been expressed to it, as well as the

miliwn o'r arian ystadau wedi'i wario.

Yn ail, ac yr oedd Derek Wanless yn bendant ynghylch hyn, rhaid inni uno ymdrechion gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, er mwyn cael y gorau gan y ddau. Drwy gael cyrff lleol sydd yn rhoi sylw gyda'i gilydd i anghenion y boblogaeth gyfan o ran gwasanaethau, gallwn addasu gwasanaethau i gyd-fynd â'r hyn y mae ar bobl ei angen a sut y maent am iddynt gael eu darparu. Ni cheir y canlyniadau gorau ond drwy gydberchenogi'r problemau a wynebir gan boblogaeth gyffredin.

Yn drydydd, drwy gynnwys pobl leol wrth drafod materion iechyd lleol, yr ydym wedi creu mwy a mwy o gyfleoedd i gynnwys pobl leol. Gallwn feithrin gwir ddiddordeb mewn iechyd lleol a'r broses o'i wella. Gallwn symbylu a chynorthwyo'r gymuned, a'r bobl sydd yn byw ynddi, i ddeall materion sydd yn ymwneud ag iechyd a gofalu am eu hiechyd eu hunain. Mae modd hybu iechyd da drwy ein hysgolion, ein polisïau trafndiaeth leol, drwy hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a'r defnydd o gyfleusterau chwaraeon, a thrwy gael tai o ansawdd gwell, gwell aer a gwell lles economaidd, a bydd y cwbl yn cyfrannu at greu cymunedau iachach. Os credwn mewn cymunedau, rhaid inni weithio gyda chymunedau. Os bydd gennym gymunedau iachach, bydd gennym aelodau iachach o'r gymuned.

Janet Ryder: Os felly y mae, a wnewch ymuno â'r saith cyngor cymuned o gwmpas Cerrigydrudion yn eu galwad ar i Fwrdd Iechyd Lleol Conwy ailystyried dyrannu contract y meddyg teulu yn yr ardal honno, gan gadarnhau mai dymuniad mwyafrif llethol y bobl leol yw cadw meddygfa annibynnol yng Ngherrigydrudion, i wasanaethu eu hardal hwy'n unig?

Brian Gibbons: Yr wyf wedi cael llawer o sylwadau ar yr achos hwn. Nid oes consensws ynghylch y ffordd ymlaen mewn cysylltiad â'r feddygfa honno, am fod nifer o sylwadau gwahanol a chroes wedi'u cyflwyno i mi ar y mater hwnnw. Felly, os nad oes consensws pendant yn lleol ynghylch y ffordd orau ymlaen, rhaid i'r bwrdd iechyd lleol ystyried yr holl safbwyntiau gwahanol sydd wedi'u cyfleu iddo, yn ogystal â gallu'r

sustainability of the practice, and then make the best decision. Therefore, it is not as clear or as straightforward as you would like the Assembly to believe.

The old health authorities had already set up organisations to work with local authorities; the reality is that they did not work well. We have radically changed and strengthened the systems to promote this joint working. We will fine-tune it by further working, but we must not squander the massive opportunity, in line with the Wanless agenda, that coterminosity brings with it. While there is a real need to improve the working of local health boards and joint working, we must not jettison the real potential that coterminosity brings with it. Hopefully, we will see consistency and not opportunism in today's voting in the line of debate that we have already had on this matter.

The establishment of local health boards in 2003 did not happen in a vacuum. Their formation coincided with the establishment of Health Commission Wales to commission specialised services and to avoid the confusion that Rhodri Glyn said existed, the establishment of the National Public Health Service for Wales, which has proved itself over the last couple of months, as well as providing better public health support. The business services centre has provided us with real economies in terms of improved services to contractors, information technology and human resource services.

All of this is being delivered from an LHB turnover of 1.4 per cent. How Members can come before the Assembly and talk about bloated bureaucracies on an administration charge of 1.4 per cent beggars belief. It would be very interesting to hear how the opposition parties would undertake the range of activities undertaken by local health boards in any new health authority structure and still come in with an administration cost of less than 1.5 per cent. By delivering joined-up and more efficient government and by continuing to operate within the envelope that the previous Minister gave, the local health boards, working with local authorities, show that they are capable of delivering the vision.

practis i'w gynnal ei hun, a gwneud y penderfyniad gorau wedyn. Felly, nid yw mor glir a syml ag y carech i'r Cynulliad gredu.

Yr oedd yr hen awdurdodau iechyd eisoes wedi sefydlu cyrff i weithio gydag awdurdodau lleol; y gwir yw nad oeddent yn gweithio'n dda. Yr ydym wedi newid y systemau'n sylfaenol a'u cryfhau er mwyn hyrwyddo gwaith ar y cyd o'r fath. Awn ati i wella rhywfaint arno drwy waith pellach, ond rhaid inni beidio â gwastraffu'r cyfle mawr a geir, yn unol ag agenda Wanless, yn sgîl cydffinio. Er bod gwir angen gwella'r modd y mae'r byrddau iechyd lleol a gweithio ar y cyd, rhaid inni beidio â cholli'r gwir botensial a geir yn sgîl cydffinio. Gobeithiaf mai cysondeb a welwn heddiw yn y pleidleisio ac nid oportiwnistiaeth, megis yn y math o ddadlau yr ydym eisoes wedi'i gael ar y mater hwn.

Nid mewn gwagle y sefydlwyd byrddau iechyd lleol yn 2003. Fe'u ffurfiwyd yr un pryd â sefydlu Comisiwn Iechyd Cymru i gomisiynu gwasanaethau arbenigol ac i osgoi'r dryswch a oedd yn bod yn ôl Rhodri Glyn, a'r un pryd â sefydlu Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, sydd wedi'i brofi ei hun dros y misoedd diwethaf, yn ogystal â rhoi gwell cymorth ar gyfer iechyd cyhoeddus. Mae'r ganolfan gwasanaethau busnes wedi sicrhau arbedion gwirioneddol i ni o ran gwell gwasanaethau i gontractwyr, technoleg gwybodaeth a gwasanaethau adnoddau dynol.

Cyflawnir hyn oll ar sail trosiant o 1.4 y cant mewn BILlau. Mae'n anhygoel bod Aelodau'n gallu dod gerbron y Cynulliad a sôn am fïwrocratiaethau chwyddedig ar sail tâl gweinyddu o 1.4 y cant. Diddorol fyddai clywed sut y byddai'r gwrthbleidiau'n ymgymryd â'r amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan fyrddau iechyd lleol mewn fframwaith newydd ar gyfer awdurdodau iechyd a dal i gyfyngu'r gost weinyddol i lai nag 1.5 y cant. Drwy sicrhau llywodraeth gydgysylltiedig a mwy effeithlon a dal i weithredu o fewn y terfynau a osododd y Gweinidog blaenorol, mae'r byrddau iechyd lleol, gan weithio gydag awdurdodau lleol, yn dangos eu bod yn gallu gwireddu'r weledigaeth.

In proposing this motion, Plaid Cymru no doubt saw an open goal. However, we now have a more joined-up and whole-systems approach to working, which is more efficient, and to which Plaid Cymru obviously has no policy alternative. It is already turning its back on its own policies. This shows that Plaid Cymru saw an open goal and played an absolute blinder down the right wing. Unfortunately, it has firmly planted the ball in its own net.

Rhodri Glyn Thomas: I will start where you finished, Brian. You referred to our playing on the right wing, but it is the Labour Party that is playing on the right wing. This structure is in place to defend the internal market in the health service. It sets a commission against the provider with no-one planning or managing the service. You know that full well. You are trying to defend the internal market in the health service.

You referred to Carmarthenshire, Minister, and said that the situation was improving there. You should talk to the trust, the LHB or the local authority in Carmarthenshire. The trust will tell you that the problem is the local authority's fault, because it does not provide sufficient capacity in the care sector. The local authority will tell you that it is the LHB's fault, because it no longer gives it the money that it used to under Wanless to ensure that that capacity existed. There is no co-operation between the trust, the local health board and the local authority in Carmarthenshire.

Jonathan Morgan: You said in your opening remarks to the debate that there was a problem with the fact that LHBs are not coterminous with trusts. Is it therefore Plaid Cymru policy to reduce the number of LHB from 22 in order to get that coterminosity with trusts?

Rhodri Glyn Thomas: We have stated clearly in the amendment that we need to have an evaluation to see what evidence there is and how the situation can be improved. We have been lumbered with this policy by a

Wrth gynnig y cynnig hwn, mae'n siŵr bod Plaid Cymru yn credu nad oedd modd iddi fethu. Fodd bynnag, erbyn hyn mae gennym ddull mwy cydgyssylltiedig o weithio ar sail systemau cyfan, sydd yn fwy effeithlon, ac mae'n amlwg nad oes gan Plaid Cymru bolisi i'w gynnig yn ei le. Mae eisoes yn cefnu ar ei pholisïau ei hun. Mae hyn yn dangos bod Plaid Cymru wedi gweld gôl agored ac wedi chwarae'n ddeheuig ar hyd yr asgell dde. Yn anffodus, mae wedi anelu'r bêl yn syth i'w rhwyd ei hun.

Rhodri Glyn Thomas: Dechreuaf lle y gwnaethoch orffen, Brian. Dywedasoch ein bod yn chwarae ar yr asgell dde, ond y Plaid Lafur sydd yn chwarae ar yr asgell dde. Pwrpas y strwythur hwn yw amddiffyn y farchnad fewnol yn y gwasanaeth iechyd. Mae'n peri bod comisiwn yn erbyn y darparwr heb fod neb yn cynllunio nac yn rheoli'r gwasanaeth. Gwyddoch hynny'n iawn. Yr ydych yn ceisio amddiffyn y farchnad fewnol yn y gwasanaeth iechyd.

Cyfeiriasoch at sir Gaerfyrddin, Weinidog, a dweud bod y sefyllfa'n gwella yn y fan honno. Dylech gael gair â'r ymddiriedolaeth, y BILl neu'r awdurdod lleol yn sir Gaerfyrddin. Dywed yr ymddiriedolaeth wrthy ch mai'r awdurdod lleol sydd ar fai am y broblem, am nad yw'n darparu digon o gapasiti yn y sector gofal. Dywed yr awdurdod lleol wrthy ch mai'r BILl sydd ar fai, am nad yw bellach yn rhoi iddo'r arian fel yr oedd yn arfer gwneud dan raglen Wanless i sicrhau bod y capasiti hwnnw ar gael. Nid oes dim cydweithredu rhwng yr ymddiriedolaeth, y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol yn sir Gaerfyrddin.

Jonathan Morgan: Dywedasoch yn eich sylwadau ar ddechrau'r ddadl fod problem am nad yw BILlau yn cydffinio ag ymddiriedolaethau. Felly ai polisi Plaid Cymru yw gostwng nifer y BILlau o 22 fel y byddant yn cydffinio ag ymddiriedolaethau?

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydym wedi nodi'n glir yn y gwelliant fod rhaid inni gael gwerthusiad i weld pa dystiolaeth sydd ar gael a sut y gellir gwella'r sefyllfa. Mae'r polisi hwn wedi'i roi inni gan Lywodraeth

Labour Government, which is trying to defend the internal market. We have 22 local health boards, which the Government already admits do not work, because it will now allow LHBs to amalgamate with trusts in certain areas. That is a recognition that this policy does not work in certain parts of Wales.

However, we will look at the evidence and take an evidence-based decision. [Interruption.] As you well know, Jonathan, the last thing that the health sector wants at the moment is another reorganisation. It knows full well that the last reorganisation did not work and that you have to work with the situation that you are in. We have not changed our policy, we have never voted in favour of local health boards. We did not do so in November 2001, October 2002 or January 2003.

Jenny Randerson: If you are not in favour of another reorganisation, could you clarify why, on your party website, you advertise that your party policy on health is to remove the remnants of the internal market and to merge local health boards with NHS trusts, creating 15 bodies? Is that or is it not a reorganisation? Or is it out-of-date policy?

5.00 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: You are trying to justify the unjustifiable with regard to your party's stance on this, knowing that local health boards just do not work. However, I am grateful to you for telling me that Plaid Cymru—the Party of Wales is the only party in the Chamber that is opposed to the internal market in the health service, the only party that wants a managed health service, and the only party that wants to prioritise front-line services. With 22 local health boards, you can identify some that could be amalgamated, but we need the evidence base before we move to a reorganisation. People in the health sector will tell you that.

If you believe your own spin on this—that local health boards work—vote for a full,

Lafur sydd yn ceisio amddiffyn y farchnad fewnol. Mae gennym 22 o fyrddau iechyd lleol y mae'r Llywodraeth yn cydnabod eisoes nad ydynt yn gweithio, oherwydd erbyn hyn bydd yn caniatáu i BILlau gyfuno ag ymddiriedolaethau mewn rhai ardaloedd. Mae hynny'n golygu cydnabod nad yw'r polisi hwn yn gweithio mewn rhai rhannau o Gymru.

Fodd bynnag, ystyriwn y dystiolaeth a phenderfynu ar sail y dystiolaeth. [Torri ar draws.] Fel y gwyddoch, Jonathan, y peth olaf y mae'r sector iechyd am ei gael ar hyn o bryd yw ad-drefniant arall. Gŵyr yn iawn na weithiodd yr ad-drefniant diwethaf a bod rhaid delio â'r sefyllfa fel y mae. Nid ydym wedi newid ein polisi, nid ydym erioed wedi pleidleisio o blaid byrddau iechyd lleol. Ni wnaethom hynny yn Nhachwedd 2001, Hydref 2002 na Ionawr 2003.

Jenny Randerson: Os nad ydych o blaid ad-drefniant arall, a allech egluro pam yr ydych yn datgan, ar wefan eich plaid, mai polisi eich plaid ar iechyd yw cael gwared â gweddillion y farchnad fewnol a chyfuno byrddau iechyd lleol ag ymddiriedolaethau GIG, gan greu 15 o gyrff? Ai ad-drefniant yw hynny ai peidio? Ynteu ai polisi sydd wedi dod i ben ydyw?

Rhodri Glyn Thomas: Yr ydych yn ceisio cyfiawnhau'r hyn na ellir ei gyfiawnhau o ran safbwynt eich plaid ar hyn, gan wybod nad yw'r byrddau iechyd lleol yn gweithio. Serch hynny, yr wyf yn ddiolchgar ichi am ddweud wrthyf mai Plaid Cymru—the Party of Wales yw'r unig blaid yn y Siambr sy'n gwrthwynebu'r farchnad fewnol yn y gwasanaeth iechyd, yr unig blaid sydd eisiau gwasanaeth iechyd sy'n cael ei reoli, a'r unig blaid sydd eisiau rhoi blaenoriaeth i wasanaethau'r rheng flaen. Gyda 22 o fyrddau iechyd lleol, gallwch gael rhai y gellid eu huno, ond mae arnom angen y sylfaen dystiolaeth cyn inni symud tuag at ad-drefnu. Dywed y bobl yn y sector iechyd hynny wrthyfych.

Os ydych yn credu eich sbin eich hun ynghylch hyn—fod byrddau iechyd lleol yn

independent evaluation, and let us see the evidence. It is clear that, in certain areas of Wales, local health boards are not working, and you have lumbered us with a situation that impedes prioritising front-line services. I urge you to vote for the motion and the amendment.

gweithio—pleidleisiwch o blaid gwerthusiad annibynnol, llawn, a gadewch inni weld y dystiolaeth. Mae'n amlwg, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, nad yw'r byrddau iechyd lleol yn gweithio, a'ch bod wedi rhoi inni sefyllfa sydd yn ein rhwystro rhag rhoi blaenoriaeth i wasanaethau'r rheng flaen. Fe'ch anogaf i bleidleisio o blaid y cynnig a'r gwelliant.

Gwelliant 1: O blaid 26, Ymatal 0, Yn erbyn 28.

Amendment 1: For 26, Abstain 0, Against 28.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Laura Anne
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
James, Irene
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Sargeant, Carl
Sinclair, Karen
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda

Gwrthodwyd y gwelliant.

Amendment defeated.

Cynnig (NDM2643): O blaid 20, Ymatal 0, Yn erbyn 34.

Motion (NDM2643): For 20, Abstain 0, Against 34.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Francis, Lisa
Graham, William
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane

Jones, Helen Mary
 Jones, Laura Anne
 Isherwood, Mark
 Lloyd, David
 Melding, David
 Morgan, Jonathan
 Randerson, Jenny
 Ryder, Janet
 Thomas, Rhodri Glyn
 Williams, Brynle
 Wood, Leanne

Davies, Andrew
 Dunwoody, Tamsin
 Essex, Sue
 German, Michael
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Gwyther, Christine
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 Idris Jones, Denise
 James, Irene
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Neagle, Lynne
 Pugh, Alun
 Sargeant, Carl
 Sinclair, Karen
 Thomas, Catherine
 Thomas, Gwenda
 Thomas, Owen John
 Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y cynnig.
 Motion defeated.*

**Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr Adolygiad
 o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl—Safon 2:
 Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr
 Report of the Health and Social Services Committee on the Review of the
 National Service Framework for Mental Health—Standard 2:
 User and Carer Participation**

David Melding: I propose that

the National Assembly for Wales, acting under Standing Orders Nos. 6.6 and 9.9, notes the Health and Social Services Committee Report, 'Review of the National Service Framework for Mental Health—Standard 2: User and Carer Participation', which was laid in the Table Office on 18 October 2005.(NDM2644)

I am honoured to propose the motion on behalf of the committee, which took the subject to be important in general. The need to improve mental health services is widely recognised, but there has always been a difficulty in ensuring that user and carer participation in the planning of services and in individual assessments is carried out to the optimum level. As soon as we announced the subject for the review, there was great interest in the community that we had chosen

David Melding: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan Reolau Sefydlog Rhif 6.6 a 9.9, yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 'Adolygiad o'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl—Safon 2: Cyfranogiad Defnyddwyr a Gofalwyr', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Hydref 2005.(NDM2644)

Mae'n anrhydedd i mi gyflwyno'r cynnig ar ran y pwyllgor, a oedd yn barnu bod y pwnc yn un pwysig yn gyffredinol. Cydnabyddir yn eang fod angen gwella gwasanaethau iechyd meddwl, ond mae anhawster wedi bod drwy'r amser o ran sicrhau hynny a ellir o gyfranogiad ymysg defnyddwyr a gofalwyr yn y broses o gynllunio gwasanaethau ac mewn asesiadau unigol. Cyn gynted ag y cyhoeddasom y pwnc ar gyfer yr adolygiad, gwelwyd cryn ddiddordeb yn y gymuned am

this area for study. We received more than 50 written responses, and we had to hold four committee meetings to take oral evidence. Many people with mental health conditions and many of their carers gave direct evidence to us. We were proud of them for sharing their experience. In some of those sessions, it was deeply moving for committee members to hear directly from people who are so intimately affected. To mention one project in particular, members of a group of teenagers in Cardiff, supported by Barnardo's, talked about their experience of acute services.

As far as the committee was concerned, there was strong evidence to suggest that we need to do more to improve user and carer participation. The essence of that is effective support. We heard about a couple of pilot projects, backed by the Assembly Government, to employ user-development officers. Those projects are running in Merthyr Tydfil and Rhondda Cynon Taf. We were impressed by the networks that they were developing. We found clear evidence that their commitment, their contact with various users, carers, local authorities, trusts and local health boards, and the way in which they spread the skills and good practice, has a dramatic effect on the way that participation works.

We also heard evidence that NHS staff and social services staff need to be trained in participation techniques. I should add that the committee and the Assembly needs some training, and if we were to run this review again, we would certainly interact with the users and the carers in a different way and see how we could perhaps improve our participation techniques and how we get out and get that kind of direct experience that informs our work. However, we should not assume that people who are making decisions and commissioning services—and clinicians, indeed—have a natural ability to engage in effective participation with a range of interests and bodies. They need expertise and encouragement to ensure that they are constantly improving their technique in this

ein bod wedi dewis y maes hwn ar gyfer ei astudio. Cawsom dros 50 o ymatebion ysgrifenedig, a bu'n rhaid inni gynnal pedwar cyfarfod o'r pwyllgor i gymryd tystiolaeth lafar. Bu i lawer o bobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl a llawer o'u gofalwyr roi tystiolaeth uniongyrchol ger ein bron. Yr oeddem yn falch iawn ohonynt am rannu eu profiad. Mewn rhai o'r sesiynau hynny, yr oedd clywed yn uniongyrchol oddi wrth bobl y mae hyn yn effeithio mor bersonol arnynt yn cyffwrdd aelodau'r pwyllgor yn fawr. A sôn am un prosiect yn benodol, siaradodd aelodau o grŵp o unigolion yn eu harddegau yng Nghaerdydd, a'r rheini'n cael eu cynorthwyo gan Barnardo's, am eu profiad o wasanaethau aciwt.

Cyn belled ag yr oedd y pwyllgor yn y cwestiwn, yr oedd tystiolaeth gref i awgrymu bod yn rhaid inni wneud rhagor i wella cyfranogiad defnyddwyr a gofalwyr. Hanfod hynny yw cymorth effeithiol. Clywsom am ddau brosiect peilot, a gefnogir gan Lywodraeth y Cynulliad, i gyflogi swyddogion datblygu defnyddwyr. Cynhelir y prosiectau hynny ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Yr oedd y rhwydweithiau yr oeddent yn eu datblygu yn rhai da iawn. Gwelsom dystiolaeth glir bod eu hymrwymiad, eu cyswllt gydag amrywiol ddefnyddwyr, gofalwyr, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau a byrddau iechyd lleol, a'r modd yr oeddent yn lledaenu'r sgiliau a'r arferion da, wedi cael effaith ddramatig ar y ffordd y mae cyfranogiad yn gweithio.

Clywsom dystiolaeth hefyd fod angen i staff y gwasanaeth iechyd gwladol a staff y gwasanaethau cymdeithasol gael eu hyfforddi mewn technegau cyfranogiad. Dylwn ychwanegu bod ar y pwyllgor a'r Cynulliad angen peth hyfforddiant, a phe baem yn cynnal yr adolygiad hwn eto, byddem yn bendant yn cysylltu gyda'r defnyddwyr a'r gofalwyr mewn ffordd wahanol a gweld sut y gallem o bosibl wella ein technegau cyfranogiad a'r modd yr awn allan i gael y math hwn o brofiad uniongyrchol sy'n llywio ein gwaith. Serch hynny, ni ddylem dybio bod gan bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac yn comisiynu gwasanaethau—a chlinigwyr, yn wir—allu naturiol i sicrhau cyfranogiad effeithiol gydag amrywiol fuddiannau a chyrrff. Mae arnynt angen arbenigedd ac

area.

We felt that there was quite a lot of good practice, but it was not necessarily common practice. There was also evidence that the good practice tended to be a bit later in the stage of developing policies and that the process, at its initial stage, was much weaker. It is there that some of the more strategic decisions are made and we need to involve users and carers as early in the process as possible to get maximum benefit. We heard some good examples of areas where practice could be improved quite dramatically. For example, on the recruitment of psychiatrists, there should be someone on the panel who is a user or carer. What a message that would send to senior staff when they are being recruited—to face a series of questions from a user or carer.

We commended much that has been done by the Assembly Government and ‘Stronger in Partnership’ is broadly the right way forward. However, it needs to be strengthened in terms of the process at the early stages of participation and developing policies. That is probably the weakest area and the area in which we need more investment and support so that the participation is effective.

Finally—rather sadly, but it is a real challenge—we need to address the difficulty that we have in terms of overcoming stigma. We need to use this policy area as a way of overcoming stigma and improving the understanding of mental health issues. One concrete suggestion that we have made is that the Government should sponsor an award scheme to celebrate the achievements of people who are living with mental illness or who have recovered from it. Many of the people who become involved in planning have themselves been directly affected, and it is a great act of generosity by those people that they are prepared to draw on their experience, painful as it sometimes is.

I look forward to this afternoon’s debate and to the Welsh Assembly Government’s response in due course. I thank all those involved in mental health services, the carers

anogaeth i sicrhau eu bod yn gwella eu techneg yn y maes hwn yn barhaus.

Teimlem fod cryn dipyn o arferion da, ond nad oeddent o anghenraid yn arferion cyffredin. Gwelwyd tystiolaeth hefyd fod yr arferion da yn tueddu i fod ychydig yn ddiweddarach yn y cam o lunio polisïau a bod y broses, yn ei cham cyntaf, yn llawer gwannach. Bryd hynny y gwneir rhai o’r penderfyniadau mwy strategol a rhaid inni gynnwys defnyddwyr a gofalwyr cyn gynted â phosibl yn y broses er mwyn cael y budd gorau posibl. Clywsom rai esiamplau da o feysydd lle y gellid gwella’r arferion yn eithaf sylweddol. Er enghraifft, o ran recriwtio seiciatryddion, dylai fod rhywun ar y panel sy’n ddefnyddiwr neu’n ofalwr. Dyna neges y byddai hynny yn ei chyfleu i uwch staff adeg eu recriwtio—wynebu cyfres o gwestiynau oddi wrth ddefnyddiwr neu ofalwr.

Cymeradwyasom llawer sydd wedi ei wneud gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae’r ddogfen ‘Nerth mewn Partneriaeth’ yn mynd i’r cyfeiriad iawn at ei gilydd. Serch hynny, rhaid ei chryfhau yng nghyswllt y broses yn y camau cynnar o ran cyfranogiad a datblygu polisïau. Mae’n debyg mai hwnnw yw’r maes gwannaf a’r maes lle y mae angen rhagor o fuddsoddiad a chymorth fel bod y cyfranogi’n effeithiol.

Yn olaf—ac mae hyn yn drist braidd, ond mae’n her wirioneddol—mae’n rhaid inni roi sylw i’r anhawster sydd gennym o ran goresgyn stigma. Rhaid inni ddefnyddio’r maes polisi hwn fel ffordd o oresgyn stigma a gwella’r ddealltwriaeth o faterion iechyd meddwl. Un awgrym pendant yr ydym wedi ei wneud yw y dylai’r Llywodraeth noddi cynllun gwobrwyo i ddathlu’r hyn y mae pobl sy’n byw gyda salwch meddwl neu sydd wedi gwella ohono wedi ei gyflawni. Mae llawer o’r bobl sy’n ymwneud â chynllunio wedi dioddef yn uniongyrchol eu hunain, a gweithred hael iawn gan y bobl hynny yw eu bod yn barod i ddefnyddio eu profiad, er mor boenus ydyw ambell dro.

Edrychaf ymlaen at y ddadl y prynhawn yma ac at ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru maes o law. Diolchaf i bawb o’r rhai sy’n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl,

and the users, and finally, the secretariat of the Health and Social Services Committee, which assisted us so ably in drawing up this report.

Rhodri Glyn Thomas: Ate gaf ddiolch Cadeirydd y pwyllgor i'r ysgrifenyddiaeth am ei gwaith o gynorthwyo gyda'r adroddiad, a diolchaf hefyd i'r tystion a gyflwynodd dystiolaeth ger ein bron. Yr oedd y dystiolaeth, ar adegau, yn ddirdynol, yn enwedig pan oedd pobl ifanc a phlant yn sôn am y diffygion amlwg yn y gwasanaeth yng Nghymru. Dywedodd pob mudiad a ddaeth gerbron y pwyllgor yn gwbl glir mai'r hyn sydd ei angen yw buddsoddi mewn gwasanaethau sylfaenol. Mae'r gwasanaethau yn annigonol ac mae'r fframwaith yn wannach yng Nghymru nag ydyw yn Lloegr. Mae'n glir hefyd mai camgymeriad mawr fyddai mabwysiadu Deddf iechyd meddwl newydd yng Nghymru yn y sefyllfa bresennol.

Cyflwynodd y gwrthbleidiau i gyd y dystiolaeth honno gerbron y pwyllgor craffu a oedd yn edrych ar y mater hwn dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Carlile. Derbyniodd y pwyllgor ein dystiolaeth ni a chefnogi'n cais, ond yn anffodus mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fynnu gweithredu'r Ddeddf honno. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno nifer o argymhellion y byddai'n dda pe baent yn cael eu gweithredu, ond mae gwaith enfawr i'w wneud er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yng Nghymru yn ddigonol.

5.10 p.m.

Nid wyf am wneud mwy na chyflwyno sylwadau cyffredinol ar hyn o bryd. Yr wyf am gadw fy sylwadau manwl hyd nes inni glywed ymateb swyddogol y Llywodraeth i'r adroddiad hwn. Bryd hynny, cawn edrych ar fanylion yr hyn sydd angen ei gyflawni. Mae'r adroddiad hwn yn dangos pa mor amrywiol ac annigonol yw'r ddarpariaeth, a chymaint o waith sydd angen ei wneud er mwyn darparu gwasanaeth haeddiannol i bobl sy'n dioddef o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl. Gadewch i ni gofio bod arolygon yn dweud bod y grŵp hwnnw'n cynnwys tua 25 y cant o boblogaeth Cymru.

y gofalwyr a'r defnyddwyr, ac yn olaf, ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'n cynorthwyodd mor fedrus i lunio'r adroddiad hwn.

Rhodri Glyn Thomas: I endorse the Chair of the committee's thanks to the secretariat for its work in assisting with the report, and I also thank all the witnesses who presented us with evidence. The evidence, at times, was harrowing, especially when young people and children spoke of the obvious deficiencies in the service in Wales. Every organisation that came before the committee told us clearly that what is needed is investment in basic services. Those services are insufficient and the framework is weaker in Wales than it is in England. It is also clear that it would be a great mistake to adopt the new mental health Act in Wales in the current situation.

All the opposition parties presented that evidence to the scrutiny committee that was looking at this issue under the chairmanship of Lord Carlile. It accepted our evidence and supported our request but, unfortunately, the Government of Wales continues to insist upon implementing that Act. This report presents many recommendations that should be implemented, but there is much work to be done to ensure adequate provision in Wales.

I do not wish to do more than make general comments at the moment. I will keep my detailed comments until we hear the Government's official response to this report. It is at that point that we will be able to look at the details of what should be done. This report shows how varied and inadequate the provision is, and how much work needs to be done to provide a worthy service for the people who suffer mental health problems. Let us remember that surveys tell us that that group includes about 25 per cent of the population of Wales. Those people deserve a service and it is not consistently available at

Mae'r bobl hynny yn haeddu'r gwasanaeth ac the moment.
nid yw ar gael yn gyson ar hyn o bryd.

Val Lloyd: The evidence taken by the committee was an eye-opener for many, if not all, of us. My colleagues on the Health and Social Services Committee will remember the presentation made by young service users, who had overcome seemingly insurmountable mental health problems and had been able to recover enough to cogently present committee members with their experiences and views of the service.

During the evidence sessions, contributors raised many thought-provoking points and the value of integrating service users into the planning and delivery of services was clear. In moving towards this model of care, design and delivery, the user is empowered and can derive greater benefits from his or her treatment as a result.

While the service users and carers who we met had mixed feelings about the services that they had experienced, it was clear that all favoured a greater role in the process and they valued the recognition given to them by the committee. I have spoken with local user groups and support workers in my constituency about the committee's report and they welcome its recommendations and are especially pleased that the Assembly has recognised the value of involving carers and service users in the design and delivery of the service. We need that to be a central focus.

A key recommendation, and one that I hope is taken forward by the Minister, is the introduction of user-involvement development officers. That title is quite a mouthful, but the topic is well worth it. Their role would include training individual users and carers to participate in the planning, commissioning, monitoring and evaluation of services. That is getting it down to on-the-ground level. They would need to undergo specialist training to enable them to dedicate

Val Lloyd: Yr oedd y dystiolaeth y gwrandawodd y pwyllgor arni yn agoriad llygad i lawer, os nad i'r cyfan, ohonom. Bydd fy nghyd-Aelodau ar y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cofio'r cyflwyniad a wnaeth rhai ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a oedd wedi goresgyn problemau iechyd meddwl a oedd yn anorchfygol, i bob golwg, ac a oedd wedi gallu gwella digon i gyflwyno'n argyhoeddiadol gerbron aelodau'r pwyllgor eu profiadau a'u barn am y gwasanaeth.

Yn ystod y sesiynau tystiolaeth, cododd y cyfranwyr nifer o bwyntiau a oedd yn peri inni feddwl yn ofalus ac yr oedd gwerth integreiddio defnyddwyr gwasanaethau i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau yn amlwg. Wrth symud tuag at y model hwn o ofal, cynllunio a darparu, caiff y defnyddiwr ei rymuso ac o ganlyniad gall y driniaeth esgor ar well manteision iddo ef neu hi.

Tra bo gan y gofalwyr a defnyddwyr y gwasanaeth y cyfarfuom â hwy deimladau cymysg am y gwasanaethau yr oeddent wedi eu profi, yr oedd yn amlwg bod pob un yn ffafrio rôl fwy yn y broses a'u bod yn gwerthfawrogi'r gydnabyddiaeth a roddodd y pwyllgor iddynt. Yr wyf wedi siarad gyda grwpiau defnyddwyr a gweithwyr cymorth lleol yn fy etholaeth ynghylch adroddiad y pwyllgor ac maent yn croesawu ei argymhellion ac maent yn arbennig o falch bod y Cynulliad wedi cydnabod gwerth cynnwys gofalwyr a defnyddwyr y gwasanaeth yn y broses o gynllunio a darparu'r gwasanaeth. Mae angen i hynny fod yn ffocws canolog.

Un o'r argymhellion allweddol, ac un gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gweithredu arno, yw cyflwyno swyddogion datblygu cyfranogiad defnyddwyr. Mae hynny'n llond ceg o deitl, ond mae'r testun yn werth chweil. Byddai eu rôl yn cynnwys hyfforddi defnyddwyr a gofalwyr unigol i gyfranogi yn y broses o gynllunio, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau. Mae hynny'n golygu ymwneud â'r mater ar lefel llawr gwlad.

more quality time with patients and I think that that would foster an environment of trust and engagement with service users and increase confidence. However, we must take care to make that approach a reality and to move away from what is often seen to be a tokenistic approach—that was mentioned in too much of the evidence that was given to us.

I am conscious of time, therefore I will just say that I look forward to seeing the committee's positive and unanimous recommendations being taken forward to ensure that the mental health national service framework standard 2 contributes to an excellent service for those who use it.

Jonathan Morgan: I welcome this debate and hope that the recommendations will be implemented by the Assembly Government as quickly as possible. We have to bear the statistic in mind that roughly 25 per cent of the population will, at some stage, face a mental illness. Those illnesses may range from a mild form of depression to more severe needs in many cases, but that statistic is quite startling. Why we need to ensure that the system is improved is clear.

We heard some difficult evidence. On some occasions, I left the evidence-taking sessions feeling quite downhearted as, I know, did other Members. In a sense, we were uplifted by the way in which many users were willing to come to the committee—users who had had particularly difficult experiences, some of which quite harrowing, but who were willing to share those experiences with us to help to guide us in our deliberations. I thank all the users who came to the committee, and also the carers and professionals who contributed. It was thought-provoking evidence, from our perspective, and extremely worthwhile, when you consider the range of recommendations.

A major issue of concern to me at the time

Byddai'n rhaid iddynt gael hyfforddiant arbenigol er mwyn eu galluogi i dreulio rhagor o amser gwerth chweil gyda chleifion a chredaf y byddai hynny'n meithrin ymddiriedaeth a chysylltiad gyda defnyddwyr y gwasanaeth ac yn cynyddu hyder. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn gwireddu'r dull hwnnw o weithredu a chefnu ar yr hyn a ystyrir yn aml yn ddull symbolaidd—crybwyllwyd hynny mewn gormod o'r dystiolaeth a roddwyd inni.

Yr wyf yn ymwybodol o'r amser sydd ar gael, felly ni wnaaf ond dweud fy mod yn edrych ymlaen at weld argymhellion cadarnhaol ac unfrydol y pwyllgor yn cael eu gweithredu i sicrhau bod y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer iechyd meddwl safon 2 yn cyfrannu at wasanaeth ardderchog i'r rhai sy'n ei ddefnyddio.

Jonathan Morgan: Croesawaf y ddadl hon a gobeithiaf y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu'r argymhellion cyn gynted â phosibl. Rhaid inni gadw cof y bydd tua 25 y cant o'r boblogaeth, ar ryw adeg, yn ôl yr ystadegau, yn wynebu anhwylder meddwl. Mae'n bosibl i'r anhwylderau hyn amrywio o ffurf ysgafn ar iselder ysbryd i anghenion mwy difrifol mewn llawer o achosion, ond mae'r ystadegau hyn yn eithaf dychrynllyd. Mae'n amlwg pam mae'n rhaid inni sicrhau bod y system yn cael ei gwella.

Clywsom beth tystiolaeth anodd. Ar rai adegau, yr oeddwn yn teimlo'n ddigalon iawn wrth adael y sesiynau cymryd tystiolaeth, a gwn fod Aelodau eraill yn teimlo yr un modd. Ar ryw ystyr, yr oedd y modd yr oedd llawer o ddefnyddwyr yn barod i ddod i'r pwyllgor yn galonogol inni—defnyddwyr a oedd wedi cael profiadau eithriadol o anodd, rhai ohonynt yn ddirdynnol iawn, ond a oedd yn barod i rannu'r profiadau hynny gyda ni er mwyn helpu i'n harwain yn ein trafodaethau. Diolchaf i'r holl ddefnyddwyr a ddaeth i'r pwyllgor, a hefyd i'r gofalwyr a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd. Yr oedd yn dystiolaeth a oedd yn gorfodi rhywun i feddwl, o'n safbwynt ni, ac yn gwbl werth chweil, wrth ichi ystyried ystod yr argymhellion.

Testun pryder mawr i mi ar y pryd oedd y

was the way in which patients and carers were almost cut out of the process when it came to the design, delivery, implementation and evaluation of care plans. There is almost an assumption among some of the professionals—I would not say that this is the case across the board—that somebody who has experienced mental illness might not have the cognitive reasoning to understand what is happening and, therefore, would not be in a position to contribute to the planning arrangements. Dangerous assumptions can be made about the people affected by particular mental illnesses, and I want to ensure that the Assembly gets this bit right. We need to ensure that, where possible, patients and carers are involved in the planning, delivery, implementation and evaluation of those care plans, because they are the people at the coalface. This applies particularly to those acting in a caring role, as they will experience at first hand the introduction of care plans. I hope that, in particular, recommendation 4 in the report, in addition to the other recommendations that refer to care planning, will be implemented as quickly as possible.

The report is not huge, but it represents a huge amount of work with regard to what it will achieve in its engagement of those people who have a caring role and the users of services. Most importantly, it is about tying up the best practice, because, although we heard of bad examples, we also heard of good examples. In getting the agencies to work together—I mentioned the fragmentation within the health service because of local health boards—there is an opportunity with regard to the delivery of mental health services to have a more coherent service across Wales. It is one of those services that can be rather patchy, and we should not settle for a postcode lottery in the delivery of mental health services. The Assembly and the Assembly Government could make a real difference here, and I look forward to the Government's response.

Jenny Randerson: Mental health treatment takes the largest single share of the health budget, and it is still, largely, a hidden illness. Mental illness is at the point now where, perhaps, cancer was 25 years ago, in that

ffordd yr oedd cleifion a gofalwyr fwy neu lai'n cael eu torri allan o'r broses o safbwynt cynllunio, darparu, gweithredu ac arfarnu cynlluniau gofal. Mae rhagdybiaeth bron ymhlith rhai o'r bobl broffesiynol—ni ddywedwn fod hyn yn wir yn gyffredinol—fod rhywun sydd wedi cael salwch meddwl efallai yn brin o'r gallu i resymu'n wybyddol er mwyn deall beth sy'n digwydd ac, felly, na fyddai'n gallu cyfrannu at y trefniadau cynllunio. Gellir gwneud rhagdybiaethau peryglus am y bobl yr effeithiwyd arnynt gan ambell salwch meddwl penodol, ac mae arnaf eisiau sicrhau bod y Cynulliad yn gwneud y peth iawn yn hyn o beth. Mae angen sicrhau, lle y bo modd, fod cleifion a gofalwyr yn cael rhan yn y broses o gynllunio, darparu, gweithredu ac arfarnu'r cynlluniau gofal hynny, am mai hwy yw'r bobl sydd yng nghanol y sefyllfa. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl sy'n gweithredu mewn rôl ofalu, gan y bydd cyflwyno cynlluniau gofal yn effeithio arnynt hwy'n uniongyrchol. Gobeithiaf y caiff argymhelliad 4 yn yr adroddiad, yn benodol, yn ogystal â'r argymhellion eraill sydd yn cyfeirio at gynllunio gofal, ei weithredu cyn gynted ag y bo modd.

Nid yw'r adroddiad yn enfawr, ond mae'n golygu gwaith enfawr o ran yr hyn y gwnaiff ei gyflawni o ran ei effaith ar bobl sydd â rôl ofalu a rhai sydd yn defnyddio gwasanaethau. Y peth pwysicaf yw ei fod yn casglu ynghyd yr arferion gorau, oherwydd, er inni glywed am enghreifftiau gwael, clywsom hefyd am enghreifftiau da. Wrth gael gan yr asiantaethau gydweithio—soniais am yr ymrannu sydd yn y gwasanaeth iechyd oherwydd byrddau iechyd lleol—ceir cyfle ym maes darparu gwasanaethau iechyd meddwl i sicrhau gwasanaeth mwy cydlynol ledled Cymru. Mae'n un o'r gwasanaethau hynny a all fod braidd yn dameidiog, ac ni ddylem fodloni ar loteri cod post o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Gallai'r Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad wneud gwahaniaeth go iawn yma, ac edrychaf ymlaen at ymateb y Llywodraeth.

Jenny Randerson: Mae trin iechyd meddwl yn mynd â'r gyfran unigol fwyaf o'r gyllideb iechyd, a salwch cudd ydyw o hyd, i raddau helaeth. Mae salwch meddwl wedi cyrraedd y pwynt erbyn hyn lle'r oedd cancer 25

people are still frightened to refer to the fact that they or relatives have a mental illness. However, as Jonathan said, more people will be affected by mental illness than, for example, by cancer. It is important that the report's conclusions are rapidly put into practice.

The evidence in the report was taken before I became a member of the Health and Social Services Committee, and I have read the report and its conclusions in the final stages with great interest, as one who is on a steep learning curve on these issues. The report is extremely sensitive to the issues raised within it.

I will raise some specific points on the recommendations. The first is the importance of training staff, right down to primary care level. I was impressed by the evidence from the Disability Rights Commission, which is currently conducting a study. The commission said that many people with a mental illness find it difficult to access primary care. That is not necessarily primary care for their mental illness, but primary care for their physical illnesses, because people with mental illnesses have physical illnesses in the same way that everyone else does, and they tend to receive less treatment, which, as a result is often not as good as that given to others. I hope that the Minister can accept the fact that primary care staff need appropriate training.

Also, there is the importance of care plans being accepted by those who are cared for. Consent to care is important with regard to getting people to work with the treatment that they are receiving, so that they take their medication on a regular basis, keep appointments and so on.

Finally, it is important that we ensure that we learn from good practice and replicate it elsewhere, despite the fact that there are massive holes in the healthcare available and a phenomenal job to do. Funding must be made available for the proposed crisis teams to be set up. Despite that, there is good practice, and it is important that it is

mlynedd yn ôl, efallai, am fod ar bobl ofn crybwyll y ffaith bod salwch meddwl arnynt hwy neu ar berthnasau iddynt o hyd . Fodd bynnag, fel y dywedodd Jonathan, bydd salwch meddwl yn effeithio ar fwy o bobl na chanser, er enghraifft. Mae'n bwysig i gasgliadau'r adroddiad gael eu gweithredu'n fuan.

Cyflwynwyd y dystiolaeth sydd yn yr adroddiad cyn i mi ddod yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yr wyf wedi darllen yr adroddiad a'i gasgliadau ar y diwedd gyda diddordeb mawr, fel un sydd â llawer i'w ddysgu mewn amser byr iawn am y materion hyn. Mae'r adroddiad yn hynod o sensitif i'r materion a godir ynddo.

Codaf ambell bwynt penodol ynghylch yr argymhellion. Y cyntaf yw pwysigrwydd hyfforddi staff, a hynny hyd at lefel gofal sylfaenol. Gwnaeth y dystiolaeth gan y Comisiwn Hawliau Anabledd, sydd wrthi ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth, gryn argraff arnaf. Dywedodd y comisiwn fod llawer o bobl â salwch meddwl yn ei chael yn anodd cael mynediad at ofal sylfaenol; nid gofal sylfaenol ar gyfer eu salwch meddwl o reidrwydd, ond gofal sylfaenol ar gyfer unrhyw salwch corfforol, oherwydd bydd pobl â salwch meddwl yn cael afiechydon corfforol yr un fath â phawb arall, a thueddant i gael llai o driniaeth, triniaeth sydd, o ganlyniad, yn aml heb fod cystal â'r hyn a roddir i eraill. Gobeithiaf y gall y Gweinidog dderbyn y ffaith bod angen hyfforddiant priodol ar staff gofal sylfaenol.

Hefyd, mae'n bwysig i gynlluniau gofal gael eu derbyn gan y rhai y gofelir amdanynt. Mae cydsynio â derbyn gofal yn bwysig o safbwynt cael pobl i weithio gyda'r driniaeth y maent yn ei chael, fel y byddant yn cymryd eu meddyginiaeth yn rheolaidd, yn cadw apwyntiadau ac yn y blaen.

Yn olaf, mae'n bwysig inni sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth arferion da ac yn eu copïo mewn mannau eraill, er gwaethaf y ffaith bod bylchau anferth yn y gofal iechyd sydd ar gael a bod gwaith aruthrol i'w wneud. Rhaid sicrhau bod cyllid ar gael er mwyn sefydlu'r timau argyfwng arfaethedig. Er gwaethaf hynny, ceir arferion da, ac mae'n

disseminated and applied widely throughout Wales. I commend the report.

5.20 p.m.

David Melding: I thank the Members who have taken part in the debate.

Rhodri Glyn said that the key response will be that of the Welsh Assembly Government, and I agree with him about 95 per cent. We hope that the Executive takes up the issue, and I anticipate that it will, but we are not completely helpless in this process. The committee will scrutinise the Minister's response and track the implementation of the parts of the report that are accepted. I am sure that it will be a very productive process with the Minister, and that will clearly be an important aspect of the work of the Health and Social Services Committee.

Val Lloyd referred to the Barnardo's project and the service users from which we heard, who gave very powerful testimony. Val then moved on to the issue of effective care planning that means that people own their plans and feel part of the process. We often heard in evidence that people felt that they were the subject of something and were not involved in the process as the centre of the situation. This led to many of the social issues around mental illness being overlooked, so that leisure and work interests, or whatever, while not being deliberately ignored, were not taken fully into account. It was right to say that development officers are key to supporting users and carers and to developing techniques, but are also key in terms of offering training to professionals in the health and social services. They often also need that support, and we cannot assume that they have the necessary expertise automatically.

Jonathan Morgan referred to the power of the evidence from the users. I think that we all felt that they were generous and courageous in talking about their experiences—sometimes current experiences—and this,

bwysig iddynt gael eu lledaenu a'u defnyddio'n helaeth ar hyd a lled Cymru. Cymeradwyaf yr adroddiad.

David Melding: Diolch i'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddatl.

Dywedodd Rhodri Glyn mai ymateb Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol fydd yr ymateb allweddol, a chytunaf ag ef tua 95 y cant. Gobeithiwn y gwnaiff y Weithrediaeth fynd i'r afael â hyn, a rhagwelaf y gwnaiff, ond nid ydym ninnau'n gwbl ddiymadferth yn y broses hon. Bydd y pwyllgor yn craffu ar ymateb y Gweinidog ac yn dilyn y modd y caiff y rhannau o'r adroddiad a dderbynnir eu rhoi ar waith. Yr wyf yn siŵr y bydd yn broses gynhyrchiol iawn gyda'r Gweinidog, ac yn amlwg bydd hynny'n agwedd bwysig ar waith y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyfeiriodd Val Lloyd at brosiect Barnardo's a'r defnyddwyr gwasanaethau y clywsom ganddynt, ac a roddodd dystiolaeth rymus dros ben. Yna symudodd Val ymlaen at fater cynllunio gofal yn effeithiol, sy'n golygu bod pobl yn perchenogi eu cynlluniau ac yn teimlo'n rhan o'r broses. Clywsom yn aml mewn tystiolaeth fod pobl yn teimlo mai testun rhywbeth oeddent ac nad oedd ganddynt ran yn y broses fel canolbwynt y sefyllfa. Arweiniodd hyn at esgeuluso llawer o'r problemau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â salwch meddwl, nes bod diddordebau hamdden a gwaith, neu beth bynnag y bo, er nad yn cael eu diystyru'n fwriadol, heb gael eu hystyried yn llawn. Cywir oedd dweud bod swyddogion datblygu'n allweddol i gynorthwyo defnyddwyr a gofalwyr ac i ddatblygu technegau, ond eu bod yn allweddol hefyd o ran cynnig hyfforddiant i staff proffesiynol yn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae arnynt hwythau angen y cymorth hwnnw'n aml, ac ni allwn gymryd bod yr arbenigedd angenrheidiol ganddynt yn awtomatig.

Cyfeiriodd Jonathan Morgan at rym y dystiolaeth gan y defnyddwyr. Credaf ein bod ni i gyd wedi teimlo eu bod yn hael ac yn ddewr wrth sôn am eu profiadau—profiadau cyfredol weithiau—a rhoddodd hyn, heb os,

undoubtedly, made the report very authentic in terms of its evidence base. Jonathan also said that some users felt left out of the planning process for their services. That situation cannot be seen as best practice or as even remotely acceptable.

Jenny Randerson talked about stigma. The issue was not directly part of the report initially, but it became more of a factor because so many referred to it. Jenny is right to say that mental health, in a sense, is in the same situation as cancer was a generation ago, when people were reluctant to talk about it because of some latent fear that they would become more susceptible to it by talking about it. I do not know what makes people so reticent to talk about it, but it is not a healthy situation for the general population to be in, and we need to be more candid about referring to mental health in general.

Jenny joined the committee after the evidence was taken, but I thank her for the interest that she has taken in the report, and we welcome the comments that she has made.

I commend the report and the motion to the Assembly, and I look forward to the next part of the process when the Executive will respond.

*Cynnig (NDM2644): O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM2644): For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Burnham, Eleanor
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Dunwoody, Tamsin
Essex, Sue
Francis, Lisa
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William

ddilysrwydd mawr i'r adroddiad o ran ei sylfaen dystiolaeth. Dywedodd Jonathan hefyd fod rhai defnyddwyr yn teimlo eu bod wedi'u gadael allan o'r broses gynllunio ar gyfer eu gwasanaethau. Ni ellir ystyried bod y sefyllfa honno'n un o'r arferion gorau na hyd yn oed fymryn bach yn dderbyniol.

Soniodd Jenny Randerson am stigma. Nid oedd hyn yn rhan uniongyrchol o'r adroddiad ar y dechrau, ond daeth yn fwy o ffactor am fod cymaint wedi cyfeirio ato. Mae Jenny yn iawn pan ddywed fod iechyd meddwl, mewn ffordd, yn yr un sefyllfa ag a oedd canser genhedlaeth yn ôl, pan oedd pobl yn gyndyn o siarad amdano oherwydd rhyw ofn dirgel y byddent yn fwy tueddol o'i gael wrth siarad amdano. Ni wn beth sydd yn peri i bobl fod mor gyndyn o siarad amdano, ond nid yw'n sefyllfa iach i'r boblogaeth gyffredinol fod ynnddi, ac mae angen inni fod yn fwy agored ynghylch sôn am iechyd meddwl yn gyffredinol.

Ymunodd Jenny â'r pwyllgor wedi i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno, ond diolchaf iddi am y diddordeb y mae hi wedi ei gymryd yn yr adroddiad, a chroesawn y sylwadau a wnaeth.

Cymeradwyaf yr adroddiad a'r cynnig i'r Cynulliad, ac edrychaf ymlaen at ran nesaf y broses pan fydd y Weithrediaeth yn ymateb.

Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Idris Jones, Denise
Isherwood, Mark
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Laura Anne
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Melding, David
Mewies, Sandy
Morgan, Jonathan
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Catherine
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Brynle

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

The Deputy Presiding Officer: That **Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â
concludes today's proceedings. chyfarfod heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.24 p.m.
The meeting ended at 5.24 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davidson, Jane (Llafur – Labour)
Davies, Andrew (Llafur – Labour)
Davies, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Glyn (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Davies, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Dunwoody, Tamsin (Llafur - Labour)
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Essex, Sue (Llafur – Labour)
Francis, Lisa (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)

Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Gwyther, Christine (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Idris Jones, Denise (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Laura Anne (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Law, Peter (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Marek, John (Cymru Ymlaen – Forward Wales)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Pugh, Alun (Llafur – Labour)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Catherine (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Owen John (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymru – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)